



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 2914 (Cy.211)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud

18 Hydref 2005

Yn dod i rymyn unol â rheoliad 1(1)

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 2914 (W.211)

EDUCATION, WALES

The Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005

Made

18 October 2005

Coming into force in accordance with regulation 1(1)

£10.50



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 2914 (Cy.211)

2005 No. 2914 (W.211)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion
a Gynhelir (Cymru) 2005

The Government of Maintained
Schools (Wales) Regulations 2005

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, yng Nghymru. Ar ôl 31 Hydref 2005, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu pob ysgol newydd gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Ar ôl 1 Medi 2008, rhaid i gyfansoddiad pob corff llywodraethu sy'n bodoli eisoes gydymffurfio â'r rheoliadau hyn, ond tan y dyddiad hwnnw gallant ddewis naill ai cadw eu hofferynnau llywodraethu presennol ynteu fabwysiadu offeryn llywodraethu newydd yn unol â'r Rheoliadau hyn.

These Regulations set out the new arrangements for the constitution of governing bodies of maintained schools, including maintained nursery schools, in Wales. After 31 October 2005, all governing bodies of new schools must be constituted in accordance with these Regulations. After 1 September 2008, all existing governing bodies must be constituted in accordance with these regulations, but until that date they may choose whether to retain their existing Instruments of Government or to adopt a new one in accordance with these Regulations.

Mae **Rhan 1** yn darparu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 31 Hydref 2005 a 1 Ionawr 2006, yn nodi'r Rheoliadau sydd i gael eu dirymu neu eu diwygio (yn bennaf Rhannau I i III a Rhan VIII o Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) OS 1999/2242 (Cy. 2)) ac yn cynnwys y darpariaethau dehongli.

Part 1 provides for the Regulations to come into force on 31 October 2005 and 1 January 2006, sets out the Regulations that are to be revoked or amended (mainly Parts I to III and Part VIII of the Education (School Government) (Wales) Regulations 1999 SI 1999/2242 (W.2)) and contains the interpretation provisions.

Mae **Rhan 2** yn disgrifio'r gwahanol gategoriâu o lywodraethwyr. Mae rheoliad 4 ac Atodlen 1 yn ymdrin â rhiant-lywodraethwyr ac yn nodi ar ba sail y gall unigolyn fod yn gymwys i sefyll i'w ethol ac i bleidleisio dros riant-lywodraethwr neu gael ei benodi'n rhiant-lywodraethwr.

Part 2 describes the various categories of governor. Regulation 4 and Schedule 1 deal with parent governors and set out the basis on which a person may qualify to stand for election and to vote for a parent governor or to be appointed as a parent governor.

Mae rheoliad 5 yn ymdrin ag athro-lywodraethwyr a rheoliad 6 â staff-lywodraethwyr nad ydynt yn athrawon. Mae'r pennaeth yn llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd ond gall ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr (neu dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl) ar unrhyw adeg. Mae Atodlen 2 yn ymdrin â'r broses o ethol athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr.

Regulation 5 deals with teacher governors and regulation 6 deals with staff governors who are not teachers. The head teacher is a governor by virtue of his or her position but may resign his or her governorship (or withdraw his or her resignation) at any time. Schedule 2 deals with the election process for teacher and staff governors.

Mae rheoliad 7 yn ymdrin â phenodi llywodraethwyr AALI.

Mae rheoliad 8 yn nodi pwy sy'n gymwys i gael ei benodi'n llywodraethwr cymunedol. Mae rheoliad 9 yn ymdrin â phenodi llywodraethwyr sefydledig, gan gynnwys llywodraethwyr sefydledig *ex officio* a dirprwy lywodraethwyr. Mae rheoliad 10 ac Atodlen 3 yn ymdrin â'r broses enwebu ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth, ac â'u penodi.

Mae rheoliad 11 yn darparu ar gyfer penodi noddwrlywodraethwyr ac Atodlen 4 yn ymdrin â'r broses ar gyfer eu penodi.

Mae rheoliad 12 a pharagraffau (4) a (5) o reoliad 15 yn darparu ar gyfer llywodraethwyr cynrychioliadol mewn ysgolion arbennig cymunedol.

Mae **Rhan 3** yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn penderfynu maint ag aelodaeth cyrff llywodraethu ysgolion. Mae rheoliadau 13 hyd 19 yn nodi'r gofynion penodol ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethu pob categori o ysgol.

Mae rheoliad 20 yn gwneud darpariaeth ar gyfer llywodraethwyr cymunedol ychwanegol ar gyfer ysgolion cynradd cymunedol a gwirfoddol ac ysgolion meithrin a gynhelir sy'n gwasanaethu ardaloedd lle ceir un neu ragor o gynghorau cymuned.

Mae rheoliad 21 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i berson sy'n dymuno arfer y pŵer o enwebu neu benodi llywodraethwr eu dilyn. Os bydd unrhyw anghydfod rhwng personau y mae ganddynt hawl ar y cyd i enwebu neu benodi llywodraethwr, gwneir y penodiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan reoliad 22. Mae rheoliad 23 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diswyddo llywodraethwyr pan fydd gormod ohonynt.

Mae **Rhan 4** yn ymdrin â chymwysterau a chyfnod swyddi. Mae rheoliad 24 ac Atodlen 5 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd llywodraethwr yn cael ei anghymwysio rhag sefyll i'w ethol, cael ei benodi neu barhau mewn swydd fel llywodraethwr.

Mae rheoliad 25 yn darparu mai 4 blynedd fydd uchafswm cyfnod swydd llywodraethwr (â rhai eithriadau). Os digwydd bod llywodraethwr sefydledig *ex officio* yn methu ag ymgymryd â'i swydd neu'n anfodlon gwneud hynny, gellir penodi dirprwy lywodraethwr. Mae rheoliad 26 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer ymddiswyddo fel llywodraethwr. Mae rheoliadau 27 i 29 yn darparu ar gyfer diswyddo llywodraethwyr sydd wedi eu penodi (yn hytrach na'u hethol) i'w swyddi.

Mae **Rhan 5** yn ymdrin â'r weithdrefn ar gyfer gwneud, adolygu ac amrywio offerynnau llywodraethu a chynnwys offerynnau. Bydd offeryn llywodraethu cyntaf ysgol feithrin a gynhelir yn cael ei baratoi a'i wneud gan yr AALI. Mae rheoliad 32 yn nodi'r ddyletswydd i ystyried canllawiau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hyn o beth. Mae

Regulation 7 deals with the appointment of LEA governors.

Regulation 8 sets out who is eligible for appointment as a community governor. Regulation 9 deals with the appointment of foundation governors, including *ex officio* foundation governors and substitute governors. Regulation 10 and Schedule 3 deal with the nomination process for, and the appointment of, partnership governors.

Regulation 11 provides for the appointment of sponsor governors and Schedule 4 deals with the process for their appointment.

Regulation 12 and paragraphs (4) and (5) of regulation 15 make provision for representative governors in community special schools.

Part 3 sets out the general principles by which the size and composition of school governing bodies are to be determined. Regulations 13 to 19 set out the specific requirements for the constitution of the governing bodies of each category of school.

Regulation 20 makes provision for additional community governors for community and voluntary primary schools and maintained nursery schools that serve areas in which there are one or more community councils.

Regulation 21 sets out the requirements to be observed by a person wishing to exercise the power of nominating or appointing a governor. If there is any dispute between persons jointly entitled to nominate or appoint a governor, the appointment is to be made by the National Assembly for Wales under regulation 22. Regulation 23 makes provision for the removal of surplus governors.

Part 4 deals with qualifications and term of office. Regulation 24 and Schedule 5 set out the circumstances in which a governor is disqualified from standing for election, being appointed or continuing in office as a governor.

Regulation 25 provides that (with some exceptions) a governor's term of office is a maximum of 4 years. In the event that an *ex officio* foundation governor is unable or unwilling to take up office, a substitute governor may be appointed. Regulation 26 sets out the procedure for resigning as a governor. Regulations 27 to 29 provide for the removal of governors who have been appointed (rather than elected) to office.

Part 5 deals with the procedure for making, reviewing and varying instruments of government and the content of instruments. The first instrument of government of a maintained nursery school will be prepared and made by the LEA. Regulation 32 sets out the duty to have regard to guidance given by the National Assembly for Wales in this regard. Regulation

rheoliad 36 yn nodi'r ddyletswydd i ddarparu copïau o'r offeryn llywodraethu i bob aelod o'r corff llywodraethu, y pennaeth, ymddiriedolwyr yr ysgol (os oes rhai) a'r awdurdod esgobaethol neu gorff crefyddol priodol arall (yn achos ysgolion ffydd). Mae rheoliad 37 yn gosod dyletswydd ar AALI i sicrhau bod gan bob ysgol a gynhelir ganddynt offeryn llywodraethu sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn erbyn 31 Mawrth 2006 yn achos ysgol feithrin a 31 Awst 2008 yn achos ysgolion eraill.

Mae **Rhan 6** ac Atodlen 6 yn galluogi llywodraethwyr a benodwyd neu a etholwyd i'w swyddi cyn neu ar 31 Hydref 2005 i barhau mewn swydd pan ddaw offeryn llywodraethu a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn i rym.

Mae **Rhan 7** yn ymdrin â phenodi a diswyddo swyddogion y corff llywodraethu, ac â'u swyddogaethau. Mae rheoliad 40 yn ymdrin â dirprwyo swyddogaethau i'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd mewn achosion brys. O dan rheoliad 42 mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu benodi clerc i'r corff llywodraethu, ac mae gan y corff llywodraethu y pŵer i ddiswyddo'r clerc ar unrhyw adeg. Mae rheoliad 43 yn nodi swyddogaethau clerc y corff llywodraethu.

Mae **Rhan 8** yn darparu ar gyfer cyfarfodydd a thrafodion y corff llywodraethu. Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau ar gyfer mynediad i gyfarfodydd, cynnull cyfarfodydd, cworwm, cofnodion a chyhoeddi cofnodion. Rhaid i benderfyniadau ar bob mater gael eu gwneud drwy bleidlais mwyafrif y llywodraethwyr.

Mae rheoliad 49 yn nodi'r amgylchiadau y gellir atal llywodraethwr rhag dod i gyfarfodydd am hyd at 6 mis. Mae rheoliadau 50 hyd 52 yn ymwneud â dirprwyo swyddogaethau corff llywodraethu.

Mae **Rhan 9** yn ymdrin â sefydlu pwyllgorau cyrff llywodraethu ac â thrafodion pwyllgorau o'r fath, gan gynnwys trefniadau clericio, cynnull cyfarfodydd, cworwm, pleidleisio a chyhoeddi cofnodion.

Mae **Rhan 10** ac Atodlen 7 yn ymdrin â gwrthdaro rhwng buddiannau a'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i lywodraethwyr ac eraill sydd fel arall â hawl i fynyachu cyfarfodydd y corff llywodraethu neu ei bwyllgorau fynd allan a pheidio â phleidleisio. Yr egwyddor gyffredinol yw pan fo gwrthdaro rhwng buddiannau person o'r fath a buddiannau'r corff llywodraethu, neu pan fo egwyddorion cyfiawnder naturiol yn mynnu gwrandawriad teg a phan fo unrhyw amheuaeth resymol ynghylch gallu'r person hwnnw i weithredu'n ddiuedd, y dylai fynd allan o'r cyfarfod a pheidio â phleidleisio.

Paratowyd arfarniad rheoliadol o'r Rheoliadau hyn a gellir ei weld ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.cymru.gov.uk). Mae modd cael copïau o Is-adran Rheolaeth Ysgolion yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

36 sets out the duty to provide copies of the instrument of government to every member of the governing body, the head teacher, the trustees of the school (if any) and the diocesan authority or other appropriate religious body (in the case of faith schools). Regulation 37 lays a duty on LEAs to ensure that all schools have an instrument of government that conforms to these Regulations by 31 March 2006 in the case of a nursery school, and by 31 August 2008 in the case of other schools.

Part 6 and Schedule 6 enable governors appointed or elected to office prior to or on 31 October 2005 to continue in office when an instrument of government made in accordance with these Regulations comes into effect.

Part 7 deals with the appointment and removal of officers of the governing body, and their functions. Regulation 40 deals with delegation of functions to the chair or vice-chair in cases of urgency. Under regulation 42 the governing body is required to appoint a clerk to the governing body, and has the power to remove the clerk from office at any time. Regulation 43 sets out the functions of the clerk to the governing body.

Part 8 provides for meetings and proceedings of the governing body. This Part includes provisions for access to meetings, convening meetings, quorum, minutes and their publication. Decisions on all matters are to be made by majority of governors voting.

Regulation 49 sets out the circumstances in which a governor may be suspended from meetings for up to 6 months. Regulations 50 to 52 relate to delegation of governing body functions.

Part 9 deals with the establishment and proceedings of committees of governing bodies, including clerking arrangements, convening meetings, quorum, voting and publication of minutes.

Part 10 and Schedule 7 deal with conflicts of interest and the circumstances in which governors and others who are otherwise entitled to attend meetings of the governing body or its committees must withdraw and not vote. The general principle is that where there is a conflict between the interests of such a person and the interests of the governing body, or where the principles of natural justice require a fair hearing and there is any reasonable doubt about that person's ability to act impartially, he or she should withdraw from the meeting and not vote.

A regulatory appraisal of these Regulations has been prepared and can be viewed on the National Assembly for Wales website (www.wales.gov.uk). Copies can be obtained from the Schools Management Division of the Department for Training and Education, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2005 Rhif 2914 (Cy.211)

2005 No. 2914 (W.211)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion
a Gynhelir (Cymru) 2005**

**The Government of Maintained
Schools (Wales) Regulations 2005**

Wedi'u gwneud 18 Hydref 2005

Made 18 October 2005

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)

Coming into force in accordance with
regulation 1(1)

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN 1

Cyflwyniad

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dirymiadau, arbedion a diwygiadau
3. Dehongli

PART 1

Introduction

1. Title, commencement and application
2. Revocations, savings and amendments
3. Interpretation

RHAN 2

Categoriâu Llywodraethwyr

4. Rhiant-lywodraethwyr
5. Athro-lywodraethwyr
6. Staff-lywodraethwyr
7. Llywodraethwyr AALl
8. Llywodraethwyr cymunedol
9. Llywodraethwyr sefydledig
10. Llywodraethwyr partneriaeth
11. Noddwr-lywodraethwyr
12. Llywodraethwyr cynrychioliadol

PART 2

Categories of Governor

4. Parent governors
5. Teacher governors
6. Staff governors
7. LEA governors
8. Community governors
9. Foundation governors
10. Partnership governors
11. Sponsor governors
12. Representative governors

RHAN 3

Cyfansoddiad Cyrff Llywodraethu

13. Ysgolion Cymunedol
14. Ysgolion meithrin a gynhelir

PART 3

Composition of Governing Bodies

13. Community Schools
14. Maintained nursery schools

15. Ysgolion arbennig cymunedol
16. Ysgolion sefydledig
17. Ysgolion arbennig sefydledig
18. Ysgolion gwirfoddol a reolir
19. Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr
20. Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol
21. Hysbysu swyddi gwag a phenodiadau
22. Cyd-benodiadau
23. Gormod o lywodraethwyr

RHAN 4

Cymwysterau a Deiliadaeth Swyddi

24. Cymwysterau ac anghymwysiaidau
25. Cyfnod swydd
26. Ymddiswyddo
27. Diswyddo llywodraethwyr AALl, llywodraethwyr sefydledig, llywodraethwyr cynrychioliadol, llywodraethwyr cymunedol ychwanegol a noddwr-lywodraethwyr
28. Diswyddo llywodraethwyr cymunedol
29. Diswyddo rhiant-lywodraethwyr penodedig
30. Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr gan y corff llywodraethu

RHAN 5

Offeryn Llywodraethu

31. Dehongli "awdurdod esgobaethol priodol" a "corff crefyddol priodol"
32. Y ddyletswydd i ystyried canllawiau
33. Cynnwys a ffurf yr offeryn llywodraethu
34. Y weithdrefn ar gyfer gwneud offeryn
35. Adolygu offerynnau llywodraethu
36. Gofynion eraill yn ymwneud ag offerynnau llywodraethu
37. Y ddyletswydd i sicrhau y gwneir offerynnau llywodraethu

RHAN 6

Darpariaethau Trosiannol

38. Darpariaeth drosiannol

15. Community special schools
16. Foundation schools
17. Foundation special schools
18. Voluntary controlled schools
19. Voluntary aided schools
20. Additional Community Governors
21. Notification of vacancies and appointments
22. Joint appointments
23. Surplus governors

PART 4

Qualifications and Tenure of Office

24. Qualifications and disqualifications
25. Term of office
26. Resignation
27. Removal of LEA, foundation, representative, additional community and sponsor governors
28. Removal of community governors
29. Removal of appointed parent governors
30. Procedure for removal of governors by the governing body

PART 5

Instrument of Government

31. Interpretation of "appropriate diocesan authority" and "appropriate religious body"
32. Duty to have regard to guidance
33. Contents and form of instrument of government
34. Procedure for making an instrument
35. Review of instruments of government
36. Other requirements relating to instruments of government
37. Duty to secure making of instruments of government

PART 6

Transitional Provisions

38. Transitional provision

RHAN 7

Penodi Swyddogion, eu Swyddogaethau, a'u Diswyddo

39. Ethol y cadeirydd a'r is-gadeirydd
40. Dirprwyo swyddogaethau i'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd mewn achosion brys
41. Diswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd
42. Penodi a diswyddo clerch y corff llywodraethu
43. Swyddogaethau clerch y corff llywodraethu

RHAN 8

Cyfarfodydd a Thrafodion Cyrff Llywodraethu

44. Hawl personau i fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu
45. Cynnull cyfarfodydd y corff llywodraethu
46. Cworwm a thrafodion y corff llywodraethu
47. Cofnodion a phapurau
48. Cyhoeddi cofnodion a phapurau
49. Atal llywodraethwyr
50. Dirprwyo swyddogaethau
51. Cyfyngiadau ar ddirprwyo
52. Adrodd wrth y corff llywodraethu yn dilyn arfer swyddogaethau dirprwyedig

RHAN 9

Pwyllgorau Cyrff Llywodraethu

53. Cymhwyso'r Rhan hon
54. Sefydlu pwyllgorau'r corff llywodraethu
55. Pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a phwyllgor apelau disgyblu a diswyddo
56. Pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion
57. Pwyllgor derbyniadau
58. Clercod pwyllgorau
59. Hawl personau i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau
60. Cyfarfodydd pwyllgorau
61. Cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau
62. Cyhoeddi cofnodion a phapurau

PART 7

Appointment, Functions and Removal of Officers

39. Election of the chair and vice-chair
40. Delegation of functions to the chair or vice-chair in cases of urgency
41. Removal of the chair or vice-chair from office
42. Appointment and removal of the clerk to the governing body
43. Functions of the clerk to the governing body

PART 8

Meetings and Proceedings of Governing Bodies

44. Right of persons to attend meetings of the governing body
45. Convening meetings of the governing body
46. Quorum and proceedings of the governing body
47. Minutes and papers
48. Publication of minutes and papers
49. Suspension of governors
50. Delegation of functions
51. Restrictions on delegation
52. Reporting to the governing body following the exercise of delegated functions

PART 9

Committees of Governing Bodies

53. Application of this Part
54. Establishment of committees of the governing body
55. Staff disciplinary and dismissal committee and disciplinary and dismissal appeals committee
56. Pupil discipline and exclusions committee
57. Admissions committee
58. Clerks to committees
59. Right of persons to attend meetings of committees
60. Meetings of committees
61. Minutes of meetings of committees
62. Publication of minutes and papers

RHAN 10

63. Cyfyngiadau ar bersonau rhag cymryd rhan mewn trafodion

ATODLEN 1

Ethol a Phenodi Rhiant-lywodraethwyr

ATODLEN 2

Ethol Athro-lywodraethwyr a Staff-lywodraethwyr

ATODLEN 3

Penodi Llywodraethwyr Partneriaeth

ATODLEN 4

Penodi Noddwr-lywodraethwyr

ATODLEN 5

Cymwysterau ac Anghymwysiaidau

ATODLEN 6

Darpariaethau Trosiannol

ATODLEN 7

Cyfyngiadau ar bersonau rhag cymryd rhan yn nhrafodion y Corff Llywodraethu neu ei Bwyllgorau

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 19(2) a (3), 20(2) a (3), 21(3), 23, 210(7) a 214 (1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(1), yn gwneud y rheoliadau canlynol-

RHAN 1

Cyflwyniad

Teitl, cychwyn a chymhwysu

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005, ar wahân i baragraff (2) o reoliad 2, a rheoliad 38 ac Atodlen 6, a ddeuant i rym ar 1 Ionawr 2006.

PART 10

63. Restrictions on persons taking part in proceedings

SCHEDULE 1

Election and Appointment of Parent Governors

SCHEDULE 2

Election of Teacher and Staff Governors

SCHEDULE 3

Appointment of Partnership Governors

SCHEDULE 4

Appointment of Sponsor Governors

SCHEDULE 5

Qualifications and Disqualifications

SCHEDULE 6

Transitional Provisions

SCHEDULE 7

Restrictions on Persons Taking Part in Proceedings of the Governing Body or its Committees

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by sections 19(2) and (3), 20(2) and (3), 21(3), 23, 210(7) and 214 (1) and (2) of the Education Act 2002(1), makes the following regulations-

PART 1

Introduction

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 and they come into force on 31 October 2005, except for paragraph (2) of regulation 2, and regulation 38 and Schedule 6, which come into force on 1 January 2006.

(1) 2002 p..32.

(1) 2002 C.32.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dirymiaidau, arbedion a diwygiadau

2.-(1) Dirymir drwy hyn Reoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Trawsnewid i Fframwaith Newydd) 1998(1).

(2) Dirymir Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999(2) yn effeithiol o 1 Ionawr 2006, ac eithrio'r darpariaethau canlynol sy'n parhau mewn grym yn achos pob ysgol a gynhelir hyd nes y gwneir offeryn llywodraethu newydd i'r ysgol yn unol â rheoliad 33-

Rheoliad 1 ar wahân i'r geiriau "and new schools" ym mharagraff (3);

Rheoliad 2(1) ar wahân i'r diffiniadau o "the First Transitional Regulations", "new school" "School Organisation Regulations" a "the Second Transitional Regulations";

Rheoliad 2(2) ar wahân i'r diffiniadau o "temporary governing body" a "temporary governors";

Rheoliad 3 ar wahân i'r geiriau "or temporary governing body (however constituted)" ac "or (as the case may be) new school";

Rheoliad 4 ar wahân i'r geiriau mewn cromfachau, ac yn eu lle hwy rhoddir y geiriau "in accordance with the 1998 Act";

Rheoliad 5(1) (a) ar wahân i'r geiriau "or will maintain" ac "or a new school"; ac ar ôl y geiriau "for which an instrument of government has been made" ychwanegir y geiriau "in accordance with the 1998 Act";

Rheoliad 5(2) (i), (iii) a (iv), ar wahân i'r geiriau "and (b)" a'r geiriau "or, in the case of a new school which has not opened, the diocesan authority which will be the appropriate diocesan authority when the school opens";

Rheoliad 6(1) ac Atodlen 1;

Rheoliadau 9 i 12 ac Atodlenni 2 i 4;

Rheoliad 15 ar wahân i'r geiriau "Subject to Part VIII (transitional provisions), Schedule 6 sets", ac yn eu lle hwy rhoddir "Paragraphs (12) to (16) of Schedule 6 to these Regulations and Schedule 5 to the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 set", a pharagraffau (12) i (16) o Atodlen 6;

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Revocations, savings and amendments

2.-(1) The Education (School Government) (Transition to New Framework) Regulations 1998(1) are hereby revoked.

(2) The Education (School Government) (Wales) Regulations 1999(2) are revoked with effect from 1 January 2006, except for the following provisions which remain in force in respect of every maintained school until a new instrument of government is made for the school in accordance with regulation 33-

Regulation 1 except for the words "and new schools" in paragraph (3);

Regulation 2(1) except for the definitions of "the First Transitional Regulations", "new school" "School Organisation Regulations" and "the Second Transitional Regulations";

Regulation 2(2) except for the definitions of "temporary governing body" and "temporary governors";

Regulation 3 except for the words "or temporary governing body (however constituted)" and "or (as the case may be) new school";

Regulation 4 except for the words in brackets, for which are substituted the words "in accordance with the 1998 Act";

Regulation 5(1) (a) except for the words "or will maintain" and "or a new school"; and after the words "for which an instrument of government has been made" are added the words "in accordance with the 1998 Act";

Regulation 5(2) (i), (iii) and (iv), except for the words "and (b)" and the words "or, in the case of a new school which has not opened, the diocesan authority which will be the appropriate diocesan authority when the school opens";

Regulation 6(1) and Schedule 1;

Regulations 9 to 12 and Schedules 2 to 4;

Regulation 15 except for the words "Subject to Part VIII (transitional provisions), Schedule 6 sets", for which are substituted "Paragraphs (12) to (16) of Schedule 6 to these Regulations and Schedule 5 to the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 set", and paragraphs (12) to (16) of Schedule 6;

(1) O.S. 1998/2763, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/362, 1999/2242 (Cy.2), 2001/2263 (Cy.164).

(2) O.S. 1999/2242 (Cy. 2) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2263 (Cy.164).

(1) S.I. 1998/2763, as amended by S.I. 1999/362, 1999/2242 (W. 2), 2001/2263 (W. 164).

(2) S.I. 1999/2242 (W. 2) as amended by S.I. 2001/2263 (W. 164).

Rheoliadau 16 a Rheoliadau 17;

Rheoliad 18 ac eithrio ym mharagraff (1) y geiriau "and to Part VIII (transitional provisions)"; a

Rheoliadau 19 ac 20.

(3) Diwygir paragraff (1) o reoliad 31 o Reoliadau Addysg (Ysgolion Newydd) (Cymru) 1999(1), drwy roi'r geiriau "Part 5 of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005" yn lle'r geiriau "Schedule 12 to the 1998 Act".

Dehongli

3.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

dehonglir "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yn unol ag adran 122 o Ddeddf 2002;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(2);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(3);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu ddiwrnod sy'n wyl banc o fewn ystyr "bank holiday" yn Neddf Bancio a Deliadau Ariannol 1971(4).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn-

(a) at y corff llywodraethu neu at gorff llywodraethu ysgol yn gyfeiriad at gorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol iddi;

(b) at lywodraethwr yn gyfeiriad at aelod o gorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r ddarpariaeth yn berthnasol iddi;

(c) at yr awdurdod addysg lleol yn gyfeiriad at yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn-

(a) at reoliad, Rhan neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad, Rhan neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad neu'r Atodlen y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddynt;

(1) O.S. 1999/2243; diwygir y rheoliad hwn hefyd gan reoliad 8 yn Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol etc (Cymru) 2005, O.S. 2005/2913 (Cy. 210).

(2) 1996 p.56.

(3) 1998 p.31.

(4) 1971 p.80.

Regulations 16 and 17;

Regulation 18 except in paragraph (1) for the words "and to Part VIII (transitional provisions)"; and

Regulations 19 and 20.

(3) Paragraph (1) of regulation 31 of the Education (New Schools) (Wales) Regulations 1999(1), is amended by substituting the words "Part 5 of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005" for the words "Schedule 12 to the 1998 Act".

Interpretation

3.-(1) In these Regulations-

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996(2);

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998(3);

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

"school teacher" ("*athro neu athrawes ysgol*") is to be interpreted in accordance with section 122 of the 2002 Act;

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, a Sunday or a day which is a bank holiday within the meaning of the Banking and Financial Dealings Act 1971(4).

(2) Any reference in these Regulations to-

(a) the governing body or to the governing body of a school is a reference to the governing body of any maintained school to which the provision applies;

(b) a governor is a reference to a member of a governing body of any school to which the provision applies;

(c) the local education authority is a reference to the local education authority that maintains the school.

(3) Any reference in these Regulations to-

(a) a numbered regulation, Part or Schedule is a reference to the regulation, Part or Schedule bearing that number in these Regulations;

(b) a numbered paragraph is a reference to the paragraph bearing that number in the regulation or Schedule in which the reference appears; and

(1) S.I. 1999/2243; this regulation is also amended by regulation 6 of the Education Act 2002 (Transitional Provisions etc) (Wales) Regulations 2005, S.I. 2005/2913 (W. 210).

(2) 1996 c.56.

(3) 1998 c.31.

(4) 1971 c.80.

- (c) at is-baragraff â rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

RHAN 2

Categoriâu Llywodraethwyr

Rhiant-lywodraethwyr

4.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "rhiant-lywodraethwr" ("*parent governor*") yw-

- (a) person a etholir yn unol â pharagraffau 4 i 9 o Atodlen 1 yn llywodraethwr gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ac sydd ei hun yn rhiant o'r fath pan gaiff ei ethol, neu
- (b) person a benodir yn rhiant-lywodraethwr yn unol â pharagraffau 10 i 12 o Atodlen 1.

(2) Anghymhwysir person rhag bod yn rhiant-lywodraethwr yn unol â pharagraffau 10 i 12 o Atodlen 1 os yw-

- (a) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol;
- (b) yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel awdurdod addysg lleol; neu
- (c) yn cael ei dalu i weithio yn yr ysgol am fwy na 500 awr mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Awst ac yn gorffen ar 31 Gorffennaf,

os nad yw'n rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

(3) Nid anghymhwysir person rhag parhau i fod yn rhiant-lywodraethwr pan beidia â bod yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol neu pan beidia â bodloni unrhyw rai o'r gofynion a nodir ym mharagraffau 11 a 12 o Atodlen 1 (yn ôl fel y digwydd) onis anghymhwysir fel arall o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Mae Atodlen 1 yn gymwys i ethol a phenodi rhiant-lywodraethwyr.

Athro-lywodraethwyr

5.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "athro-lywodraethwr" ("*teacher governor*") yw person-

- (a) a etholir yn unol ag Atodlen 2 yn llywodraethwr gan athrawon ysgol yn yr ysgol, a
- (b) sydd ei hun yn athro neu athrawes ysgol o'r fath pan etholir ef neu hi.

(2) Pan fydd yn gorffen gweithio yn yr ysgol

- (c) a numbered sub-paragraph is a reference to the sub-paragraph bearing that number in the paragraph in which the reference appears.

PART 2

Categories of Governor

Parent governors

4.-(1) In these Regulations "parent governor" ("*rhiant-lywodraethwr*") means-

- (a) a person who is elected in accordance with paragraphs 4 to 9 of Schedule 1 as a governor by parents of registered pupils at the school and is himself or herself such a parent at the time when he or she is elected, or
- (b) a person appointed as a parent governor in accordance with paragraphs 10 to 12 of Schedule 1.

(2) A person is disqualified from appointment as a parent governor in accordance with paragraphs 10 to 12 of Schedule 1 if he or she is-

- (a) an elected member of the local education authority;
- (b) employed by the local education authority in connection with its functions as a local education authority; or
- (c) paid to work at the school for more than 500 hours in any twelve month period commencing on 1 August and finishing on 31 July,

unless he or she is a parent of a registered pupil at the school.

(3) A person is not disqualified from continuing to hold office as a parent governor when he or she ceases to be a parent of a registered pupil at the school or to fulfil any of the requirements set out in paragraphs 11 and 12 of Schedule 1 (as the case may be) unless he or she is otherwise disqualified under these Regulations.

(4) Schedule 1 applies to the election and appointment of parent governors.

Teacher governors

5.-(1) In these Regulations "teacher governor" ("*athro neu athrawes lywodraethwr*") means a person-

- (a) who is elected in accordance with Schedule 2 as a governor by school teachers at the school, and
- (b) who is himself or herself such a school teacher at a time when he or she is elected.

(2) Upon ceasing to work at the school a teacher

anghymhwysir athro-lywodraethwr rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath.

Staff-lywodraethwyr

6.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "staff-lywodraethwr" ("*staff governor*") yw person-

- (a) a etholir yn unol ag Atodlen 2 yn llywodraethwr gan bersonau a gyflogir i weithio yn yr ysgol ond nid fel athrawon ysgol, a
- (b) sydd ei hun yn berson a gyflogir yn y cyfryw fodd pan etholir ef;

ac at y diben hwn, ystyr "a gyflogir" ("*employed*") yw a gyflogir o dan contract cyflogaeth neu contract am wasanaethau.

(2) Pan fo offeryn llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir yn gwneud darpariaeth yn unol â rheoliad 14(3), ystyr "staff-lywodraethwr" ("*staff governor*") yw person-

- (a) a etholir yn unol ag Atodlen 2 yn llywodraethwr gan bersonau a gyflogir i weithio yn yr ysgol, a
- (b) sydd ei hun yn berson a gyflogir yn y cyfryw fodd pan etholir ef;

ac at y diben hwn, ystyr "a gyflogir" ("*employed*") yw a gyflogir o dan contract cyflogaeth neu contract am wasanaethau.

(3) Pan fydd yn gorffen gweithio yn yr ysgol anghymhwysir staff-lywodraethwr ysgol rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath.

Llywodraethwyr AALI

7.-(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "llywodraethwr AALI" ("*LEA governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr gan yr awdurdod addysg lleol.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi na pharhau i ddal swydd fel llywodraethwr AALI ysgol os yw'n gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr i'r ysgol.

Llywodraethwyr cymunedol

8.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "llywodraethwr cymunedol" ("*community governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr gan y corff llywodraethu ac sydd-

- (a) yn berson sy'n byw neu'n gweithio yn y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol, neu
- (b) yn berson sydd, ym marn y corff llywodraethu, yn ymrwymedig i lywodraeth dda a llwyddiant yr ysgol;

governor is disqualified from continuing to hold office as such a governor.

Staff governors

6.-(1) In these Regulations "staff governor" ("*staff lywodraethwr*") means a person-

- (a) who is elected in accordance with Schedule 2 as a governor by persons employed to work at the school otherwise than as school teachers, and
- (b) who is himself or herself a person so employed at the time when he or she is elected;

and for this purpose "employed" ("*a gyflogir*") means employed under a contract of employment or a contract for services.

(2) Where the instrument of government of a maintained nursery school makes provision in accordance with regulation 14(3), "staff governor" ("*staff lywodraethwr*") means a person-

- (a) who is elected in accordance with Schedule 2 as a governor by persons employed to work at the school, and
- (b) who is himself or herself a person so employed at the time when he or she is elected;

and for this purpose "employed" ("*a gyflogir*") means employed under a contract of employment or a contract for services.

(3) Upon ceasing to work at the school, a staff governor of a school is disqualified from continuing to hold office as such a governor.

LEA governors

7.-(1) In these Regulations "LEA governor" ("*llywodraethwr AALI*") means a person who is appointed as a governor by the local education authority.

(2) A person is disqualified from appointment or continuing to hold office as a LEA governor of a school if he or she is eligible to be a teacher or staff governor of the school.

Community governors

8.-(1) In these Regulations-

"community governor" ("*llywodraethwr cymunedol*") means a person who is appointed as a governor by the governing body and who is-

- (a) a person who lives or works in the community served by the school, or
- (b) a person who, in the opinion of the governing body, is committed to the good government and success of the school;

ystyr "llywodraethwr cymunedol ychwanegol" ("*additional community governor*") yw llywodraethwr a benodir yn unol â rheoliad 20.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi na pharhau i ddal swydd fel llywodraethwr cymunedol ysgol os yw-

- (a) yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;
- (b) yn gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr i'r ysgol.

(3) Anghymhwysir person rhag cael ei benodi'n llywodraethwr cymunedol ysgol os yw'n aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol.

(4) Nid yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys yn achos llywodraethwr cymunedol ychwanegol.

Llywodraethwyr sefydledig

9.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "llywodraethwr sefydledig" ("*foundation governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr ac eithrio gan yr awdurdod addysg lleol ac-

- (a) pan fo gan yr ysgol gymeriad crefyddol arbennig⁽¹⁾, a benodir at ddiben sicrhau y diogelir ac y datblygir y cymeriad hwnnw,
- (b) pan fo ymddiriedolaeth yn ymwneud â'r ysgol, a benodir at ddiben sicrhau y rhedir yr ysgol yn unol â'r ymddiriedolaeth honno, neu
- (c) pan nad oes gan yr ysgol gymeriad crefyddol a phan nad oes ymddiriedolaeth yn ymwneud â hi, a benodir yn llywodraethwr sefydledig i'r ysgol;

ystyr "llywodraethwr sefydledig *ex officio*" ("*ex officio foundation governor*") yw llywodraethwr sefydledig sy'n ddeiliad swydd y mae ganddo hawl i fod yn llywodraethwr sefydledig yn rhinwedd y swydd honno;

ystyr "dirprwy lywodraethwr" ("*substitute governor*") yw llywodraethwr sefydledig a benodir i weithredu yn lle llywodraethwr sefydledig *ex officio*-

- (a) sy'n anfodlon neu'n methu â gweithredu fel llywodraethwr,
- (b) sydd wedi ei ddiswyddo fel llywodraethwr o dan reoliad 27(2), neu

"additional community governor" ("*llywodraethwr cymunedol ychwanegol*") means a governor appointed in accordance with regulation 20.

(2) A person is disqualified from appointment or continuing to hold office as a community governor of a school if he or she is-

- (a) a registered pupil at the school;
- (b) eligible to be a teacher or staff governor of the school.

(3) A person is disqualified from appointment as a community governor of a school if he or she is an elected member of the local education authority.

(4) Paragraphs (2) and (3) do not apply in the case of an additional community governor.

Foundation governors

9.-(1) In these Regulations-

"foundation governor" ("*llywodraethwr sefydliedig*") means a person who is appointed as a governor otherwise than by the local education authority and who-

- (a) where the school has a particular religious character⁽¹⁾, is appointed for the purpose of securing that that character is preserved and developed,
- (b) where there is a trust relating to the school, is appointed for the purpose of securing that the school is conducted in accordance with that trust, or
- (c) where the school does not have a religious character and there is no trust relating to it, is appointed as a foundation governor of the school;

"*ex officio* foundation governor" ("*llywodraethwr sefydliedig ex officio*") means a foundation governor who is the holder of an office by virtue of which he or she is entitled to be a foundation governor;

"substitute governor" ("*dirprwy lywodraethwr*") means a foundation governor appointed to act in the place of an *ex officio* foundation governor-

- (a) who is unwilling or unable to act as a governor,
- (b) who has been removed as a governor under regulation 27(2), or

(1) Fel y dynodir drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998. *Gweler* Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999, O.S. 1999/1814 a Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004, O.S. 2004/1734 (Cy. 177).

(1) As designated by Order of the National Assembly for Wales under section 69(3) of the 1998 Act. *See* the Designation of Schools Having a Religious Character (Wales) Order 1999, S.I. 1999/1814 and the Designation of Schools Having a Religious Character and Amendments (Wales) Order 2004, S.I. 2004/1734 (W. 177).

(c) os yw'r swydd sy'n rhoi bod i swydd llywodraethwr o'r fath yn wag.

(2) Anghymhwysir llywodraethwr sefydledig *ex officio*, pan beidia â dal y swydd y mae ei swydd fel llywodraethwr yn deillio ohoni, rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath.

Llywodraethwyr partneriaeth

10.-(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "llywodraethwr partneriaeth" ("*partnership governor*") yw person a enwebir yn llywodraethwr partneriaeth ac a benodir yn llywodraethwr o'r fath yn unol ag Atodlen 3.

(2) Anghymhwysir person rhag cael ei enwebu na'i benodi'n llywodraethwr partneriaeth ysgol os yw-

- (a) yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol ;
- (b) yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol;
- (c) yn gymwys i fod yn athro-lywodraethwr neu staff-lywodraethwr i'r ysgol;
- (ch) yn aelod etholedig o'r awdurdod addysg lleol; neu
- (d) yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol mewn perthynas â'i swyddogaethau fel awdurdod addysg lleol.

Noddwr-lywodraethwyr

11. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "noddwr-lywodraethwr" ("*sponsor governor*") yw person a enwebir yn noddwr-lywodraethwr ac a benodir yn llywodraethwr o'r fath gan y corff llywodraethu yn unol ag Atodlen 4.

Llywodraethwyr cynrychioliadol

12. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "llywodraethwr cynrychioliadol" ("*representative governor*") yw person a benodir yn llywodraethwr o'r fath yn unol â pharagraffau (4) neu (5) o reoliad 15.

RHAN 3

CYFANSODDIAD CYRFF LLYWODRAETHU

Ysgolion Cymunedol

13.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol gymunedol gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1);
- (b) llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yn y niferoedd a bennir ym mha un bynnag o'r colofnau eraill sy'n berthnasol i'r ysgol.

(c) if there is a vacancy in the office by virtue of which such a governorship exists.

(2) An *ex officio* foundation governor is, upon ceasing to hold the office from which his or her governorship derives, disqualified from continuing to hold office as such a governor.

Partnership governors

10.-(1) In these Regulations "partnership governor" ("*lywodraethwr partneriaeth*") means a person who is nominated as a partnership governor and appointed as such in accordance with Schedule 3.

(2) A person is disqualified from nomination or appointment as a partnership governor of a school if he or she is-

- (a) a parent of a registered pupil at the school;
- (b) a registered pupil at the school;
- (c) eligible to be a teacher or staff governor of the school;
- (d) an elected member of the local education authority; or
- (e) employed by the local education authority in connection with its functions as a local education authority.

Sponsor Governors

11. In these Regulations "sponsor governor" ("*noddwr-lywodraethwr*") means a person who is nominated as a sponsor governor and is appointed as such by the governing body in accordance with Schedule 4.

Representative Governors

12. In these Regulations "representative governor" ("*lywodraethwr cynrychiadol*") means a person who is appointed as such in accordance with paragraphs (4) or (5) of regulation 15.

PART 3

CONSTITUTION OF GOVERNING BODIES

Community schools

13.-(1) The governing body of a community school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1);
- (b) governors of each of the categories specified in the first column of the table below in the numbers specified in whichever of the other columns relates to the school.

TABLE

Categori llywodraethwr	Ysgol uwchradd-arferol	Ysgol uwchradd-dewis os oes llai na 600 o ddisgyblion cofrestredig	Ysgol gynradd-arferol	Ysgol gynradd-dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant-Lywodraethwyr	6	5	4 neu 5	3
Llywodraethwyr AALI	5	4	3 neu 4	2
Athro-Lywodraethwyr	2	2	1 neu 2	1
Staff-lywodraethwyr	1	1	1	1 neu 0
Llywodraethwyr Cymunedol	5	4	3 neu 4	2

TABLE

Category of governor	Secondary school-normal basis	Secondary school-option if less than 600 registered pupils	Primary school-normal basis	Primary school-option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	6	5	4 or 5	3
LEA governors	5	4	3 or 4	2
Teacher Governors	2	2	1 or 2	1
Staff governors	1	1	1	1 or 0
Community Governors	5	4	3 or 4	2

(2) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethu llai â chyfansoddiad yn unol â'r trydydd neu'r bumed golofn ar gael-

- (a) yn achos ysgol uwchradd, pan fo gan yr ysgol lai na 600 o ddisgyblion cofrestredig, a
- (b) yn achos ysgol gynradd, pan fo gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig.

(3) Yn achos y dewisiadau a bennir ym mhedwaredd golofn y tabl, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol gynradd y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai pob dewis cyntaf neu bob ail ddewis.

Ysgolion Meithrin a Gynhelir

14.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i gorff llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1);
- (b) llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yn y niferoedd a bennir ym mha un bynnag o golofnau 2 neu 3 sy'n berthnasol i'r ysgol.

TABL

Categori llywodraethwr	Arferol	Dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant-Llywodraethwyr	4 neu 5	3
Llywodraethwyr AALI	3 neu 4	2
Athro-Llywodraethwyr	1 neu 2	1
Staff-lywodraethwyr	1	1 neu 0
Llywodraethwyr Cymunedol	3 neu 4	2

(2) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethau llai â chyfansoddiad yn unol â'r trydydd golofn ar gael yn achos ysgol feithrin a gynhelir pan fo gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig.

(3) Gall offeryn llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir ddarparu ar gyfer un categori o staff-lywodraethwr yn hytrach na'r ddau gategori o athro-lywodraethwr a staff-lywodraethwr, yn y niferoedd hynny, heb fod yn llai nag un, a fo'n cael eu pennu yn yr offeryn llywodraethu.

(2) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third or fifth column is available-

- (a) in the case of a secondary school, where the school has less than 600 registered pupils, and
- (b) in the case of a primary school, where the school has less than 100 registered pupils.

(3) As regards the alternatives specified in the fourth column of the table, the governing body of a primary school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either all the first alternatives or all the second alternatives.

Maintained Nursery Schools

14.-(1) Subject to paragraph (3), the governing body of a maintained nursery school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1);
- (b) governors of each of the categories specified in the first column of the table below in the numbers specified in whichever of columns 2 or 3 relates to the school.

TABLE

Category of governor	Normal basis	Option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	4 or 5	3
LEA governors	3 or 4	2
Teacher Governors	1 or 2	1
Staff governors	1	1 or 0
Community Governors	3 or 4	2

(2) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third column is available in the case of a maintained nursery school where the school has less than 100 registered pupils.

(3) The instrument of government of a maintained nursery school may provide for a single category of staff governor instead of the two categories of teacher governor and staff governor in such numbers, being no less than one, as may be specified in the instrument of government.

(4) Yn achos y dewisiadau a bennir yn ail golofn y tabl, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai pob dewis cyntaf neu bob ail ddewis.

Ysgolion arbennig cymunedol

15.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1),
- (b) yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yn y niferoedd a bennir un ai yn yr ail neu'r trydydd golofn.

TABL

Categori llywodraethwr	Arferol	Dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant-Llywodraethwyr	4 neu 5	3
Llywodraethwyr AALI	3 neu 4	2
Athro-Llywodraethwyr	1 neu 2	1
Staff-lywodraethwyr	1	1 neu 0
Llywodraethwyr Cymunedol	3 neu 4	2

(2) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethu llai â chyfansoddiad yn unol â thrydydd golofn y tabl felly ar gael pa un a oes gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig ai peidio.

(3) Yn achos y dewisiadau a bennir yn ail golofn y tabl, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai pob dewis cyntaf neu bob ail ddewis.

(4) Pan fo ysgol arbennig gymunedol wedi'i sefydlu mewn ysbyty rhaid i'r awdurdod addysg lleol ddynodi'n gorff priodol-

(4) As regards the alternatives specified in the second column of the table, the governing body of a maintained nursery school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either all the first alternatives or all of the second alternatives.

Community special schools

15.-(1) The governing body of a community special school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1),
- (b) subject to paragraphs (4) and (5), governors of each of the categories specified in the first column of the table below, in the numbers specified in either the second or the third column.

TABLE

Category of governor	Normal basis	Option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	4 or 5	3
LEA governors	3 or 4	2
Teacher Governors	1 or 2	1
Staff governors	1	1 or 0
Community Governors	3 or 4	2

(2) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third column of the table is accordingly available whether or not the school has less than 100 registered pupils.

(3) As regards the alternatives specified in the second of the table, the governing body of a community special school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either all the first alternatives or all the second alternatives.

(4) Where a community special school is established in a hospital the local education authority must designate as the appropriate body-

- (a) un bwrdd iechyd lleol neu fwy nag un bwrdd i weithredu ar y cyd, neu
- (b) Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol,

y mae gan yr ysgol y cysylltiad agosaf ag ef a rhaid i'r corff priodol benodi llywodraethwr cynrychioliadol i gymryd lle un o'r nifer o lywodraethwyr cymunedol a bennir ym mha un bynnag o'r ail neu'r trydydd golofn o'r tabl sy'n gymwys i'r ysgol.

(5) Pan nad yw ysgol arbennig gymunedol wedi'i lleoli mewn ysbyty-

- (a) caiff yr awdurdod addysg lleol ddynodi un sefydliad gwirfoddol neu fwy nag un sefydliad o'r fath i weithredu ar y cyd, yn sefydliad gwirfoddol priodol sy'n ymwneud â materion y trefnir yr ysgol yn arbennig ar eu cyfer, a
- (b) pan fydd sefydliad gwirfoddol priodol wedi ei ddynodi felly, rhaid iddo benodi llywodraethwr cynrychioliadol i gymryd lle un o'r nifer o lywodraethwyr cymunedol a bennir ym mha un bynnag o'r ail neu'r trydydd golofn o'r tabl sy'n gymwys i'r ysgol.

Ysgolion sefydledig

16.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol sefydledig gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1);
- (b) llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yn y niferoedd a bennir ym mha un bynnag o'r colofnau eraill sy'n berthnasol i'r ysgol.

- (a) one local health board or more than one board to act jointly, or
- (b) the National Health Service Trust,

with which the school is most closely associated and the appropriate body must appoint a representative governor to take the place of one of the number of community governors specified in whichever of the second or third column of the table as applies to the school.

(5) Where a community special school is not established in a hospital-

- (a) the local education authority may designate one voluntary organisation or more than one such organisation to act jointly, as the appropriate voluntary organisation concerned with matters in respect of which the school is specially organised, and
- (b) where an appropriate voluntary organisation is so designated, it must appoint the representative governor to take the place of one of the number of community governors specified in whichever of the second or third column of the table as applies to the school.

Foundation schools

16.-(1) The governing body of a foundation school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1);
- (b) governors of each of the categories specified in the first column of the table below in the numbers specified in whichever of the other columns relates to the school.

TABL

Categori llywodraethwr	Ysgol uwchradd-arferol	Ysgol uwchradd-dewis os oes llai na 600 o ddisgyblion cofrestredig	Ysgol gynradd-arferol	Ysgol gynradd-dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant-Lywodraethwyr	7	6	5 neu 6	4
Llywodraethwyr AALI	2	2	2	2
Athro-Lywodraethwyr	2	2	1	1
Staff-lywodraethwyr	1	1	1	1 neu 0
Llywodraethwyr Sefydledig	5	4	3 neu 4	2
Llywodraethwyr Cymunedol	3	2	1	1

TABLE

Category of governor	Secondary school-normal basis	Secondary school-option if less than 600 registered pupils	Primary school-normal basis	Primary school-option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	7	6	5 or 6	4
LEA governors	2	2	2	2
Teacher Governors	2	2	1	1
Staff governors	1	1	1	1 or 0
Foundation Governors	5	4	3 or 4	2
Community Governors	3	2	1	1

(2) Pan nad oes gan yr ysgol sefydliad, mae'r cyfeiriad at lywodraethwyr sefydledig yn y golofn gyntaf i'w ddarllen fel cyfeiriad at lywodraethwyr partneriaeth.

(3) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethu llai â chyfansoddiad yn unol â'r trydydd neu'r bumed golofn ar gael-

- (a) yn achos ysgol uwchradd, pan fo gan yr ysgol lai na 600 o ddisgyblion cofrestredig, a
- (b) yn achos ysgol gynradd, pan fo gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig.

(4) Yn achos y dewisiadau a bennir ym mhedwaredd golofn y tabl, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol gynradd y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai'r ddau ddewis cyntaf neu'r ddau ail ddewis.

Ysgolion arbennig sefydledig

17.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol arbennig sefydledig gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1),
- (b) llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yn y niferoedd a bennir un ai yn yr ail neu yn y trydydd golofn.

TABL

Categori llywodraethwr	Arferol	Dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant-Llywodraethwyr	5 neu 6	4
Llywodraethwyr AALI	2	2
Athro-Llywodraethwyr	1	1
Staff-lywodraethwyr	1	1 neu 0
Llywodraethwyr Sefydledig	3 neu 4	2
Llywodraethwyr Cymunedol	1	1

(2) Where the school does not have a foundation, the reference to foundation governors in the first column is to be read as a reference to partnership governors.

(3) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third or fifth column is available-

- (a) in the case of a secondary school, where the school has less than 600 registered pupils, and
- (b) in the case of a primary school, where the school has less than 100 registered pupils.

(4) As regards the alternatives specified in the fourth column of the table, the governing body of a primary school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either both of the first alternatives or both of the second alternatives.

Foundation special schools

17.-(1) The governing body of a foundation special school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1),
- (b) governors of each of the categories specified in the first column of the table below in the numbers specified in either the second or the third column.

TABLE

Category of governor	Normal basis	Option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	5 or 6	4
LEA governors	2	2
Teacher Governors	1	1
Staff governors	1	1 or 0
Foundation Governors	3 or 4	2
Community Governors	1	1

(2) Pan nad oes gan yr ysgol sefydliad, mae'r cyfeiriad at lywodraethwyr sefydledig yn y golofn gyntaf i'w ddarllen fel cyfeiriad at lywodraethwyr partneriaeth.

(3) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethu llai â chyfansoddiad yn unol â thrydydd golofn y tabl felly ar gael pa un a oes gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig ai peidio.

(4) Yn achos y dewisiadau a bennir yn ail golofn y tabl, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol arbennig sefydledig y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai'r ddau ddewis cyntaf neu'r ddau ail ddewis.

Ysgolion gwirfoddol a reolir

18.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a reolir gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1),
- (b) llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, yn y niferoedd a bennir ym mha un bynnag o'r colofnau eraill sy'n berthnasol i'r ysgol.

(2) Where the school does not have a foundation, the reference to foundation governors in the first column is to be read as a reference to partnership governors.

(3) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third column of the table is accordingly available whether or not the school has less than 100 registered pupils.

(4) As regards the alternatives specified in the second column of the table, the governing body of a foundation special school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either both of the first alternatives or both of the second alternatives.

Voluntary controlled schools

18.-(1) The governing body of a voluntary controlled school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1),
- (b) governors of each of the categories specified in the first column of the table below in the numbers specified in whichever of the other columns relates to the school.

TABL

Categori llywodraethwr	Ysgol uwchradd-arferol	Ysgol uwchradd-dewis os oes llai na 600 o ddisgyblion cofrestredig	Ysgol gynradd-arferol	Ysgol gynradd-dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant-Lywodraethwyr	6	5	4 neu 5	3
Llywodraethwyr AALI	4	3	3	2
Athro-Lywodraethwyr	2	2	1	1
Staff-lywodraethwyr	1	1	1	1 neu 0
Llywodraethwyr Sefydledig	5	4	3 neu 4	2
Llywodraethwyr Cymunedol	2	2	1	1

TABLE

Category of governor	Secondary school-normal basis	Secondary school-option if less than 600 registered pupils	Primary school-normal basis	Primary school-option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	6	5	4 or 5	3
LEA governors	4	3	3	2
Teacher Governors	2	2	1	1
Staff governors	1	1	1	1 or 0
Foundation Governors	5	4	3 or 4	2
Community Governors	2	2	1	1

(2) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethu llai â chyfansoddiad yn unol â'r drydedd neu'r bumod golofn ar gael-

- (a) yn achos ysgol uwchradd, pan fo gan yr ysgol lai na 600 o ddisgyblion cofrestredig, a
- (b) yn achos ysgol gynradd, pan fo gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig.

(3) Yn achos y dewisiadau a bennir yn y bedwaredd golofn, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol gynradd y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai'r ddau ddewis cyntaf neu'r ddau ail ddewis.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr

19.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyr gynnwys y canlynol-

- (a) y pennaeth, onid yw'n ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1),
- (b) llywodraethwyr ym mhob un o'r categorïau a bennir yng ngholofn gyntaf y tabl isod, niferoedd a bennir ym mha un bynnag o'r colofnau eraill sy'n berthnasol i'r ysgol, ac
- (c) cynifer o lywodraethwyr sefydledig fel y bydd mwy ohonynt nag o'r llywodraethwyr eraill a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (b)-
 - (i) tri yn fwy, yn achos ysgol y mae'r ail golofn yn gymwys iddi, neu
 - (ii) dau yn fwy, yn achos unrhyw ysgol arall.

(2) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third or fifth column is available-

- (a) in the case of a secondary school, where the school has less than 600 registered pupils, and
- (b) in the case of a primary school, where the school has less than 100 registered pupils.

(3) As regards the alternatives specified in the fourth column, the governing body of a primary school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either both of the first alternatives or both of the second alternatives.

Voluntary aided schools

19.-(1) The governing body of a voluntary aided school must consist of the following-

- (a) the head teacher, unless he or she resigns the position in accordance with regulation 26(1),
- (b) governors of each of the categories specified in the first column of the table below in the numbers specified in whichever of the other columns relates to the school, and
- (c) such number of foundation governors as will lead to their outnumbering the other governors mentioned in paragraphs (a) and (b)-
 - (i) by three, in the case of a school to which the second column applies, or
 - (ii) by two, in the case of any other school.

TABLE

Categori llywodraethwr	Ysgol uwchradd-arferol	Ysgol uwchradd-dewis os oes llai na 600 o ddisgyblion cofrestredig	Ysgol gynradd-arferol	Ysgol gynradd-dewis os oes llai na 100 o ddisgyblion cofrestredig
Rhiant- Lywodraethwyr	3	2	1 neu 2	1
Llywodraethwyr AALI	2	1	1 neu 2	1
Athro- Lywodraethwyr	2	2	1	1
Staff- lywodraethwyr	1	1	1	1 neu 0

TABLE

Category of governor	Secondary school-normal basis	Secondary school-option if less than 600 registered pupils	Primary school-normal basis	Primary school-option if less than 100 registered pupils
Parent Governors	3	2	1 or 2	1
LEA governors	2	1	1 or 2	1
Teacher Governors	2	2	1	1
Staff governors	1	1	1	1 or 0

(2) Mae'r dewis o fod â chorff llywodraethu llai â chyfansoddiad yn unol â'r drydedd neu'r bumed golofn ar gael-

- (a) yn achos ysgol uwchradd, pan fo gan yr ysgol lai na 600 o ddisgyblion cofrestredig, a
- (b) yn achos ysgol gynradd, pan fo gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion cofrestredig.

(3) Yn achos y dewisiadau a bennir yn y bedwaredd golofn, rhaid i gyfansoddiad corff llywodraethu ysgol gynradd y mae'r golofn honno'n gymwys iddi adlewyrchu un ai'r ddau ddewis cyntaf neu'r ddau ail ddewis.

(4) Rhaid i'r llywodraethwyr sefydledig sy'n ofynnol o dan is-baragraff (1)(c) gynnwys-

- (a) o leiaf dri llywodraethwr sydd, pan benodir hwy, yn rhieni i ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, yn achos ysgol y mae'r ail golofn yn gymwys iddi, neu
- (b) o leiaf ddau llywodraethwr o'r fath yn achos unrhyw ysgol arall.

Ysgolion cynradd a gynhelir

20.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i-

- (a) unrhyw ysgol gymunedol, wirfoddol neu sefydledig sy'n ysgol gynradd, a
- (b) unrhyw ysgol feithrin a gynhelir,

sy'n gwasanaethu ardal sydd ag un neu fwy o gynghorau cymuned.

(2) Mae rhaid i offeryn llywodraethu ysgol ddarparu ar gyfer cynnwys yn y corff llywodraethu (yn ychwanegol at y llywodraethwyr sy'n ofynnol yn rhinwedd rheoliadau 13, 14, 16, 18 a 19, yn ôl fel y digwydd) un llywodraethwr cymunedol a enwebir gan y cyngor cymuned.

(3) Os yw ysgol yn gwasanaethu ardal sydd â dau neu ragor o gynghorau cymuned, caiff y corff llywodraethu geisio enwebiadau gan un neu ragor o'r cynghorau hynny.

Hysbysu swyddi gwag a phenodiadau

21.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), pan fo swydd aelod penodedig o'r corff llywodraethu yn mynd yn wag, rhaid i glerc y corff llywodraethu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol roi gwybod yn ysgrifenedig am y ffaith honno i'r person sydd â'r hawl i benodi neu enwebu person i'r swydd honno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i glerc y corff llywodraethu, o leiaf ddeufis cyn y dyddiad y daw tymor swydd aelod penodedig i ben, roi gwybod yn ysgrifenedig am y ffaith honno i'r person sydd â'r hawl i benodi neu enwebu person i'r swydd honno.

(2) The option of having a smaller governing body constituted in accordance with the third or fifth column is available-

- (a) in the case of a secondary school, where the school has less than 600 registered pupils, and
- (b) in the case of a primary school, where the school has less than 100 registered pupils.

(3) As regards the alternatives specified in the fourth column, the governing body of a primary school to which that column applies must be constituted in such a way as to reflect either both of the first alternatives or both of the second alternatives.

(4) The foundation governors required by sub-paragraph (1)(c) must include-

- (a) at least three governors who at the time of their appointment are parents of registered pupils at the school, in the case of a school to which the second column applies, or
- (b) at least two such governors in the case of any other school.

Maintained primary schools

20.-(1) This regulation applies to-

- (a) any community, voluntary or foundation school which is a primary school, and
- (b) any maintained nursery school,

which serves an area for which there are one or more community councils.

(2) The instrument of government of a school must provide for the governing body to include (in addition to the governors required by virtue of regulations 13, 14, 16, 18 and 19, as the case may be) one community governor nominated by the community council.

(3) If a school serves an area for which there are two or more community councils, the governing body may seek nominations from one or more of those councils.

Notification of vacancies and appointments

21.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), where a vacancy in the office of an appointed member of the governing body arises, the clerk to the governing body must as soon as is reasonably practicable give notice in writing of that fact to the person entitled to appoint or nominate a person to that office.

(2) Subject to paragraph (3), the clerk to the governing body must, at least two months before the date of the expiry of the term of office of an appointed member, give notice in writing of that fact to the person entitled to appoint or nominate a person to that office.

(3) Nid fydd paragraffau (1) a (2) uchod yn gymwys pan fo'r person sydd â'r hawl i benodi person i'r swydd dan sylw eisoes wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu pwy yw'r person a benodwyd neu a enwebwyd.

(4) Pan fo unrhyw berson ar wahân i gorff llywodraethu yn penodi neu'n enwebu person i'w benodi i'r corff llywodraethu, rhaid iddo roi gwybod yn ysgrifenedig am y penodiad neu'r enwebiad i glerc y corff llywodraethu gan nodi enw'r person a benodir neu a enwebir felly ynghyd â'i breswylfa arferol.

(5) At ddiben y rheoliad hwn, ystyr "aelod penodedig" ("*appointed member*") yw-

- (a) llywodraethwr sefydledig;
- (b) llywodraethwr AALI;
- (c) llywodraethwr cymunedol (gan gynnwys llywodraethwr cymunedol ychwanegol);
- (ch) llywodraethwr cynrychioliadol;
- (d) noddwr-lywodraethwr; ac
- (dd) llywodraethwr partneriaeth.

Cyd-benodiadau

22. Os-

- (a) yw offeryn llywodraethu ysgol yn darparu ar gyfer penodi un neu ragor o'r llywodraethwyr gan bersonau sy'n gweithredu ar y cyd, a
- (b) os yw'r personau hynny'n methu â chytuno ar benodiad,

bydd y penodiad yn cael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n unol â chyfarwyddyd a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol hwnnw.

Gormod o lywodraethwyr

23.-(1) Pan fo gan ysgol a gynhelir fwy o lywodraethwyr o gategori arbennig na'r nifer y mae offeryn llywodraethu'r ysgol yn darparu ar eu cyfer, rhaid i gynifer o lywodraethwyr o'r categori hwnnw ag sy'n ofynnol i ddileu'r gormodedd beidio â dal swydd yn unol â pharagraffau (2) a (3) oni fydd nifer digonol yn ymddiswyddo.

(2) Penderfynir pa lywodraethwyr a fydd yn peidio â dal swydd ar sail hynafedd, a'r llywodraethwyr sydd â'r cyfnod cyfredol byrraf fel llywodraethwr o unrhyw gategori yn yr ysgol fydd y cyntaf i beidio â dal swydd.

(3) Pan fo angen dewis at ddiben paragraff (2) un neu ragor o lywodraethwyr o blith nifer sydd â'r un hynafedd, rhaid gwneud hynny drwy fwrw coelbren.

(3) Paragraphs (1) and (2) above do not apply where the person entitled to appoint a person to the office in question has already notified the clerk to the governing body in writing of the person appointed or nominated.

(4) Where any person other than a governing body makes an appointment or nominates a person to be appointed to the governing body, he or she must give written notice of the appointment or the nomination to the clerk to the governing body specifying the name and usual place of residence of the person so appointed or nominated.

(5) For the purposes of this regulation, "appointed member" ("*aelod penodedig*") means-

- (a) a foundation governor;
- (b) an LEA governor;
- (c) a community governor (including an additional community governor);
- (d) a representative governor;
- (e) a sponsor governor; and
- (f) a partnership governor.

Joint appointments

22. If-

- (a) the instrument of government of a school provides for one or more of the governors to be appointed by persons acting jointly, and
- (b) those persons fail to make an agreed appointment,

the appointment is to be made by, or in accordance with a direction given by, the National Assembly for Wales.

Surplus governors

23.-(1) Where a maintained school has more governors of a particular category than are provided for by the instrument of government for the school, such number of governors of that category as is required to eliminate the excess must cease to hold office in accordance with paragraphs (2) and (3) unless a sufficient number resign.

(2) The governors who are to cease to hold office are to be determined on the basis of seniority, the governors whose current period of office as a governor of any category at the school is the shortest being the first to cease to hold office.

(3) Where it is necessary for the purposes of paragraph (2) to select one or more governors from a group of equal seniority, it must be done by drawing lots.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, caiff llywodraethwyr cymunedol ychwanegol eu trin fel categori o lywodraethwyr ar wahân.

RHAN 4

Cymwysterau a deiliadaeth swyddi

Cymwysterau ac anghymwysiadau

24. Mae Atodlen 5 yn nodi'r amgylchiadau pan fo person yn gymwys neu'n anghymwys i ddal swydd neu i barhau mewn swydd fel llywodraethwr.

Cyfnod swydd

25.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (7) bydd llywodraethwr yn dal swydd am gyfnod penodol o bedair blynedd o ddyddiad ei ethol neu ei benodi.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw lywodraethwr sy'n bennaeth yr ysgol, nac i unrhyw lywodraethwr sefydledig *ex officio*, a gaiff ddal swydd cyhyd ag y mae'n dal y swydd y mae ei swydd fel llywodraethwr yn deillio ohoni.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw lywodraethwr sefydledig y pennir cyfnod ei swydd gan y person a'i penododd, hyd at uchafswm o 4 blynedd.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw lywodraethwr ychwanegol, llywodraethwr sefydledig ychwanegol nac aelod gweithredol interim a benodir o dan adrannau 16(1), 16A(2), 18(3) neu 18A(4) o Ddeddf 1998 y pennir cyfnod ei swydd gan y person a'i penododd, hyd at uchafswm o 4 blynedd.

(5) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw riant-lywodraethwr ysgol feithrin a gynhelir a fydd yn dal swydd am gyfnod penodol o ddwy flynedd o ddyddiad ei ethol neu ei benodi.

(6) Caiff dirprwy lywodraethwr ddal swydd hyd y cynharaf o'r canlynol-

- (a) diwedd pedair blynedd o'r dyddiad y daw ei benodiad i rym;
- (b) y dyddiad y bydd y llywodraethwr gwreiddiol (ond yw wedi ei ddiswyddo o dan reoliad 27 (2)) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu yn nodi y gall weithredu fel llywodraethwr sefydledig a'i fod yn fodlon gwneud hynny; neu

(4) For the purposes of this regulation, additional community governors are treated as if they constituted a separate category of governor.

PART 4

Qualifications and tenure of office

Qualifications and disqualifications

24. Schedule 5 sets out the circumstances in which a person is qualified for or disqualified from holding or continuing in office as a governor.

Term of office

25.-(1) Subject to paragraphs (2) to (7), a governor holds office for a fixed period of four years from the date of his or her election or appointment.

(2) Paragraph (1) does not apply to any governor who is the head teacher of the school, or to any *ex officio* foundation governor, who may hold office for as long as he or she holds the position from which his or her governorship derives.

(3) Paragraph (1) does not apply to any foundation governor whose term of office is to be determined by the person who appointed him or her, up to a maximum of 4 years.

(4) Paragraph (1) does not apply to any additional governor, additional foundation governor or interim executive member appointed under sections 16(1), 16A(2), 18(3) or 18A(4) of the 1998 Act whose term of office is to be determined by the person who appointed him or her, up to a maximum of 4 years.

(5) Paragraph (1) does not apply to any parent governor of a maintained nursery school who is to hold office for a fixed period of two years from the date of his or her election or appointment.

(6) A substitute governor may hold office until the earlier of the following-

- (a) the expiry of four years from the date when his or her appointment takes effect;
- (b) the date when the original governor (not having been removed from office under regulation 27 (2)) gives written notice to the clerk to the governing body to the effect that he or she is able and willing to act as a foundation governor; or

(1) Diwygiwyd gan adran 56 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 5 iddi.

(2) Rhoddwyd i mewn yn rhagolygol gan adran 57 o Ddeddf 2002.

(3) Diwygiwyd gan adran 56 o Ddeddf 2002.

(4) Rhoddwyd i mewn yn rhagolygol gan adran 58 o Ddeddf 2002.

(1) Amended by section 56 of, and Schedule 5 to, the 2002 Act.

(2) Prospectively inserted by section 57 of the 2002 Act.

(3) Amended by section 56 of the 2002 Act.

(4) Prospectively inserted by section 58 of the 2002 Act.

(c) y dyddiad y bydd person ar wahân i'r llywodraethwr gwreiddiol yn cymryd y swydd y mae swydd y llywodraethwr sefydledig *ex officio* yn bodoli o'i herwydd.

(7) Nid yw'r rheoliad hwn yn rhwystro llywodraethwr rhag-

(a) cael ei ethol neu ei benodi am gyfnod pellach, ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rheoliadau hyn;

(b) ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1);

(c) cael ei ddiswyddo o dan reoliadau 27 i 29; neu

(ch) cael ei anghymhwyso, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, rhag dal neu barhau i ddal swydd.

(8) Yn y rheoliad hwn ystyr "y llywodraethwr gwreiddiol" ("*the original governor*") yw'r llywodraethwr sefydledig *ex officio* y penodir y dirprwy lywodraethwr i weithredu yn ei le.

Ymddiswyddo

26.-(1) Caiff llywodraethwr ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu.

(2) Caiff y pennaeth dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu.

(3) Caiff llywodraethwr sefydledig *ex officio* ymddiswyddo fel llywodraethwr naill ai'n barhaol neu dros dro, ond ni fydd ei ymddiswyddiad yn niweidio swydd llywodraethwr *ex officio* ei olynydd yn y swydd y mae ei swydd fel llywodraethwr *ex officio* yn deillio ohoni.

Diswyddo llywodraethwyr AALI, llywodraethwyr sefydledig, llywodraethwyr cynrychioliadol llywodraethwyr cymunedol ychwanegol a noddwrywodraethwyr

27.-(1) Caiff y person a'i penododd ddiswyddo unrhyw lywodraethwr AALI, llywodraethwr sefydledig neu lywodraethwr cynrychioliadol, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o hynny i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr a ddiswyddir.

(2) Caiff y person a enwir yn yr offeryn llywodraethu fel y person sydd â'r hawl i'w ddiswyddo, ddiswyddo unrhyw lywodraethwr sefydledig *ex officio*, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o hynny i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr a ddiswyddir.

(3) Caiff y person a'i henwebodd ddiswyddo unrhyw lywodraethwr cymunedol ychwanegol neu noddwrywodraethwr, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr a ddiswyddir.

(c) the date when a person other than the original governor takes office in the post by virtue of which the *ex officio* foundation governorship exists.

(7) This regulation does not prevent a governor from-

(a) being elected or appointed for a further term, save as otherwise provided in these Regulations;

(b) resigning his or her office in accordance with regulation 26(1);

(c) being removed from office under regulations 27 to 29; or

(d) being disqualified, by virtue of any provision of these Regulations, from holding or continuing to hold office.

(8) In this regulation "the original governor" ("*y llywodraethwr gwreiddiol*") means the *ex officio* foundation governor in whose place the substitute governor is appointed to act.

Resignation

26.-(1) A governor may at any time resign his or her office by giving written notice to the clerk to the governing body.

(2) The head teacher may withdraw his or her resignation at any time by giving written notice to the clerk to the governing body.

(3) An *ex officio* foundation governor may resign as governor either permanently or temporarily, but his or her resignation does not prejudice the *ex officio* governorship of his or her successor in the office from which the *ex officio* governorship derives.

Removal of LEA, foundation, representative, additional community and sponsor governors

27.-(1) Any LEA governor, foundation governor, or representative governor may be removed from office by the person who appointed him or her, who must give written notice thereof to the clerk to the governing body and to the governor so removed.

(2) An *ex officio* foundation governor may be removed from office by the person named in the instrument of government as the person entitled to remove him or her, and that person must give written notice thereof to the clerk to the governing body and to the governor so removed.

(3) Any additional community governor or sponsor governor may be removed by the person who nominated him or her, who must give written notice thereof to the clerk to the governing body and to the governor so removed.

Diswyddo llywodraethwyr cymunedol

28. Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo unrhyw lywodraethwr cymunedol (ac eithrio llywodraethwr cymunedol ychwanegol) yn unol â'r weithdrefn a nodir yn rheoliad 30.

Diswyddo rhiant-lywodraethwyr penodedig a llywodraethwyr partneriaeth

29. Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo unrhyw riant-lywodraethwr a benodwyd gan y corff llywodraethu o dan baragraffau 10 i 12 o Atodlen 1 neu unrhyw lywodraethwr partneriaeth yn unol â'r weithdrefn a nodir yn rheoliad 30.

Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr gan y corff llywodraethu

30.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â diswyddo llywodraethwr yn unol â rheoliad 28 neu 29.

(2) Ni fydd penderfyniad a gaiff ei basio mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu i ddiswyddo llywodraethwr yn effeithiol oni bai-

- (a) fod y llywodraethwr neu'r llywodraethwyr sy'n cynnig ei ddiswyddo, cyn i'r corff llywodraethu benderfynu diswyddo'r llywodraethwr, yn nodi yn y cyfarfod hwnnw eu rhesymau dros wneud hynny ac y rhoddir cyfle i'r llywodraethwr y cynigir ei ddiswyddo wneud datganiad i ymateb; ac
- (b) y pennir mater diswyddo'r llywodraethwr fel eitem benodol o fusnes ar agenda'r cyfarfod.

(3) Ar ôl pasio penderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr rhaid i'r corff llywodraethu roi gwybod yn ysgrifenedig i'r person a ddiswyddir y rhesymau dros y diswyddo.

RHAN 5

Offeryn Llywodraethu

Dehongli "awdurdod esgobaethol priodol" a "corff crefyddol priodol"

31. Yn y Rhan hon,

mae i "awdurdod esgobaethol priodol" yr ystyr a roddir i "*appropriate diocesan authority*" gan adran 142(1) a (4) o Ddeddf 1998;

ystyr "corff crefyddol priodol" ("*appropriate religious body*"), mewn perthynas ag ysgol a ddynodir o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 yn un sydd o gymeriad crefyddol nad yw'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru na'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yw'r corff y mae Cynulliad Cenedlaethol

Removal of community governors

28. The governing body may remove any community governor (except an additional community governor) from office in accordance with the procedure set out in regulation 30.

Removal of appointed parent governors and partnership governors

29. Any parent governor appointed by the governing body under paragraphs 10 to 12 of Schedule 1 and any partnership governor may be removed by the governing body in accordance with the procedure set out in regulation 30.

Procedure for removal of governors by the governing body

30.-(1) This regulation applies in relation to the removal of a governor from office in accordance with regulation 28 or 29.

(2) A resolution to remove a governor from office which is passed at a meeting of the governing body does not have effect unless-

- (a) before the governing body resolve to remove the governor from office, the governor or governors proposing his or her removal at that meeting state their reasons for doing so and the governor whom it is proposed to remove is given an opportunity to make a statement in response; and
- (b) the matter of the governor's removal from office is specified as an item of business on the agenda for the meeting.

(3) After a resolution to remove a governor from office has been passed the governing body must inform the person removed from office of the reasons for the removal in writing.

PART 5

Instrument of Government

Interpretation of "appropriate diocesan authority" and "appropriate religious body"

31. In this Part,

"appropriate diocesan authority" ("*awdurdod esgobaethol priodol*") has the meaning given by section 142(1) and (4) of the 1998 Act;

"appropriate religious body" ("*corff crefyddol priodol*"), in relation to a school designated under section 69(3) of the 1998 Act as having a religious character that is not a Church in Wales school or a Roman Catholic Church school, means the body

Cymru yn ei ystyried yn briodol mewn perthynas â'r grefydd neu'r enwad crefyddol y perthyn yr ysgol iddi neu iddo.

Y ddyletswydd i ystyried canllawiau

32. Mewn perthynas â gwneud offerynnau llywodraethu, y materion i ymdrin â hwy mewn offerynnau o'r fath, ffurf offerynnau o'r fath, ac adolygu ac amrywio offerynnau o'r fath, rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau addysg lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynnwys a ffurf yr offeryn llywodraethu

33.-(1) Rhaid i offeryn llywodraethu ysgol a gynhelir nodi-

- (a) enw'r ysgol;
- (b) y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo;
- (c) enw corff llywodraethu'r ysgol;
- (ch) y cyfansoddiad a fydd i'r corff llywodraethu yn unol â Rhan 3, gan bennu-
 - (i) nifer y llywodraethwyr ym mhob categori o lywodraethwr,
 - (ii) y categorïau o bersonau, o'u plith neu o blith eu haelodau, yr awdurdodir enwebu unrhyw lywodraethwr cymunedol ychwanegol neu noddwr-lywodraethwr ar gyfer ei benodi gan y Rheoliadau hyn; a
 - (iii) cyfanswm nifer aelodau'r corff llywodraethu;
- (d) pan fo cyfnod swydd categori o lywodraethwr i fod yn llai na phedair blynedd, cyfnod y swydd honno;
- (dd) pan fo gan ysgol lywodraethwyr sefydledig-
 - (i) enw unrhyw un sydd â'r hawl i benodi llywodraethwyr o'r fath ac, os oes mwy nag un person o'r fath â'r hawl i benodi, y sail ar gyfer gwneud penodiadau o'r fath,
 - (ii) manylion unrhyw swydd llywodraethwr sefydledig sydd i'w dal *ex officio* gan ddeiliad swydd a enwir, a
 - (iii) enw unrhyw un sydd â'r hawl i ddiswyddo unrhyw lywodraethwr sefydledig *ex officio* a phenodi unrhyw ddirprwy lywodraethwr;
- (e) pan fo'r ysgol yn ysgol arbennig gymunedol, enw unrhyw gorff priodol neu sefydliad gwirfoddol priodol sydd â'r hawl i enwebu person i'w benodi'n llywodraethwr cynrychioladol o dan reoliad 15(4) neu (5);

that the National Assembly for Wales considers appropriate in relation to the religion or religious denomination to which the school belongs.

Duty to have regard to guidance

32. In respect of the making of instruments of government, the matters to be dealt with in such instruments, the form of such instruments, and the review and variation of such instruments, governing bodies and local education authorities must have regard to any guidance given from time to time by the National Assembly for Wales.

Contents and form of instrument of government

33.-(1) The instrument of government for a maintained school must set out-

- (a) the name of the school;
- (b) the category of school to which the school belongs;
- (c) the name of the governing body of the school;
- (d) the manner in which the governing body is to be constituted in accordance with Part 3, specifying-
 - (i) the number of governors in each category of governor,
 - (ii) the categories of person from whom or from amongst whose members nominations for the appointment of any additional community governor or sponsor governor are authorised by these Regulations; and
 - (iii) the total membership of the governing body;
- (e) where the term of office for a category of governor is to be less than four years, the length of that term of office;
- (f) where the school has foundation governors-
 - (i) the name of any person who is entitled to appoint such governors and, if there is more than one such person entitled to appoint, the basis upon which such appointments are made,
 - (ii) details of any foundation governorship to be held *ex officio* by the holder of a named office, and
 - (iii) the name of any person who is entitled to remove any *ex officio* foundation governor and to appoint any substitute governor;
- (g) where the school is a community special school, the name of any appropriate body or appropriate voluntary organisation entitled to nominate a person for appointment as a representative governor under regulation 15(4) or (5);

- (f) pan fo ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r ysgol, y ffaith honno;
- (ff) pan fo ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a ddynodir o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 fel un sy'n meddu ar gymeriad crefyddol, disgrifiad o ethos crefyddol yr ysgol; ac
- (g) y dyddiad y daw'r offeryn llywodraethu i rym, na chaiff fod cyn 1 Ionawr 2006.

(2) Rhaid i'r ffordd y cyfansoddir y corff llywodraethu, fel y nodir yn unol ag is-baragraff (1) (ch), gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys i ysgol yn y categori y perthyn yr ysgol iddo.

(3) Pan fo'n berthnasol, at ddibenion Rhan 3, penderfynu faint o ddisgyblion cofrestredig sydd yn yr ysgol, penderfynir y nifer honno fel pe ar y dyddiad y gwneir yr offeryn.

(4) Rhaid i'r offeryn llywodraethu (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth statudol) gydymffurfio ag unrhyw ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Y weithdrefn ar gyfer gwneud offeryn

34.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid i'r corff llywodraethu baratoi drafft o'r offeryn llywodraethu a'i gyflwyno i'r awdurdod addysg lleol.

(2) Pan fo gan ysgol lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â chyflwyno'r drafft i'r awdurdod addysg lleol hyd nes y bydd wedi ei gymeradwyo gan-

- (a) y llywodraethwyr sefydledig;
- (b) unrhyw ymddiriedolwyr o unrhyw ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol;
- (c) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol; ac
- (ch) yn achos unrhyw ysgol arall a ddynodir o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 fel un sy'n meddu ar gymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(3) Pan geir y drafft rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried a yw'n cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol cymwys, ac-

- (a) os yw'n fodlon bod y drafft yn cydymffurfio fel hynny, neu
- (b) os oes cytundeb rhyngddo, y corff llywodraethu ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig) y personau a grybwyllir ym mharagraff (2) y dylid diwygio'r drafft i unrhyw raddau a bod y drafft diwygiedig yn cydymffurfio â phob un o'r darpariaethau statudol sy'n gymwys,

- (h) where there is a trust relating to the school, that fact;
- (i) where the school is a foundation or a voluntary school designated under section 69(3) of the 1998 Act as having a religious character, a description of the religious ethos of the school; and
- (j) the date when the instrument of government takes effect, which must not be earlier than 1 January 2006.

(2) The manner in which the governing body is to be constituted, as set out in accordance with subparagraph (1)(d), must accord with the provisions of these Regulations as they apply to a school of the category to which the school belongs.

(3) Where, for the purposes of Part 3, it is material to determine the number of registered pupils at the school, that number is to be determined as at the date when the instrument is made.

(4) The instrument of government must (subject to any statutory provision) comply with any trust relating to the school.

Procedure for making an instrument

34.-(1) Subject to paragraph (6), the governing body must prepare a draft of the instrument of government and submit it to the local education authority.

(2) Where the school has foundation governors, the governing body must not submit the draft to the local education authority unless it has been approved by-

- (a) the foundation governors;
- (b) any trustees of any trust relating to the school;
- (c) in the case of a Church in Wales school or Roman Catholic Church school, the appropriate diocesan authority; and
- (d) in the case of any other school designated under section 69(3) of the 1998 Act as having a religious character, the appropriate religious body.

(3) On receiving the draft the local education authority must consider whether it complies with all applicable statutory provisions, and if-

- (a) it is content that the draft so complies, or
- (b) there is agreement between it, the governing body and (if the school has foundation governors) the persons mentioned in paragraph (2) that the draft should be revised to any extent and the revised draft complies with all the applicable statutory provisions,

rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei wneud ganddo ar ffurf y drafft neu (yn ôl fel y digwydd) ar ffurf y drafft diwygiedig.

(4) Os bydd y personau a restrir ym mharagraff (2), yn achos ysgol sydd â llywodraethwyr sefydledig, ar unrhyw adeg yn anghytuno â'r drafft, caiff unrhyw un neu unrhyw rai o'r personau hynny ei gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhaid i'r Cynulliad roi cyfarwyddyd fel y gwêl yn dda gan ystyried, yn arbennig, y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo.

(5) Os nad yw'r naill na'r llall o is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (3) yn gymwys yn achos ysgol nad oes ganddi lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol-

- (a) roi gwybod i'r corff llywodraethu pam nad yw'n fodlon â'r offeryn llywodraethu drafft, a
- (b) rhoi cyfle rhesymol i'r corff llywodraethu ddod i gytundeb ag ef ynghylch diwygio'r drafft;

a rhaid iddo wneud yr offeryn llywodraethu naill ai ar ffurf drafft diwygiedig y bydd ef a'r corff llywodraethu yn cytuno yn ei gylch neu (yn niffyg cytundeb o'r fath) ar ffurf fel y gwêl yn dda gan ystyried, yn arbennig, y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo.

(6) Yn achos ysgol feithrin a gynhelir, rhaid i'r awdurdod addysg lleol baratoi a gwneud yr offeryn llywodraethu cyntaf.

Adolygu offerynnau llywodraethu

35.-(1) Caiff y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol adolygu'r offeryn llywodraethu ar unrhyw adeg wedi iddo gael ei wneud.

(2) Os bydd y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol yn penderfynu wedi unrhyw adolygiad y dylid amrywio'r offeryn llywodraethu, rhaid i'r corff llywodraethu neu (yn ôl fel y digwydd) yr awdurdod addysg lleol roi gwybod i'r llall am yr amrywiad a gynigir ganddo ynghyd â'i resymau dros gynnig amrywiad o'r fath.

(3) Pan fo'r corff llywodraethu wedi derbyn hysbysiad o dan baragraff (2), rhaid iddo hysbysu'r awdurdod addysg lleol a yw'n fodlon â'r amrywiad a gynigir ai peidio ac, os nad yw'n fodlon, am ba resymau.

(4) Pan fo gan ysgol lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â rhoi i'r awdurdod addysg lleol-

- (a) unrhyw hysbysiad o dan baragraff (2), na
- (b) hysbysu'r awdurdod o dan baragraff (3) ei fod yn fodlon â'r amrywiad a gynigir gan yr awdurdod,

the instrument of government must be made by it in the form of the draft or (as the case may be) in the form of the revised draft.

(4) If, in the case of a school which has foundation governors, at any time the persons listed in paragraph (2) disagree with the draft, any of those persons may refer it to the National Assembly for Wales which must give such direction as it thinks fit having regard, in particular, to the category of school to which the school belongs.

(5) If neither of sub-paragraphs (a) and (b) of paragraph (3) applies in the case of a school which does not have foundation governors, the local education authority must-

- (a) inform the governing body of the reasons why it is not content with the draft instrument of government, and
- (b) give the governing body a reasonable opportunity to reach agreement with it on revising the draft;

and the instrument of government must be made by it either in the form of a revised draft agreed between it and the governing body or (in the absence of such agreement) in such form as it thinks fit having regard, in particular, to the category of school to which the school belongs.

(6) In the case of a maintained nursery school, the local education authority must prepare and make the first instrument of government.

Review of instruments of government

35.-(1) The governing body or the local education authority may review the instrument of government at any time after it is made.

(2) Where on any review the governing body or the local education authority decides that the instrument of government should be varied, the governing body or (as the case may be) the local education authority must notify the other of its proposed variation together with its reasons for proposing such a variation.

(3) Where the governing body has received notification under paragraph (2), it must inform the local education authority as to whether or not it is content with the proposed variation and, if not content, its reasons.

(4) Where the school has foundation governors, the governing body must not-

- (a) give the local education authority any notification under paragraph (2), or
- (b) inform the authority under paragraph (3) that it is content with the authority's proposed variation,

oni fo'r personau a restrir yn rheoliad 34(2) wedi cymeradwyo'r amrywiad a gynigir.

(5) Os-

- (a) yw y corff llywodraethu neu'r awdurdod addysg lleol, pa un bynnag sy'n cael hysbysiad o dan baragraff (2), yn cytuno â'r amrywiad a gynigir, neu
- (b) oes cytundeb rhwng yr awdurdod addysg lleol, y corff llywodraethu ac (os oes gan yr ysgol lywodraethwyr sefydledig) y personau eraill a restrir yn rheoliad 34(2) y dylid gwneud rhyw amrywiad arall yn hytrach,

rhaid i'r awdurdod addysg lleol amrywio'r offeryn llywodraethu yn unol â hynny.

(6) Os bydd, yn achos ysgol sydd â llywodraethwyr sefydledig, y personau a restrir yn rheoliad 34(2) ar unrhyw adeg yn anghytuno â'r amrywiad a gynigir, caiff unrhyw un neu unrhyw rai o'r personau hynny ei gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac o gyfeirio felly, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd fel y gwêl yn dda gan ystyried, yn arbennig, y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo.

(7) Os nad yw is-baragraffau (a) na (b) o baragraff (5) yn gymwys yn achos ysgol nad oes ganddi lywodraethwyr sefydledig, rhaid i'r awdurdod addysg lleol-

- (a) rhoi gwybod i'r corff llywodraethu y rhesymau-
 - (i) pam nad yw'n fodlon â'r amrywiad a gynigir gan y corff llywodraethu, neu yn ôl fel y digwydd,
 - (ii) pam y mae'n dymuno mynd ymlaen â'i amrywiad ei hun, a
- (b) rhoi cyfle rhesymol i'r corff llywodraethu ddod i gytundeb ag ef mewn perthynas â'r amrywiad;

a rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei amrywio ganddo naill ai yn y modd y cytunwyd arno rhyngddo a'r corff llywodraethu neu (yn niffyg cytundeb o'r fath) mewn modd fel y gwêl yn dda gan ystyried, yn arbennig, y categori o ysgol y perthyn yr ysgol iddo.

(8) Ni ddylid ystyried bod dim yn y rheoliad hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol amrywio'r offeryn llywodraethu os na chred ei bod yn briodol gwneud hynny.

(9) Pan amrywir offeryn llywodraethu o dan y rheoliad hwn-

- (a) rhaid i'r offeryn nodi'r dyddiad y daw'r amrywiad i rym; a
- (b) mae rheoliad 33(3) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw amrywiad sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r corff llywodraethu i'w gyfansoddi fel petai'n cyfeirio at y dyddiad y gwneir yr amrywiad yn hytrach na'r dyddiad y gwneir yr offeryn.

unless the persons listed in regulation 34(2) have approved the proposed variation.

(5) If-

- (a) whichever of the governing body and the local education authority is the recipient of a notification under paragraph (2) agrees with the proposed variation, or
- (b) there is agreement between the local education authority, the governing body and (if the school has foundation governors) the other persons listed in regulation 34(2) that some other variation should be made instead,

the local education authority must vary the instrument of government accordingly.

(6) If, in the case of a school which has foundation governors, at any time the persons listed in regulation 34(2) disagree with the proposed variation any of those persons may refer it to the National Assembly for Wales; and on such a reference the National Assembly for Wales must give such direction as it thinks fit having regard, in particular, to the category of school to which the school belongs.

(7) If neither sub-paragraphs (a) and (b) of paragraph (5) applies in the case of a school which does not have foundation governors, the local education authority must-

- (a) inform the governing body of the reasons-
 - (i) why it is not content with the governing body's proposed variation, or as the case may be,
 - (ii) why it wishes to proceed with its own variation, and
- (b) give the governing body a reasonable opportunity to reach agreement with it with regard to the variation;

and the instrument of government must be varied by it either in the manner agreed between it and the governing body or (in the absence of such agreement) in such manner as it thinks fit having regard, in particular, to the category of school to which the school belongs.

(8) Nothing in this regulation is to be taken as requiring the local education authority to vary the instrument of government if it does not consider it appropriate to do so.

(9) Where an instrument of government is varied under this regulation-

- (a) the instrument must set out the date on which the variation takes effect; and
- (b) regulation 33(3) applies in relation to any variation relating to the manner in which the governing body is to be constituted as if it referred to the date when the variation is made rather than the date when the instrument is made.

Gofynion eraill yn ymwneud ag offerynnau llywodraethu

36.-(1) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau y darperir yn rhad ac am ddim i'r personau a nodir ym mharagraff (2)-

- (a) copi o offeryn llywodraethu'r ysgol, a
- (b) os gwneir unrhyw amrywiad i offeryn llywodraethu ysgol, fersiwn gyfunol o'r offeryn llywodraethu yn ymgorffori pob amrywiad a wnaed gan yr awdurdod addysg lleol (ac eithrio unrhyw amrywiadau nad ydynt bellach mewn grym).

(2) I'r personau canlynol y dylid darparu'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1)-

- (a) pob aelod o gorff llywodraethu'r ysgol;
- (b) y pennaeth, pa un a yw'r pennaeth yn aelod o'r corff llywodraethu ai peidio;
- (c) ymddiriedolwyr unrhyw ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol;
- (ch) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yr awdurdod esgobaethol priodol; a
- (d) yn achos unrhyw ysgol arall a ddyndir o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998 fel un sy'n meddu ar gymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

Y ddyletswydd i sicrhau bod offerynnau llywodraethu yn cael eu gwneud

37. Rhaid i awdurdod addysg lleol wneud offeryn llywodraethu yn unol â'r Rheoliadau hyn-

- (a) ar gyfer pob ysgol feithrin a gynhelir ganddo, erbyn 31 Mawrth 2006 fan bellaf, a
- (b) ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir ganddo, erbyn 31 Awst 2008 fan bellaf.

RHAN 6

Darpariaeth Drosiannol

Darpariaeth drosiannol

38. Mae Atodlen 6 i gael effaith at ddiben parhau cyfnod swydd llywodraethwyr pan newidir i offeryn llywodraethu a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Other requirements relating to instruments of government

36.-(1) The local education authority must ensure that the persons set out in paragraph (2) are provided (free of charge) with-

- (a) a copy of the school's instrument of government, and
- (b) where any variation is made to the school's instrument of government, a consolidated version of the instrument of government incorporating all variations made by the local education authority (other than any variations which have ceased to have effect).

(2) The persons who are to be provided with the information referred to in paragraph (1) are-

- (a) every member of the governing body of the school;
- (b) the head teacher, whether or not the head teacher is a member of the governing body;
- (c) the trustees of any trust relating to the school;
- (d) in the case of a Church in Wales school or Roman Catholic Church school, the appropriate diocesan authority; and
- (e) in the case of any other school designated under section 69(3) of the 1998 Act as having a religious character, the appropriate religious body.

Duty to secure making of instruments of government

37. A local education authority must make an instrument of government in accordance with these Regulations-

- (a) for each nursery school which is maintained by them no later than 31 March 2006, and
- (b) for all other schools maintained by them, no later than 31 August 2008.

PART 6

Transitional Provision

Transitional provision

38. Schedule 6 has effect for the purpose of continuing the term of office of governors on transition to an instrument of government made in accordance with these Regulations.

Ethol y cadeirydd a'r is-gadeirydd

39.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac i adran 18 o Ddeddf 1998(1) (*Pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benodi llywodraethwyr ychwanegol*), rhaid i'r corff llywodraethu ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodau yn flynyddol.

(2) Nid yw llywodraethwr y telir iddo am weithio yn yr ysgol neu sy'n ddisgybl yn yr ysgol yn gymwys i fod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd corff llywodraethu'r ysgol honno.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), bydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn dal swydd hyd nes y bydd ei olynnydd wedi ei ethol yn unol â pharagraff (1).

(4) Caiff y cadeirydd neu'r is-gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu.

(5) Daw swydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd i ben-

- (a) pan fydd yn peidio â bod yn aelod o'r corff llywodraethu;
- (b) os telir iddo am weithio yn yr ysgol dan sylw;
- (c) os diswyddir ef yn unol â rheoliad 41 neu os cymerir ei le gan gadeirydd a enwebwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 18 o Ddeddf 1998; neu

(ch) yn achos yr is-gadeirydd, os etholir ef yn unol â pharagraff (6) i lenwi swydd wag y cadeirydd.

(6) Pan ddaw swydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn wag, rhaid i'r corff llywodraethu yn ei gyfarfod nesaf ethol un o'u plith i lenwi'r swydd honno, yn ddarostyngedig i baragraff (2) ac i adran 18 o Ddeddf 1998.

(7) Rhaid cynnal unrhyw etholiad a ymleddir i fod yn gadeirydd neu is-gadeirydd drwy bleidlais gudd.

(8) Pan fydd y cadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod neu os bydd swydd y cadeirydd yn wag ar y pryd, bydd yr is-gadeirydd yn gweithredu fel cadeirydd ym mhob diben.

(9) Os bydd yr is-gadeirydd yn yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (8) yn absennol o'r cyfarfod neu os bydd swydd yr is-gadeirydd yn wag ar y pryd, rhaid i'r corff llywodraethu ethol un o'u plith i weithredu fel cadeirydd at ddibenion y cyfarfod hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(10) Bydd clerc y corff llywodraethu yn gweithredu fel cadeirydd yn ystod y rhan honno o unrhyw gyfarfod yr etholir y cadeirydd ynddi.

(1) Diwygiwyd gan adran 56 o Ddeddf 2002.

Election of the chair and vice-chair

39.-(1) Subject to paragraph (2) and to section 18 of the 1998 Act(1) (*Power of National Assembly for Wales to appoint additional governors*), the governing body must elect a chair and a vice-chair from among their number annually.

(2) A governor who is paid to work at the school or who is a pupil at the school is not eligible to be chair or vice-chair of the governing body of that school.

(3) Subject to paragraphs (5) and (6), the chair or vice-chair is to hold office until his or her successor has been elected in accordance with paragraph (1).

(4) The chair or vice-chair may at any time resign his or her office by giving notice in writing to the clerk to the governing body.

(5) The chair or vice-chair ceases to hold office-

- (a) when he or she ceases to be a member of the governing body;
- (b) if he or she is paid to work at the school in question;
- (c) if he or she is removed from office in accordance with regulation 41 or replaced by a chair nominated by the National Assembly for Wales pursuant to section 18 of the 1998 Act; or
- (d) in the case of the vice-chair, he or she is elected in accordance with paragraph (6) to fill a vacancy in the office of chair.

(6) Where a vacancy arises in the office of chair or vice-chair, the governing body must at their next meeting elect one of their number to fill that vacancy, subject to paragraph (2) and to section 18 of the 1998 Act.

(7) Any election of the chair or vice-chair which is contested must be held by secret ballot.

(8) Where the chair is absent from any meeting or there is at the time a vacancy in the office of chair, the vice-chair is to act as chair for all purposes.

(9) Where in the circumstances referred to in paragraph (8) the vice-chair is absent from the meeting or there is at the time a vacancy in the office of vice-chair, the governing body must elect one of their number to act as chair for the purposes of that meeting, subject to paragraph (2).

(10) The clerk to the governing body is to act as chair during that part of any meeting at which the chair is to be elected.

(1) Amended by section 56 of the 2002 Act.

Dirprwyo swyddogaethau i'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd mewn achosion brys

40.-(1) Bydd gan y cadeirydd bŵer, pan fo'r amgylchiadau ym mharagraff (2) yn gymwys yn ei farn ef, i arfer unrhyw swyddogaethau o eiddo'r corff llywodraethu y gellir eu dirprwyo o dan reoliad 50(1).

(2) Yr amgylchiadau hynny yw y byddai oedi cyn arfer y swyddogaeth yn debygol o fod yn ddifrifol niweidiol i fuddiannau-

- (a) yr ysgol;
- (b) unrhyw ddisgybl yn yr ysgol, neu ei riant; neu
- (c) person sy'n gweithio yn yr ysgol.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "oedi" ("*delay*") yw oedi am gyfnod sy'n ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad cynharaf y byddai'n rhesymol ymarferol cynnal cyfarfod o'r corff llywodraethu, neu o bwyllgor y dirprwywyd y swyddogaeth dan sylw iddo.

(4) Pan ymddengys i'r is-gadeirydd-

- (a) fod yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (2) yn gymwys, a
- (b) na fyddai'r cadeirydd (oherwydd bod y swydd yn wag neu am reswm arall) yn gallu arfer y swyddogaeth dan sylw cyn i'r niwed y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw ddigwydd,

darllenir y cyfeiriad at y cadeirydd ym mharagraff (1) fel pe bai'n gyfeiriad at yr is-gadeirydd.

Diswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd

41.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), caiff y corff llywodraethu drwy benderfyniad ddiswyddo'r cadeirydd, onis enwebwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 18 o Ddeddf 1998.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), caiff y corff llywodraethu drwy benderfyniad ddiswyddo'r is-gadeirydd.

(3) Ni fydd penderfyniad i ddiswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn effeithiol oni fo'r mater wedi ei bennu fel eitem o fusnes ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod, y rhoddwyd hysbysiad ohono yn unol â rheoliad 45(7).

(4) Cyn i'r corff llywodraethu benderfynu diswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd, rhaid i'r llywodraethwr sy'n cynnig ei ddiswyddo ddatgan yn y cyfarfod hwnnw ei resymau dros wneud hynny a rhaid rhoi cyfle i'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd (yn ôl fel y digwydd) ymateb drwy wneud datganiad, cyn mynd allan o'r cyfarfod.

Delegation of functions to the chair or vice-chair in cases of urgency

40.-(1) The chair may, where in his or her opinion the circumstances mentioned in paragraph (2) apply, exercise any function of the governing body which can be delegated under regulation 50(1).

(2) The circumstances are that a delay in exercising the function would be likely to be seriously detrimental to the interests of-

- (a) the school;
- (b) any pupil at the school, or his or her parent; or
- (c) a person who works at the school.

(3) In paragraph (2), "delay" ("*oedi*") means delay for a period extending beyond the earliest date on which it would be reasonably practicable for a meeting of the governing body, or of a committee to which the function in question has been delegated, to be held.

(4) Where it appears to the vice-chair that-

- (a) the circumstances mentioned in paragraph (2) apply, and
- (b) the chair (whether by reason of a vacancy in the office or otherwise) would be unable to exercise the function in question before the detriment referred to in that paragraph is suffered,

the reference in paragraph (1) to the chair is to be read as if it were a reference to the vice-chair.

Removal of the chair or vice-chair from office

41.-(1) Subject to paragraphs (3) and (4), the governing body may by resolution remove the chair from office, unless he or she has been nominated by the National Assembly for Wales pursuant to section 18 of the 1998 Act.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), the governing body may by resolution remove the vice-chair from office.

(3) A resolution to remove the chair or vice-chair from office does not have effect unless the matter is specified as an item of business on the agenda for the meeting, of which notice has been given in accordance with regulation 45(7).

(4) Before the governing body resolve to remove the chair or the vice-chair from office, the governor proposing his or her removal must at that meeting state his or her reasons for doing so and the chair or vice-chair (as the case may be) must be given an opportunity to make a statement in response, before withdrawing from the meeting.

Penodi a diswyddo clerwr y corff llywodraethu

42.-(1) Ni fydd y rheoliad hwn yn amharu ar unrhyw hawliau a chyfrifoldebau a all fod gan y clerwr o dan unrhyw gôntract â'r corff llywodraethu neu â'r awdurdod addysg lleol.

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu benodi clerwr i'r corff llywodraethu.

(3) Ni chaiff clerwr y corff llywodraethu fod-

- (a) yn llywodraethwr;
- (b) yn aelod nad yw'n llywodraethwr o unrhyw un o bwyllgorau'r corff llywodraethu;

nac

(c) yn bennaeth yr ysgol.

(4) Er gwaethaf paragraff (2) caiff y corff llywodraethu, os metha'r clerwr â mynychu un o'u cyfarfodydd, benodi unrhyw un o'u plith (ond nid y pennaeth) i weithredu fel clerwr at ddibenion y cyfarfod hwnnw.

(5) Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo clerwr y corff llywodraethu.

(6) Os nad oes gan yr ysgol ar unrhyw adeg gyllideb ddirprwyedig(1), caiff yr awdurdod addysg lleol ddiswyddo clerwr y corff llywodraethu a phenodi dirprwy, ar yr amod bod yr awdurdod addysg lleol yn ymgynghori â'r corff llywodraethu cyn gweithredu fel hynny.

Swyddogaethau clerwr y corff llywodraethu

43.-(1) Rhaid i glerwr y corff llywodraethu-

- (a) gynnwll cyfarfodydd y corff llywodraethu yn unol â rheoliad 45;
- (b) mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu a sicrhau bod cofnodion y trafodion yn cael eu cynhyrchu yn unol â rheoliad 47(1);
- (c) cadw cofrestr o aelodau'r corff llywodraethu ac adrodd am unrhyw leoedd gwag wrth y corff llywodraethu;
- (ch) cadw cofrestr o bresenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd ac adrodd ar unrhyw ddiffyg presenoldeb wrth y corff llywodraethu;
- (d) rhoi a derbyn hysbysiau yn unol â

rheoliadau 21 (*Hysbysu swyddi gwag a phenodiadau*), 26 (*Ymddiswyddo*), 27 (*Diswyddo llywodraethwyr*), 39(4) (*Ymddiswyddiad y cadeirydd neu'r is-gadeirydd*) a 45(4) (*cynwll cyfarfodydd*) o, a paragraff 13 o Atodlen 5 (*Hysbysiad o anghymhwyso*) i, y Rheoliadau hyn.

(dd) adrodd wrth y corff llywodraethu fel sy'n ofynnol ar gyflawni ei swyddogaethau; ac

Appointment and removal of the clerk to the governing body

42.-(1) This regulation is without prejudice to any rights and liabilities which the clerk may have under any contract with the governing body or with the local education authority.

(2) The governing body must appoint a clerk to the governing body.

(3) The clerk to the governing body must not be-

- (a) a governor;
- (b) a non-governor member of any committee of the governing body;

or

(c) the head teacher of the school.

(4) Notwithstanding paragraph (2), the governing body may, if the clerk fails to attend a meeting of theirs, appoint any one of their number (who is not the head teacher) to act as clerk for the purposes of that meeting.

(5) The governing body may remove the clerk to the governing body from office.

(6) If at any time the school does not have a delegated budget(1), the local education authority may remove the clerk to the governing body and appoint a substitute, provided the local education authority consults the governing body before taking such action.

Functions of the clerk to the governing body

43.-(1) The clerk to the governing body must-

- (a) convene meetings of the governing body in accordance with regulation 45;
- (b) attend meetings of the governing body and ensure minutes of the proceedings are produced in accordance with regulation 47(1);
- (c) maintain a register of members of the governing body and report any vacancies to the governing body;
- (d) maintain a register of governors' attendance at meetings and report on non-attendance to the governing body;
- (e) give and receive notices in accordance with

regulations 21 (*Notification of vacancies and appointments*), 26 (*Resignation*), 27 (*Removal of governors*), 39(4) (*Resignation of chair or vice chair*), and 45(4) (*convening meetings*) of, and paragraph 13 of Schedule 5 (*Notification of disqualification*) to, these Regulations.

(f) report to the governing body as required on the discharge of his or her functions; and

(1) *Gweler* adran 39(2) o Ddeddf 2002.

(1) *See* section 39(2) of the 2002 Act.

- (e) cyflawni pa swyddogaethau eraill bynnag a benderfynir gan y corff llywodraethu o bryd i'w gilydd.

(2) Caiff clerc y corff llywodraethu ddarparu cyngor iddo ar ei swyddogaethau a gweithdrefnau.

- (g) perform such other functions as may be determined by the governing body from time to time.

(2) The clerk to the governing body may provide it with advice on its functions and procedures.

RHAN 8

Cyfarfodydd a thrafodion cyrff llywodraethu

Hawl personau i fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu

44.- Yn ddarostyngedig i reoliad 63 o, ac Atodlen 7 i, y Rheoliadau hyn mae gan y personau canlynol yr hawl i fynychu unrhyw un o gyfarfodydd y corff llywodraethu-

- (a) yn ddarostyngedig i reoliad 49, llywodraethwr;
- (b) pennaeth yr ysgol, boed yn llywodraethwr neu beidio;
- (c) clerc y corff llywodraethu; ac
- (ch) personau eraill y bo'r corff llywodraethu yn penderfynu yn eu cylch.

Cynnull cyfarfodydd y corff llywodraethu

45.-(1) Rhaid i'r corff llywodraethu gynnal un cyfarfod o leiaf yn ystod pob tymor ysgol.

(2) Rhaid i gyfarfodydd y corff llywodraethu gael eu cynnull gan y clerc ac, heb amharu ar baragraff (3), wrth arfer y swyddogaeth hon rhaid i'r clerc gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan-

- (a) y corff llywodraethu; neu
- (b) y cadeirydd, i'r graddau nad yw unrhyw gyfarwyddyd o'r fath yn anghyson ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan is-baragraff (a).

(3) Caiff unrhyw dri aelod o'r corff llywodraethu ofyn am gyfarfod drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r clerc sy'n cynnwys crynodeb o'r busnes sydd i'w drafod; a rhaid i'r clerc cynnull cyfarfod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5), (6) a (7), rhaid i'r clerc roi hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfarfod, copi o'r agenda, ac unrhyw adroddiadau neu bapurau eraill sydd i'w hystyried yn y cyfarfod o leiaf bum niwrnod gwaith clir ymlaen llaw i-

- (a) pob llywodraethwr;
- (b) y pennaeth (boed yn llywodraethwr neu beidio); ac
- (c) yr awdurdod addysg lleol.

(5) Pan fo'r cadeirydd yn penderfynu hynny, ar y sail bod materion sy'n galw am sylw brys, bydd yn ddigon

PART 8

Meetings and proceedings of governing bodies

Right of persons to attend meetings of the governing body

44.- Subject to regulation 63 of, and Schedule 7 to, these Regulations the following persons are entitled to attend any meeting of the governing body-

- (a) subject to regulation 49, a governor;
- (b) the head teacher of the school, whether or not he is a governor;
- (c) the clerk to the governing body; and
- (d) such other persons as the governing body may determine.

Convening meetings of the governing body

45.-(1) The governing body must hold at least one meeting during every school term.

(2) Meetings of the governing body must be convened by the clerk and, without prejudice to paragraph (3), in exercising this function the clerk must comply with any direction given by-

- (a) the governing body; or
- (b) the chair, so far as such direction is not inconsistent with any direction given under sub-paragraph (a).

(3) Any three members of the governing body may requisition a meeting by giving written notice to the clerk that includes a summary of the business to be transacted; and the clerk must convene a meeting as soon as is reasonably practicable.

(4) Subject to paragraphs (5), (6) and (7), the clerk must give written notice of the meeting, a copy of the agenda, and any reports or other papers to be considered at the meeting at least five clear working days in advance to-

- (a) each governor;
- (b) the head teacher (whether or not he or she is a governor); and
- (c) the local education authority.

(5) Where the chair so determines, on the ground that there are matters demanding urgent consideration,

i'r hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarfod nodi'r ffaith honno ac i'r hysbysiad, y copi o'r agenda, yr adroddiadau a'r papurau eraill sydd i'w hystyried gael eu rhoi o fewn cyfnod byrrach yn ôl ei gyfarwyddyd.

(6) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod lle bo-

- (a) diswyddo'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd,
- (b) atal unrhyw lywodraethwr,
- (c) diswyddo llywodraethwr cymunedol neu noddwr-lywodraethwr, neu
- (ch) penderfyniad i gyflwyno hysbysiad i ddirwyn yr ysgol i ben o dan adran 30 o Ddeddf 1998

i gael ei ystyried.

(7) Pan fo paragraff (6) yn gymwys-

- (a) rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfarfod, copi o'r agenda ac unrhyw adroddiadau neu bapurau eraill i'w hystyried yn y cyfarfod o leiaf saith niwrnod gwaith clir ymlaen llaw; a
- (b) nid yw pŵer y cadeirydd i roi cyfarwyddyd i gynnal cyfarfod o fewn cyfnod byrrach yn gymwys.

(8) Caiff yr is-gadeirydd arfer swyddogaethau'r cadeirydd yn y rheoliad hwn yn absenoldeb y cadeirydd neu os bydd swydd y cadeirydd yn wag.

(9) Ni chaiff cyfarfod o'r corff llywodraethu ei annylsu oherwydd nad yw unrhyw berson wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfarfod neu gopi o'r agenda.

Cworwm a thrafodion y corff llywodraethu

46.-(1) Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r corff llywodraethu ac ar gyfer unrhyw bleidlais ar unrhyw fater mewn cyfarfod o'r fath yw hanner (wedi ei dalgrynnu i fyny i rif cyfan) aelodaeth y corff llywodraethu heb gynnwys unrhyw leoedd gwag nac unrhyw lywodraethwyr sydd wedi eu hatal o'r cyfarfod hwnnw yn unol â rheoliad 49.

(2) Rhaid i bob cwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu gael ei ddyfarnu drwy fwyafrif o bleidleisiau'r llywodraethwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y mater.

(3) Pan fo'r pleidleisiau wedi eu rhannu'n gyfartal bydd gan y cadeirydd neu, yn ôl fel y digwydd, y person sy'n gweithredu fel cadeirydd at ddibenion y cyfarfod (ar yr amod bod person o'r fath yn llywodraethwr) ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(4) Ni fydd unrhyw benderfyniad i gyflwyno hysbysiad i gau'r ysgol o dan adran 30 o Ddeddf 1998 yn effeithiol, pa un a gymerir ef gan y corff llywodraethu ynteu gan bwyllgor, oni chaiff ei gadarnhau gan y corff llywodraethu mewn cyfarfod a gynhelir heb fod yn llai na 28 diwrnod wedi'r cyfarfod y gwnaed y penderfyniad ynddo ac-

it is sufficient if the written notice of the meeting states that fact and the notice, copy of the agenda, reports and other papers to be considered are given within such shorter period as he or she directs.

(6) This paragraph applies in relation to any meeting at which-

- (a) the removal of the chair or vice-chair from office,
- (b) the suspension of any governor,
- (c) the removal of a community governor or sponsor governor, or
- (d) a decision to serve notice of discontinuance of the school under section 30 of the 1998 Act

is to be considered.

(7) Where paragraph (6) applies-

- (a) written notice of the meeting, a copy of the agenda and any reports or other papers to be considered at the meeting must be given at least seven clear working days in advance; and
- (b) the power of the chair to direct that a meeting be held within a shorter period does not apply.

(8) The functions of the chair in this regulation may be exercised by the vice-chair in the absence of the chair or where there is a vacancy in the office of chair.

(9) A meeting of the governing body and its proceedings are not invalidated by reason of any person not having received written notice of the meeting or a copy of the agenda.

Quorum and proceedings of the governing body

46.-(1) The quorum for a meeting of the governing body and for any vote on any matter at such a meeting is one half (rounded up to a whole number) of the membership of the governing body excluding any vacancies and any governors suspended from that meeting in accordance with regulation 49.

(2) Every question to be decided at a meeting of the governing body must be determined by a majority of the votes of the governors present and voting on the question.

(3) Where there is an equal division of votes the chair or, as the case may be, the person who is acting as chair for the purposes of the meeting (provided that such person is a governor), has a second or casting vote.

(4) No decision to serve notice of discontinuance of the school under section 30 of the 1998 Act whether taken by the governing body or by a committee, has effect unless it is confirmed by the governing body at a meeting held not less than 28 days after the meeting at which the decision was made and-

- (a) oni bennir y mater yn eitem o fusnes ar agenda'r ddau gyfarfod; a
- (b) oni roddir hysbysiad o'r ail gyfarfod yn unol â rheoliad 45(7).

(5) Ni chaiff trafodion corff llywodraethu ysgol eu hannillysu gan-

- (a) unrhyw le gwag ymhlith ei aelodau;
- (b) unrhyw ddiffyg wrth ethol, penodi nac enwebu unrhyw lywodraethwr;
- (c) unrhyw ddiffyg wrth benodi'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd; neu
- (ch) y ffaith bod gan yr ysgol fwy o lywodraethwyr o gategori arbennig nag y darperir ar eu cyfer gan yr offeryn llywodraethu(1).

Cofnodion a phapurau

47.-(1) Rhaid i'r clerwr (neu'r person a benodir i weithredu fel clerwr at ddiben y cyfarfod yn unol â rheoliad 42(4)) sicrhau bod cofnodion trafodion cyfarfod o'r corff llywodraethu'n cael eu llunio a'u llofnodi (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y corff llywodraethu) gan y cadeirydd (neu gan y person sy'n gweithredu fel cadeirydd) yn y cyfarfod nesaf.

(2) Rhaid i gofnodion y trafodion gael eu rhoi mewn llyfr a gedwir at y diben gan y clerwr a gellir eu rhoi ar dudalennau rhyddion wedi eu rhifo'n olynol; ond os gwneir hynny rhaid i'r person sy'n llofnodi'r cofnodion dorri llythrennau'i enw ar bob tudalen.

(3) Rhaid i'r person sy'n gweithredu fel clerwr y corff llywodraethu at ddibenion unrhyw gyfarfod ysgrifennu'n union cyn y nodyn sy'n cofnodi'r cyfarfod hwnnw yn y llyfr neu ar y tudalennau a ddefnyddir at y diben hwnnw enwau'r aelodau hynny o'r corff llywodraethu ac unrhyw berson arall a oedd yn bresennol yn y cyfarfod dan sylw.

(4) Rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu copi o gofnodion drafft neu wedi'u llofnodi o gyfarfod penodol i'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw os caiff gais gan yr awdurdod dan sylw.

Cyhoeddi cofnodion a phapurau

48.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r corff llywodraethu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, drefnu bod copi ar gael i'w archwilio yn yr ysgol, gan unrhyw berson â diddordeb, o-

- (a) agenda pob cyfarfod;
- (b) cofnodion wedi'u llofnodi o bob cyfarfod o'r fath;
- (c) unrhyw adroddiad neu bapur arall a ystyriwyd mewn unrhyw gyfarfod o'r fath; ac
- (ch) cofnodion drafft unrhyw gyfarfod, os cymeradwywyd hwy gan y person sy'n gweithredu fel cadeirydd y cyfarfod hwnnw.

- (a) the matter is specified as an item of business on the agenda for both meetings; and
- (b) notice of the second meeting is given in accordance with regulation 45(7).

(5) The proceedings of the governing body of a school are not invalidated by-

- (a) any vacancy among their number;
- (b) any defect in the election, appointment or nomination of any governor;
- (c) any defect in the appointment of the chair or vice-chair; or
- (d) the school having more governors of a particular category than are provided for by the instrument of government(1).

Minutes and papers

47.-(1) The clerk (or the person appointed to act as clerk for the purpose of the meeting in accordance with regulation 42(4)) must ensure that minutes of the proceedings of a meeting of the governing body are drawn up and signed (subject to the approval of the governing body) by the chair (or the person acting as chair) at the next meeting.

(2) The minutes of proceedings must be entered into a book kept for the purpose by the clerk and may be entered on loose-leaf pages consecutively numbered; but in that case the person signing the minutes must initial each page.

(3) The person acting as clerk to the governing body for the purposes of any meeting must record immediately before the entry recording the minutes of that meeting in the book or pages used for that purpose the names of those members of the governing body and of any other person present at the meeting concerned.

(4) The governing body must supply a copy of the draft or signed minutes of a particular meeting to the local education authority that maintains the school in question on request by the authority concerned.

Publication of minutes and papers

48.-(1) Subject to paragraph (2), the governing body must, as soon as reasonably practicable, make available for inspection at the school by any interested person, a copy of-

- (a) the agenda for every meeting;
- (b) the signed minutes of every such meeting;
- (c) any report or other paper considered at any such meeting; and
- (d) the draft minutes of any meeting, if they have been approved by the person acting as chairman of that meeting.

(1) *Gweler* adran 20(1) o Ddeddf 2002 a rheoliad 22.

(1) *See* section 20(1) of the 2002 Act and regulation 22.

(2) Caiff y corff llywodraethu dynnu allan o unrhyw eitem y mae angen trefnu iddi fod ar gael yn unol â pharagraff (1) unrhyw ddeunydd yn ymwneud ag-

- (a) person a enwir sy'n gweithio, neu y bwriedir y dylai weithio, yn yr ysgol; neu
- (b) disgybl yn yr ysgol sy'n cael ei enwi, neu un sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol; neu
- (c) unrhyw fater arall y mae'r corff llywodraethu yn fodlon y dylai aros yn gyfrinachol oherwydd ei natur.

(3) Rhaid i bob tudalen o gopiau a gyhoeddir o unrhyw gofnodion drafft o drafodion cyfarfodydd a gymeradwywyd gan y cadeirydd nodi eu bod yn gofnodion drafft.

Atal llywodraethwyr

49.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3) a (4), caiff y corff llywodraethu drwy benderfyniad atal llywodraethwr o'r cyfan neu o rai o gyfarfodydd y corff llywodraethu, neu o bwyllgor, am gyfnod penodol o hyd at 6 mis am un neu ragor o'r rhesymau canlynol-

- (a) bod y llywodraethwr, ac yntau'n berson y telir iddo am weithio yn yr ysgol, yn destun achos disgyblu mewn perthynas â'i gyflogaeth;
- (b) bod y llywodraethwr yn destun achos mewn unrhyw lys neu dribiwnlys, y gallai ei ganlyniad olygu y caiff ei anghymhwysu rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o dan Atodlen 5;
- (c) bod y llywodraethwr wedi gweithredu mewn modd sy'n anghyson ag ethos neu gymeriad crefyddol yr ysgol ac wedi dwyn neu'n debygol o ddwyn anfri ar yr ysgol neu ar y corff llywodraethu neu ar ei swydd; neu
- (ch) bod y llywodraethwr wedi torri ei ddyletswydd o gyfrinachedd i'r ysgol neu i unrhyw aelod o'r staff neu i unrhyw ddisgybl yn yr ysgol.

(2) Ni fydd penderfyniad i atal llywodraethwr o'i swydd yn effeithiol oni fo'r mater wedi ei bennu fel eitem o fusnes ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod, y rhoddyd hysbysiad ohono yn unol â rheoliad 45(7).

(3) Cyn y cymerir pleidlais ar benderfyniad i atal llywodraethwr, rhaid i'r llywodraethwr sy'n cynnig y penderfyniad ddatgan yn y cyfarfod ei resymau dros wneud hynny, a rhaid rhoi cyfle i'r llywodraethwr sy'n destun y penderfyniad wneud datganiad yn ymateb cyn mynd allan o'r cyfarfod yn unol â pharagraff 2(2) o Atodlen 7.

(4) Ni ddylid darllen dim yn y rheoliad hwn fel petai'n effeithio ar hawl llywodraethwr a ataliwyd-

(2) The governing body may exclude from any item required to be made available in pursuance of paragraph (1) any material relating to-

- (a) a named person who works, or who it is proposed should work, at the school; or
- (b) a named pupil at, or candidate for admission to, the school; or
- (c) any other matter that, by reason of its nature, the governing body is satisfied should remain confidential.

(3) Each page of published copies of any draft minutes of proceedings of meetings approved by the chair must indicate that they are draft minutes.

Suspension of governors

49.-(1) Subject to paragraphs (2), (3) and (4), the governing body may by resolution suspend a governor for all or any meetings of the governing body, or of a committee, for a fixed period of up to 6 months on one or more of the following grounds-

- (a) that the governor, being a person paid to work at the school, is the subject of disciplinary proceedings in relation to his or her employment;
- (b) that the governor is the subject of proceedings in any court or tribunal, the outcome of which may be that he or she is disqualified from continuing to hold office as a governor under Schedule 5;
- (c) that the governor has acted in a way that is inconsistent with the ethos or with the religious character of the school and has brought or is likely to bring the school or the governing body or his or her office into disrepute; or
- (d) that the governor is in breach of his or her duty of confidentiality to the school or to any member of staff or to any pupil at the school.

(2) A resolution to suspend a governor from office does not have effect unless the matter is specified as an item of business on the agenda for the meeting of which notice has been given in accordance with regulation 45(7).

(3) Before a vote is taken on a resolution to suspend a governor, the governor proposing the resolution must at the meeting state his or her reasons for doing so, and the governor who is the subject of the resolution must be given the opportunity to make a statement in response before withdrawing from the meeting in accordance with paragraph 2(2) of Schedule 7.

(4) Nothing in this regulation is to be read as affecting the right of a governor who has been suspended-

- (a) i gael hysbysiad o gyfarfodydd y corff llywodraethu, ac agendâu ac adroddiadau neu bapurau eraill ar eu cyfer, na
- (b) i fynychu cyfarfod o'r corff llywodraethu a gynullir yn unol â rheoliad 30 i ystyried ei ddiswyddo

yn ystod cyfnod ei ataliad.

(5) Ni ddylid darllen dim yn y rheoliad hwn fel petai'n rhwystro corff llywodraethu rhag atal llywodraethwr a ataliwyd o dan baragraff (1) am gyfnod neu gyfnodau pellach, pa un a yw am yr un rheswm â'r atal gwreiddiol ai peidio, a bydd paragraffau (1) i (4) yn gymwys i bob ataliad.

(6) Ni chaiff llywodraethwr ei anghymhwysio rhag parhau i ddal swydd o dan baragraff 5 o Atodlen 5 am beidio â mynychu unrhyw gyfarfod o'r corff llywodraethu tra bydd wedi ei atal o dan y rheoliad hwn.

Dirprwyo swyddogaethau

50.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 51 o'r Rheoliadau hyn, rheoliad 3(2) o Reoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Gweithdrefn Ddynodi) 1998(1) a rheoliad 7 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000(2), caiff y corff llywodraethu ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i-

- (a) pwyllgor;
- (b) unrhyw lywodraethwr; neu
- (c) y pennaeth (boed lywodraethwr neu beidio).

(2) Pan fo corff llywodraethu wedi dirprwyo swyddogaethau ni fydd hyn yn rhwystro'r corff llywodraethu rhag arfer y swyddogaethau hynny.

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu adolygu'n flynyddol y modd yr arferir swyddogaethau a ddirprwywyd ganddo.

Cyfyngiadau ar ddirprwyo a phwyllgorau penodedig

51.-(1) Ni chaiff y corff llywodraethu ddirprwyo o dan reoliad 50(1) ei swyddogaethau o dan y rheoliadau canlynol-

- (a) y rhai hynny yn Rhan 2 (*categoriau o lywodraethwyr*);
- (b) y rhai hynny yn Rhan 3 (*cyfansoddiad cyrff llywodraethu*);
- (c) y rhai hynny yn Rhan 4 (*diswyddo llywodraethwyr*);
- (ch) y rhai hynny yn Rhan 5 (*offerynnau llywodraethu*);

(1) O.S. 1998/2535 fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â Chymru gan O.S. 1999/2243.

(2) O.S. 2000/3027 (Cy. 195) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1396 (Cy. 138).

- (a) to receive notices of, and agendas and reports or other papers for, meetings of the governing body, or
- (b) to attend a meeting of the governing body convened in accordance with regulation 30 to consider his or her removal from office,

during the period of his or her suspension.

(5) Nothing in this regulation is to be read as preventing a governing body from suspending a governor who has been suspended under paragraph (1) for a further fixed period or periods, whether or not on the same ground as that of the original suspension, and paragraphs (1) to (4) apply in relation to each suspension.

(6) A governor is not disqualified from continuing to hold office under paragraph 5 of Schedule 5 for failure to attend any meeting of the governing body while suspended under this regulation.

Delegation of functions

50.-(1) Subject to regulation 51 of these Regulations, regulation 3(2) of the Religious Character of Schools (Designation Procedure) Regulations 1998(1) and regulation 7 of the School Government (Terms of Reference) (Wales) Regulations 2000(2), the governing body may delegate any of its functions to-

- (a) a committee;
- (b) any governor; or
- (c) the head teacher (whether or not he or she is a governor).

(2) Where the governing body has delegated functions this does not prevent the governing body from exercising those functions.

(3) The governing body must review the exercise of functions it has delegated annually.

Restrictions on delegation and specified committees

51.-(1) The governing body may not delegate under regulation 50(1) its functions under the following regulations-

- (a) those in Part 2 (*categories of governors*);
- (b) those in Part 3 (*constitution of governing bodies*);
- (c) those in Part 4 (*removal of governors*);
- (d) those in Part 5 (*instruments of government*);

(1) S.I. 1998/2535, as amended in relation to Wales by S.I. 1999/2243.

(2) S.I. 2000/3027 (W. 195) as amended by S.I. 2002/1396 (W. 138).

- (d) rheoliadau 39 a 41 (*ethol a diswyddo cadeirydd ac is-gadeirydd*);
- (dd) rheoliad 42 (*penodi a diswyddo clerig y corff llywodraethu*);
- (e) rheoliad 49 (*atal llywodraethwyr*);
- (f) rheoliad 50 (*dirprwyo swyddogaethau*);
- (ff) rheoliad 54 (*sefydlu pwyllgorau*);

ac ni chaiff ychwaith ddirprwyo ei swyddogaethau mewn perthynas â phanelau dethol pennaeth a dirprwy pennaeth o dan baragraff 6 o Atodlen 16 a pharagraffau 7 a 30 o Atodlen 17 i Ddeddf 1998.

(2) Ni chaiff y corff llywodraethu ddirprwyo i unigolyn o dan reoliad 50(1)-

(a) y swyddogaethau yn:

- (i) adrannau 28, 29, 30 a 31 o Ddeddf 1998, a pharagraff 10(4) yn Atodlen 6 iddi (*Newid neu cau ysgolion a gynhelir*);
- (ii) adrannau 28(1) a 31 o Ddeddf 1998 fel y maent yn effeithiol yn rhinwedd Rheoliadau a wnaed o dan Atodlen 8 i Ddeddf 1998 mewn perthynas â chynigion o dan yr Atodlen honno (*Newid categori ysgolion a gynhelir*);
- (iii) cynllun a wnaed gan yr awdurdod lleol o dan adran 48(1) o Ddeddf 1998, i'r graddau y mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gymeradwyo cynllun cyllideb ffurfiol cyntaf y flwyddyn ariannol;
- (iv) adran 61(1) i (3) o Ddeddf 1998 (*polisiau disgyblaeth ysgolion*);
- (v) adrannau 88, 89(2), 89A(3) 90(8) a 91 o Ddeddf 1998 (*sy'n ymwneud â phenderfynu ar drefniadau derbyn i ysgolion*), adran 90(1) o Ddeddf 1998 (*sy'n ymwneud â chyfeirio gwrthwynebiadau ynghylch trefniadau derbyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*), adran 93 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 23 iddi (*sy'n ymwneud â phennu niferoedd derbyn ac amrywio niferoedd safonol*), neu adran 94(4) o Ddeddf 1998 i'r graddau y mae'n ymwneud â phenderfynu ynghylch trefniadau apêl gan y corff llywodraethu;
- (vi) adran 63 o Ddeddf 1998 (*targedau mynychu ysgol*);

- (e) regulations 39 and 41 (*election and removal of chair and vice chair*);
- (f) regulation 42 (*appointment and removal of the clerk to the governing body*);
- (g) regulation 49 (*suspension of governors*);
- (h) regulation 50 (*delegation of functions*);
- (i) regulation 54 (*establishment of committees*);

nor may it delegate its functions in respect of head teacher and deputy head teacher selection panels under paragraph 6 of Schedule 16 and paragraphs 7 and 30 of Schedule 17 to the 1998 Act.

(2) The governing body may not delegate to an individual under regulation 50(1) -

(a) the functions in:

- (i) sections 28, 29, 30 and 31 of, and paragraph 10(4) of Schedule 6 to the 1998 Act (*Alteration or discontinuance of maintained schools*);
- (ii) sections 28(1) and 31 of the 1998 Act as they have effect by virtue of Regulations made under Schedule 8 to the 1998 Act in relation to proposals under that Schedule (*Change of category of maintained schools*);
- (iii) a scheme made by the local authority under section 48(1) of the 1998 Act, to the extent that it requires the governing body to give their approval to the first formal budget plan of the financial year;
- (iv) section 61(1) to (3) of the 1998 Act (school discipline policies);
- (v) sections 88, 89(2), 89A(3) 90(8) and 91 of the 1998 Act (*which relate to the determination of admission arrangements*), section 90(1) of the 1998 Act (*which relates to the reference to the National Assembly for Wales of objections about admission arrangements*), section 93 of and Schedule 23 to the 1998 Act (*which relate to fixing admission numbers and variation of standard numbers*), or section 94(4) of the 1998 Act in so far as it relates to the determination of appeal arrangements by the governing body;
- (vi) section 63 of the 1998 Act (*school attendance targets*);

(1) Diwygiwyd gan adran 154 o Ddeddf 2002.

(2) Diwygiwyd gan baragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf 2002.

(3) Rhoddwyd i mewn gan adran 47(2) o Ddeddf 2002. Noder hefyd y diddymir adran 93 o, ac Atodlen 23 i, Ddeddf 1998 gan Ddeddf 2002.

(4) Diwygiwyd gan adran 50 o, a pharagraff 8 o Atodlen 4 i, Ddeddf 2002.

(1) Amended by section 154 of the 2002 Act.

(2) Amended by paragraph 5 of Schedule 4 to the 2002 Act

(3) Inserted by section 47(2) of the 2002 Act. Note also that section 93 of and Schedule 23 to the 1998 Act are prospectively repealed by the 2002 Act.

(4) Amended by section 50 of, and paragraph 8 of Schedule 4 to the 2002 Act.

(vii) adran 439(7) o Ddeddf 1996 (*gorchmynion mynychu ysgol*);

(viii) adran 95(2) a 97(3) o Ddeddf 1998 (*apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod addysg lleol i dderbyn plentyn a chyfeiriad i'r Cynulliad mewn cysylltiad â chyfarwyddyd a wneir gan awdurdod addysg lleol i dderbyn plentyn*); na'r

(b) swyddogaethau y mae'n rhaid eu dirprwyo i'r pwyllgorau a enwir yn rheoliadau 55 i 57.

(vii) section 439(7) of the 1996 Act (*school attendance orders*);

(viii) section 95(2) and 97(3) of the 1998 Act (*appeal against a decision of the local education authority to admit a child and referral to the Assembly in respect of a direction made by the local education authority to admit a child*); or

(b) the functions that must be delegated to the committees specified in regulations 55 to 57.

Adrodd wrth y corff llywodraethu yn dilyn arfer swyddogaethau dirprwyedig

52.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo unrhyw swyddogaeth o eiddo'r corff llywodraethu wedi ei dirprwyo i'r canlynol neu'n arferadwy fel arall gan y canlynol-

- (a) llywodraethwr (gan gynnwys y cadeirydd neu'r is-gadeirydd);
- (b) y pennaeth (boed yn llywodraethwr neu beidio); neu
- (c) pwyllgor.

(2) Rhaid i unrhyw unigolyn neu bwyllgor y dirprwywyd swyddogaeth corff llywodraethu iddo neu sydd fel arall wedi arfer swyddogaeth corff llywodraethu, adrodd wrth y corff llywodraethu ynghylch unrhyw gam a gymerwyd neu benderfyniad a wnaed mewn perthynas ag arfer y swyddogaeth honno.

Reporting to the governing body following the exercise of delegated functions

52.-(1) This regulation applies where any function of the governing body has been delegated to or is otherwise exercisable by-

- (a) a governor (including the chair or vice-chair);
- (b) the head teacher (whether or not he or she is a governor); or
- (c) a committee.

(2) Any individual or committee to whom a function of the governing body has been delegated or that has otherwise exercised a function of the governing body, must report to the governing body in respect of any action taken or decision made with respect to the exercise of that function.

RHAN 9

Pwyllgorau cyrff llywodraethu

Cymhwyso'r Rhan hon

53. Nid yw'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â phanelau dethol penaethiaid a dirprwy benaethiaid a sefydlwyd o dan Atodlen 16 neu 17 i Ddeddf 1998.

Sefydlu pwyllgorau'r corff llywodraethu

54.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bwyllgorau'r corff llywodraethu yn ddarostyngedig i reoliadau 55, 56 a 57.

(2) Y corff llywodraethu sydd i benderfynu beth fydd cyfansoddiad, aelodaeth a chylch gwaith unrhyw bwyllgor y penderfyna ei sefydlu a'u hadolygu'n flynyddol.

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu benodi cadeirydd yn flynyddol ar bob pwyllgor neu raid i'r pwyllgor ei ethol, yn ôl penderfyniad y corff llywodraethu.

PART 9

Committees of governing bodies

Application of this Part

53. This Part does not apply in relation to head teacher and deputy head teacher selection panels established under Schedule 16 or 17 to the 1998 Act.

Establishment of committees of the governing body

54.-(1) This regulation applies to committees of the governing body subject to regulations 55, 56 and 57.

(2) The governing body is to determine the constitution, membership and terms of reference of any committee it decides to establish and review them annually.

(3) A chair must be appointed annually to each committee by the governing body or elected by the committee, as determined by the governing body.

(4) Rhaid i bwyllgor ethol aelod o'r pwyllgor hwnnw i weithredu fel cadeirydd yn absenoldeb y cadeirydd a benodwyd o dan baragraff (3).

(5) Ni chaiff unrhyw un a gyflogir i weithio yn yr ysgol, na'r un o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol, weithredu fel cadeirydd pwyllgor.

(6) Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo cadeirydd unrhyw bwyllgor ar unrhyw adeg.

(7) Caiff aelodaeth pwyllgor gynnwys personau nad ydynt yn llywodraethwyr a'r corff llywodraethu bydd yn penderfynu i ba raddau y bydd gan aelodau o'r fath hawl i bleidleisio.

(8) Rhaid i fwyafrif yr aelodau ar unrhyw bwyllgor fod yn llywodraethwyr.

Y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo

55.-(1) Rhaid i swyddogaethau canlynol corff llywodraethu ysgol gael eu dirprwyo i bwyllgor, a elwir yn bwyllgor disgyblu a diswyddo staff-

- (i) mewn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol, y penderfyniad cychwynnol o dan baragraff 25 yn Atodlen 16 i Ddeddf 1998 y dylai unrhyw un a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol i weithio yn yr ysgol orffen gweithio yno;
- (ii) mewn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol arbennig sefydledig, y penderfyniad cychwynnol y dylid terfynu contract cyflogaeth person a gyflogir i weithio yn yr ysgol â'r corff llywodraethu neu na ddylid adnewyddu ei contract (ac eithrio pan fo'r diswyddo yn unol â chyfarwyddyd yr awdurdod addysg lleol o dan adran 55(5) o Ddeddf 1998); a
- (iii) gwrandao ar sylwadau mewn perthynas â phenderfyniad y mae'n rhaid ei ddirprwyo o dan y paragraff hwn.

(2) Rhaid dirprwyo gwrandawriad unrhyw apêl mewn perthynas â phenderfyniad y mae'n rhaid ei ddirprwyo o dan baragraff (1) i bwyllgor, a elwir yn bwyllgor apelau disgyblu a diswyddo.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), rhaid i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff gynnwys o leiaf dri llywodraethwr.

(4) Rhaid i'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo gynnwys o leiaf gynifer o lywodraethwyr â'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff y mae ei benderfyniad yn destun apêl.

(5) Mae'r cworwm ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu

(4) A committee must elect a member of that committee to act as chair in the absence of the chair appointed under paragraph (3).

(5) No person who is employed to work at the school, nor a registered pupil of the school may act as chair of a committee.

(6) The governing body may remove the chair to any committee from office at any time.

(7) The membership of a committee may include persons who are not governors and the extent to which such members are entitled to vote is to be determined by the governing body.

(8) The majority of members on any committee must be governors.

Staff disciplinary and dismissal committee and disciplinary and dismissal appeals committee

55.-(1) The following functions of the governing body of a school must be delegated to a committee, to be known as the staff disciplinary and dismissal committee-

- (i) at a community, voluntary controlled or community special school, the initial determination under paragraph 25 of Schedule 16 to the 1998 Act that any person employed by the local education authority to work at the school should cease to work there;
- (ii) at a foundation, voluntary aided or foundation special school, the initial decision that a person employed to work at the school should have his or her contract of employment with the governing body terminated or should not have his or her contract renewed (except where the dismissal is pursuant to a direction of the local education authority under section 55(5) of the 1998 Act); and
- (iii) the hearing of representations in relation to a decision which must be delegated under this paragraph.

(2) The hearing of any appeal in respect of a decision that must be delegated under paragraph (1) must be delegated to a committee, known as the disciplinary and dismissal appeals committee.

(3) Subject to paragraph (9), the staff disciplinary and dismissal committee must include not less than three governors.

(4) The disciplinary and dismissal appeals committee must include no fewer governors than the staff disciplinary and dismissal committee the decision of which is subject to appeal.

(5) The quorum for a meeting of the staff disciplinary and dismissal committee and the

a diswyddo ac unrhyw bleidlais ar unrhyw fater yn y pwyllgorau yr un nifer ag isafswm y gofynion ar gyfer cyfansoddiad y pwyllgorau hynny a bennir yn y rheoliad hwn.

(6) Pan fo'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo yn ystyried apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor disgyblu a diswyddo staff, ni chaiff unrhyw aelod o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff y mae ei benderfyniad yn destun apêl gymryd rhan yn nhrefodion y pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo.

(7) Ni chaiff pennaeth yr ysgol fod yn aelod o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff nac o'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo.

(8) Ni fydd gan unrhyw aelod o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff na'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo nad yw'n llywodraethwr hawl i bleidleisio yn unrhyw drafodion y pwyllgor dan sylw.

(9) Pan nad yw'n rhesymol ymarferol i'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apelau disgyblu a diswyddo gynnwys tri llywodraethwr yr un, caiff y pwyllgor disgyblu a diswyddo staff gynnwys dau lywodraethwr.

Pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion

56.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol sefydlu pwyllgor, a elwir yn bwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion, i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd iddo gan neu o dan reoliadau a wnaed o dan adran 52(3) a (4) o Ddeddf 2002 (*Gwahardd disgyblion*)(1).

(2) Rhaid i'r pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion gynnwys naill ai dri neu bump o lywodraethwyr, ond nid y pennaeth.

(3) Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion ac unrhyw bleidlais ar unrhyw fater gerbron y pwyllgor yw tri aelod o'r pwyllgor.

(4) Caiff cadeirydd y pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion arfer unrhyw swyddogaeth a roddwyd i'r corff llywodraethu gan neu o dan reoliadau a wnaed o dan adran 52(3) a (4) o Ddeddf 2002 (*Gwahardd disgyblion*) mewn achos-

- (a) pan fo disgybl wedi ei wahardd am gyfnod penodol mewn amgylchiadau lle y byddai, o ganlyniad i'r gwaharddiad, yn colli cyfle i sefyll unrhyw arholiad cyhoeddus; a
- (b) pan fo'n ymddangos i'r cadeirydd na fyddai'n ymarferol cynnal cyfarfod â chworwm o'r pwyllgor at unrhyw ddiben y cyfeirir ato mewn rheoliadau o'r fath cyn y deuai'r amser i'r

(1) *Gweler* y Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003, O.S. 2003/3227 (Cy. 308) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/1805 (Cy. 193).

disciplinary and dismissal appeals committee and any vote on any matter at the committees is the same as the minimum requirements for the composition of those committees specified in this regulation.

(6) Where a disciplinary and dismissal appeals committee is considering an appeal against a decision of the staff disciplinary and dismissal committee, no member of the staff disciplinary and dismissal committee whose decision is subject to appeal may take part in the proceedings of the disciplinary and dismissal appeals committee.

(7) The head teacher of the school shall not be a member of the staff disciplinary and dismissal committee or the disciplinary and dismissal appeal committee.

(8) No member of the staff disciplinary and dismissal committee or the disciplinary and dismissal appeal committee who is not a governor is entitled to vote in any proceedings of the committee in question.

(9) Where it is not reasonably practicable for the staff disciplinary and dismissal committee and the disciplinary and dismissal appeal committee each to include three governors, the staff disciplinary and dismissal committee may include two governors.

Pupil discipline and exclusions committee

56.-(1) The governing body of a school must establish a committee, to be known as the pupil discipline and exclusions committee, to discharge the functions conferred on it by or under regulations made under section 52(3) and (4) of the 2002 Act (*Exclusion of pupils*)(1).

(2) The pupil discipline and exclusions committee must consist of either three or five governors, but must not include the head teacher.

(3) The quorum for a meeting of the pupil discipline and exclusions committee and any vote on any matter before the committee is three members of the committee.

(4) The chair of the pupil discipline and exclusions committee may exercise any function conferred on the governing body by or under regulations made under section 52(3) and (4) of the 2002 Act (*Exclusion of pupils*) in a case where-

- (a) a pupil has been excluded for a fixed period in circumstances in which he or she would, as a result of the exclusion, lose an opportunity to take any public examination; and
- (b) it appears to the chair that it would not be practical for a quorate meeting of the committee to take place for any purpose referred to in such regulations before the time

(1) *See* the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003, S.I. 2003/3227(W. 308) as amended by S.I. 2004/1805 (W. 193).

disgybl sefyll yr arholiad hwnnw.

when the pupil would be due to take that examination.

Pwyllgor derbyniadau

57.-(1) Os corff llywodraethu ysgol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol honno rhaid iddo sefydlu pwyllgor, a elwir yn bwyllgor derbyniadau, i arfer ei bwerau i benderfynu a ddylid derbyn unrhyw blentyn i'r ysgol.

(2) Rhaid i bwyllgor a sefydlir o dan baragraff (1) gynnwys-

- (a) pennaeth yr ysgol (y bydd ganddo hawl i bleidleisio pa un a yw'n llywodraethwr ai peidio); a
- (b) o leiaf ddau lywodraethwr arall

(3) Yn achos ysgol sydd â mwy nag un pennaeth, dehongler y cyfeiriad ym mharagraff (2)(a) at y pennaeth fel cyfeiriad at un o'r penaethiaid.

(4) Mae'r cworwm ar gyfer y pwyllgor derbyniadau ac unrhyw bleidlais ar unrhyw fater yn y pwyllgor yr un fath â'r isafswm sy'n ofynnol ar gyfer aelodaeth y pwyllgor a bennir yn y rheoliad hwn.

Clercod pwyllgorau

58.-(1) Rhaid i'r corff llywodraethu benodi clerc i bob pwyllgor a sefydlir yn unol â rheoliadau 55 i 57 a chaiff benodi clerc i unrhyw bwyllgor arall a sefydlir ganddo.

(2) Ni cheir penodi pennaeth yr ysgol yn glerc o dan baragraff (1).

(3) Er gwaethaf paragraff (1) caiff y pwyllgor, os metha'r clerc â mynychu un o'u cyfarfodydd, benodi unrhyw un o'u plith (ond nid y pennaeth) i weithredu fel clerc at ddbenion y cyfarfod hwnnw.

(4) Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo unrhyw glerc a benodir i unrhyw bwyllgor o'i eiddo ar unrhyw adeg.

(5) Rhaid i glerc a benodir i bwyllgor y corff llywodraethu-

- (a) cynnull cyfarfodydd y pwyllgor;
- (b) mynychu cyfarfodydd y pwyllgor a sicrhau y llunnir cofnodion o'r trafodion; ac
- (c) cyflawni pa swyddogaethau eraill bynnag mewn perthynas â'r pwyllgor hwnnw a benderfynir gan y corff llywodraethu o bryd i'w gilydd.

Admissions committee

57.-(1) Where the governing body of a school is the admissions authority for that school it must establish a committee, to be known as the admissions committee, to exercise its powers to determine whether any child should be admitted to the school.

(2) A committee established under paragraph (1) must consist of-

- (a) the head teacher of the school (who is entitled to vote whether or not he or she is a governor); and
- (b) at least two other governors

(3) In the case of a school which has more than one head teacher, the reference in paragraph (2)(a) to the head teacher is to be interpreted as a reference to one of the head teachers.

(4) The quorum for the admissions committee and any vote on any matter at the committee is the same as the minimum requirement for the composition of the committee specified in this regulation.

Clerks to committees

58.-(1) The governing body must appoint a clerk to each committee established in accordance with regulations 55 to 57 and may appoint a clerk to any other committee established by it.

(2) The head teacher of the school may not be appointed as clerk under paragraph (1).

(3) Notwithstanding paragraph (1), the committee may, if the clerk fails to attend a meeting of theirs, appoint any one of their number (who is not the head teacher) to act as clerk for the purposes of that meeting.

(4) The governing body may remove any clerk appointed to any of their committees from office at any time.

(5) A clerk appointed to a committee of the governing body must-

- (a) convene meetings of the committee;
- (b) attend meetings of the committee and ensure that minutes of the proceedings are drawn up; and
- (c) perform such other functions with respect to that committee as may be determined by the governing body from time to time.

Hawl personau i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau

59.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) ac Atodlen 7 i'r Rheoliadau hyn bydd gan y canlynol yr hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o bwyllgor-

- (a) unrhyw aelod o'r pwyllgor, ar yr amod nad yw'n llywodraethwr a ataliwyd yn unol â rheoliad 49;
- (b) pennaeth yr ysgol, pa un a yw'n aelod o'r pwyllgor ai peidio;
- (c) clerc y pwyllgor; ac
- (ch) personau eraill y bo'r corff llywodraethu neu'r pwyllgor yn penderfynu yn eu cych.

(2) Caiff pwyllgor wahardd aelod nad yw'n llywodraethwr o unrhyw ran o'i gyfarfod y mae ganddo fel arall hawl i'w fynychu pan fo'r busnes o dan ystyriaeth yn ymwneud ag aelod unigol o'r staff neu â disgybl.

(3) Nid yw paragraff (1)(b) yn gymwys mewn perthynas â'r pwyllgorau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 55 a 56 nac mewn perthynas ag unrhyw bwyllgor neu banel dethol sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan Atodlenni 16 neu 17 i Ddeddf 1998.

Cyfarfodydd pwyllgorau

60. Yn ddarostyngedig i baragraff (2) rhaid i glerc i bwyllgor gynnwys cyfarfodydd y pwyllgor hwnnw a mae'n rhaid iddo, wrth arfer y swyddogaeth hon, gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan-

- (a) y corff llywodraethu;
- (b) cadeirydd y pwyllgor hwnnw, i'r graddau nad yw unrhyw gyfarwyddyd o'r fath yn anghyson ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan is-baragraff (a).

(2) Oni phenodwyd clerc, rhaid i'r cadeirydd gynnwys cyfarfodydd pwyllgorau a mae'n rhaid iddo, wrth arfer y swyddogaeth hon, gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan y corff llywodraethu.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a roddir yn unol â pharagraffau (1) neu (2), rhaid i'r clerc roi, o leiaf bum niwrnod gwaith ymlaen llaw, i bob aelod o'r pwyllgor ac i'r pennaeth (pa un a yw'n aelod o'r pwyllgor ai peidio)-

- (a) hysbysiad ysgrifenedig o'r cyfarfod,
- (b) copi o agenda'r cyfarfod, ac
- (c) unrhyw adroddiadau neu bapurau eraill sydd i'w hystyried yn y cyfarfod;

ond bydd yn ddigon pan fo cadeirydd y pwyllgor yn penderfynu hynny, ar y sail bod materion sy'n galw am sylw brys, i'r hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarfod nodi'r ffaith honno ac i'r hysbysiad, yr agenda, a'r adroddiadau neu'r papurau eraill sydd i'w hystyried yn y cyfarfod gael eu rhoi o fewn cyfnod byrrach yn ôl ei gyfarwyddyd neu ei benderfyniad ef (yn ôl fel y digwydd).

Right of persons to attend meetings of committees

59.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3) and Schedule 7 to these Regulations the following persons are entitled to attend any meeting of a committee-

- (a) any member of the committee, provided he or she is not a governor who has been suspended in accordance with regulation 49;
- (b) the head teacher of the school, whether or not he or she is a member of the committee;
- (c) the clerk to the committee; and
- (d) such other persons as the governing body or the committee may determine.

(2) A committee may exclude a member who is not a governor from any part of its meeting which he or she is otherwise entitled to attend when the business under consideration concerns an individual member of staff or pupil.

(3) Paragraph (1)(b) does not apply in relation to the committees referred to in regulations 55 and 56 or in relation to any committee or selection panel exercising any function under Schedules 16 or 17 to the 1998 Act.

Meetings of committees

60.-(1) Subject to paragraph (2) meetings of a committee must be convened by the clerk to that committee who, when exercising this function, must comply with any direction given by-

- (a) the governing body;
- (b) the chair of that committee, so far as such direction is not inconsistent with any direction given under sub-paragraph (a).

(2) Where a clerk has not been appointed committee meetings must be convened by the chair who, when exercising this function, must comply with any direction given by the governing body.

(3) Subject to any direction given in accordance with paragraphs (1) or (2), at least five clear working days in advance the clerk must give to each member of the committee and to the head teacher (whether or not he or she is a member of the committee)-

- (a) written notice of the meeting,
- (b) a copy of the agenda for the meeting, and
- (c) any reports or other papers to be considered at the meeting;

but where the chair of the committee so determines on the ground that there are matters demanding urgent consideration, it is sufficient if the written notice of the meeting states that fact and the notice, agenda and reports or other papers to be considered at the meeting are given within such shorter period as he or she directs or decides (as the case may be).

(4) Nid annilysir trafodion pwyllgor gan-

- (a) unrhyw le gwag ymhlith ei aelodau; na
- (b) unrhyw ddiffyg wrth benodi unrhyw aelod o'r pwyllgor.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliadau 55(5), 56(3) a 57(4), y cworwm ar gyfer cyfarfod o bwyllgor ac ar gyfer unrhyw bleidlais ar unrhyw fater mewn cyfarfod o'r fath yw hanner (wedi ei dalgrynnu i fyny i rif cyfan) aelodaeth y pwyllgor heb gynnwys unrhyw leoedd gwag.

(6) Ni cheir cymryd pleidlais ar unrhyw fater mewn cyfarfod o bwyllgor oni fo mwyafrif aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol yn llywodraethwyr.

(7) Dyfernir ynghylch pob mater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o bwyllgor gan fwyafrif o bleidleisiau aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol ac yn pleidleisio ar y mater.

(8) Pan fo'r pleidleisiau wedi eu rhannu'n gyfartal bydd gan y person sy'n gweithredu fel cadeirydd at ddibenion y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw, ar yr amod bod y cyfryw berson yn llywodraethwr.

Cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau

61.-(1) Rhaid i glerc pwyllgor neu'r person sy'n gweithredu fel clerc at ddibenion y cyfarfod lunio cofnodion o drafodion cyfarfod o bwyllgor; a rhaid i gadeirydd cyfarfod nesaf y pwyllgor eu llofnodi (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y pwyllgor).

(2) Rhaid i unrhyw bwyllgor corff llywodraethu ddarparu copi i'w awdurdod addysg lleol o gofnodion drafft neu gofnodion wedi'u llofnodi unrhyw gyfarfod o'i eiddo o gael cais gan yr awdurdod hwnnw.

Cyhoeddi cofnodion a phapurau

62.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r pwyllgor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, drefnu bod copi ar gael i'w archwilio yn yr ysgol, gan unrhyw un â diddordeb, o-

- (a) agenda pob cyfarfod o'r pwyllgor ;
- (b) cofnodion wedi'u llofnodi o bob cyfarfod o'r fath; ac
- (c) unrhyw adroddiad neu bapur arall a ystyriwyd mewn unrhyw gyfarfod o'r fath.

(2) Caiff y pwyllgor dynnu allan o unrhyw eitem y mae angen trefnu ei fod ar gael yn unol â pharagraff (1) unrhyw ddeunydd yn ymwneud ag-

(4) The proceedings of a committee are not be invalidated by-

- (a) any vacancy among their number; or
- (b) any defect in the appointment of any member of the committee.

(5) Subject to regulations 55(5), 56(3) and 57(4), the quorum for a meeting of a committee and for any vote on any matter at such a meeting is one half (rounded up to a whole number) of the membership of the committee excluding any vacancies.

(6) No vote on any matter may be taken at a meeting of a committee unless the majority of members of the committee present are governors.

(7) Every question to be decided at a meeting of a committee is to be determined by a majority of the votes of the members of the committee present and voting on the question.

(8) Where there is an equal division of votes the person who is acting as chair for the purposes of the meeting has a second or casting vote, provided that such person is a governor.

Minutes of meetings of committees

61.-(1) Minutes of the proceedings of a meeting of a committee must be drawn up by the clerk to the committee or by the person acting as the clerk for the purposes of the meeting; and must be signed (subject to the approval of the committee) by the chair of the next meeting of the committee.

(2) Any committee of the governing body must supply their local education authority with a copy of the draft or signed minutes of any meeting of theirs on request by that authority.

Publication of minutes and papers

62.-(1) Subject to paragraph (2) the committee must, as soon as reasonably practicable, make available for inspection at the school by any interested person a copy of-

- (a) the agenda for every committee meeting;
- (b) the signed minutes of every such meeting; and
- (c) any report or other paper considered at any such meeting.

(2) The committee may exclude from any item required to be made available in pursuance of paragraph (1) any material relating to-

- (a) person a enwir sy'n gweithio, neu y bwriedir y dylai weithio, yn yr ysgol;
- (b) disgybl yn yr ysgol sy'n cael ei enwi, neu un sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol;
- (c) unrhyw fater arall y mae'r pwyllgor yn fodlon y dylai aros yn gyfrinachol oherwydd ei natur.

- (a) a named person who works, or who it is proposed should work, at the school;
- (b) a named pupil at, or candidate for admission to, the school;
- (c) any other matter that, by reason of its nature, the committee is satisfied should remain confidential.

RHAN 10

PART 10

Cyfyngiadau ar bersonau rhag cymryd rhan mewn trafodion

Restrictions on persons taking part in proceedings

63.-(1) Yn y rheoliad hwn ac yn Atodlen 7-

- (a) ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") yw llywodraethwr, aelod o bwyllgor nad yw'n llywodraethwr, y pennaeth (boed yn llywodraethwr neu beidio) neu unrhyw berson a benodir yn glerc y corff llywodraethu neu bwyllgor; a
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at "gyfarfod o'r ysgol" ("*meeting of the school*") yn gyfeiriad at gyfarfod o'r corff llywodraethu neu o bwyllgor, gan gynnwys panel dethol a sefydlwyd o dan Atodlenni 16 neu 17 i Ddeddf 1998.

63.-(1) In this regulation and in Schedule 7-

- (a) "relevant person" ("*person perthnasol*") means a governor, a member of a committee who is not a governor, the head teacher (whether or not he or she is a governor) or any person appointed as clerk to the governing body or to a committee; and
- (b) any reference to "meeting of the school" ("*cyfarfod o'r ysgol*") is a reference to a meeting of the governing body or of a committee, including a selection panel established under Schedules 16 or 17 to the 1998 Act.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4)-

- (a) pan fo gwrthdaro posibl mewn perthynas ag unrhyw fater rhwng buddiannau person perthnasol a buddiannau'r corff llywodraethu;
- (b) pan fo angen gwrandawriad teg a phan fo unrhyw amheuaeth resymol am allu person perthnasol i weithredu'n ddiuedd mewn perthynas ag unrhyw fater; neu
- (c) pan fo i berson perthnasol fuddiant ariannol mewn unrhyw fater;

(2) Subject to paragraph (4), where-

- (a) in relation to any matter there may be a conflict between the interests of a relevant person and the interests of the governing body;
- (b) a fair hearing is required and there is any reasonable doubt about a relevant person's ability to act impartially in relation to any matter; or
- (c) a relevant person has a pecuniary interest in any matter;

rhaid i'r person hwnnw, os yw'n bresennol mewn cyfarfod o'r ysgol lle mae'r mater yn cael ei ystyried, ddatgelu'r buddiant sydd iddo, mynd allan o'r cyfarfod a pheidio â phleidleisio ar y mater dan sylw.

that person, if present at a meeting of the school at which the matter is the subject of consideration, must disclose his or her interest, withdraw from the meeting and not vote on the matter in question.

(3) Ni ddylid dehongli dim yn y rheoliad hwn nac yn Atodlen 7 fel pe'n atal-

(3) Nothing in this regulation or in Schedule 7 is to be construed as precluding-

- (a) y corff llywodraethu, neu bwyllgor, rhag-
 - (i) caniatáu i berson sydd yn eu tyb hwy yn gallu rhoi tystiolaeth fynychu unrhyw wrandawriad a gynhelir ganddynt ar unrhyw fater a chyflwyno ei dystiolaeth; neu
 - (ii) clywed sylwadau gan berson perthnasol sy'n gweithredu mewn swyddogaeth ar wahân i swyddogaeth person perthnasol; neu

- (a) the governing body, or a committee, from-
 - (i) allowing a person who appears to them to be able to give evidence to attend any hearing conducted by them into any matter and to present his or her evidence; or
 - (ii) hearing representations from a relevant person acting in a capacity other than that of a relevant person; or

(b) person perthnasol rhag ymrwymo i gontract â'r corff llywodraethu y mae ganddo hawl i elwa oddi wrtho.

(4) Ni fydd yn ofynnol i berson sy'n gweithredu fel clerc i gyfarfod o'r ysgol fynd allan o gyfarfod yn rhinwedd y rheoliad hwn nac Atodlen 7 oni fo ei benodiad i swydd, ei dâl neu achos disgyblu yn ei erbyn o dan ystyriaeth, ond pe bai'r rheoliad hwn neu Atodlen 7 fel arall wedi ei gwneud yn ofynnol iddo fynd allan, ni chaiff weithredu mewn unrhyw swyddogaeth ac eithrio swyddogaeth clerc.

(5) Os oes unrhyw anghydfod ynghylch a yw'n ofynnol i berson perthnasol yn rhinwedd y rheoliad hwn, neu Atodlen 7, fynd allan o gyfarfod o'r ysgol a pheidio â phleidleisio, bydd y llywodraethwyr eraill sy'n bresennol yn y cyfarfod yn penderfynu ynghylch y mater hwnnw.

(6) Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch buddiannau ariannol a mathau eraill penodedig o wrthdaro rhwng buddiannau.

(b) a relevant person from entering into a contract with the governing body from which he or she is entitled to profit.

(4) A person who is acting as the clerk to a meeting of the school is not required to withdraw from a meeting by this regulation or Schedule 7 unless his or her appointment to office, his or her remuneration, or disciplinary action against him or her is the subject of consideration, but if this regulation or Schedule 7 would have otherwise required him or her to withdraw, he or she may not act in any capacity other than that of a clerk.

(5) Where there is any dispute as to whether a relevant person is required by this regulation, or by Schedule 7 to withdraw from a meeting of the school and not vote, that question is to be determined by the other governors present at the meeting.

(6) Schedule 7 makes provision about pecuniary interests and other specified conflicts of interest.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

18 Hydref 2005

18 October 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 c.38.

(1) 1998 c.38.

(Rheoliad 4)

(Regulation 4)

Ethol a phenodi rhiant-lywodraethwyr

1. Yn yr Atodlen hon ystyr "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yw-

- (a) mewn perthynas ag ysgol gymunedol, ysgol arbennig gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol wirfoddol a reolir, yr awdurdod addysg lleol; a
- (b) yn ddarostyngedig i baragraff 3, mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyr, ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig, y corff llywodraethu.

2. Os yr awdurdod addysg lleol yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag ysgol, caiff yr awdurdod hwnnw ddirprwyo i bennaeth yr ysgol unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan yr Atodlen hon.

3. Yr awdurdod addysg lleol fydd yr awdurdod priodol mewn perthynas ag ysgol o fewn paragraff 1(b) os bydd y corff llywodraethu a'r awdurdod addysg lleol yn cytuno ynghylch hynny.

4. Yn ddarostyngedig i baragraffau 5 i 9 rhaid i'r awdurdod priodol wneud yr holl drefniadau angenrheidiol i ethol rhiant-lywodraethwyr.

5. Yr awdurdod priodol sydd i benderfynu, at ddibenion ethol rhiant-lywodraethwyr, unrhyw gwestiwn ynghylch a yw person yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol.

6. Yn achos y pŵer a osodir gan baragraff 4-

- (a) nid yw'n cynnwys pŵer i osod unrhyw ofynion ynghylch yr isafswm o bleidleisiau y mae angen eu bwrw i ymgeisydd gael ei ethol, ond
- (b) mae'n cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dyddiadau cymhwyso.

7. Rhaid cynnal unrhyw etholiad a ymleddir drwy bleidlais gudd.

8.-(1) Rhaid i'r trefniadau a wneir o dan baragraff 4 ddarparu bod pawb sydd â'r hawl i bleidleisio yn cael cyfle i wneud hynny drwy'r post.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae "post" ("*post*") yn cynnwys danfon drwy law.

(3) Caiff y trefniadau a wneir o dan baragraff 4 ddarparu i bawb y mae ganddo neu ganddi hawl i bleidleisio gael cyfle i wneud hynny drwy gyfrwng electronig.

9. Pan ddaw lle'n wag i riant-lywodraethwr, rhaid i'r awdurdod priodol gymryd y camau hynny sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod pob un y mae'n gwybod ei fod yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr

Election and appointment of parent governors

1. In this Schedule "appropriate authority" ("*awdurdod priodol*") means-

- (a) in relation to a community school, a community special school, a maintained nursery school or a voluntary controlled school, the local education authority; and
- (b) subject to paragraph 3, in relation to a voluntary aided school, foundation school or foundation special school, the governing body.

2. Where a local education authority is the appropriate authority in relation to a school, that authority may delegate to the head teacher of the school any of its functions under this Schedule.

3. The local education authority is the appropriate authority in relation to a school within paragraph 1(b) if the governing body and the local education authority so agree.

4. Subject to paragraphs 5 to 9 the appropriate authority must make all the necessary arrangements for the election of parent governors.

5. The appropriate authority is to determine for the purposes of an election of parent governors, any question whether a person is a parent of a registered pupil at the school.

6. The power conferred by paragraph 4-

- (a) does not include power to impose any requirements as to the minimum number of votes required to be cast for a candidate to be elected, but
- (b) does include the power to make provision as to qualifying dates.

7. Any election which is contested must be held by secret ballot.

8.-(1) The arrangements made under paragraph 4 must provide for every person who is entitled to vote to have an opportunity to do so by post.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), "post" ("*post*") includes delivery by hand.

(3) The arrangements made under paragraph 4 may provide for every person who is entitled to vote to have an opportunity to do so by electronic means.

9. Where a vacancy for a parent governor arises, the appropriate authority must take such steps as are reasonably practicable to secure that every person who is known to them to be a parent of a registered pupil at

ysgol-

- (a) yn cael gwybod am y lle gwag a'i bod yn ofynnol ei lenwi drwy etholiad;
- (b) yn cael gwybod bod ganddo hawl i sefyll fel ymgeisydd a phleidleisio yn yr etholiad; ac
- (c) yn cael cyfle i wneud hynny.

10. Rhaid sicrhau'r nifer o riant-lywodraethwyr sy'n ofynnol drwy ychwanegu rhiant-lywodraethwyr a benodir gan y corff llywodraethu, os daw un neu ragor o lefydd ar gyfer rhiant-lywodraethwyr yn wag a naill ai-

- (a) bod y nifer o rieni sy'n sefyll i'w hethol yn llai na nifer y lleoedd gwag;
- (b) bod o leiaf 50 y cant o'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn lletywyd ac y byddai, ym marn yr awdurdod priodol, yn anymarferol ethol rhiant-lywodraethwyr; neu
- (c) yn achos ysgol sy'n ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty, y byddai, ym marn yr awdurdod priodol, yn anymarferol ethol rhiant-lywodraethwyr.

11.-(1) Ac eithrio pan fo paragraff 12 yn gymwys, rhaid i'r corff llywodraethu benodi'n rhiant-lywodraethwr-

- (a) rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol; neu
- (b) pan nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, rhiant plentyn sydd o oedran ysgol gorfodol, neu yn achos ysgol feithrin a gynhelir, sydd o oedran neu o dan oedran ysgol gorfodol.

12.-(1) Pan fo'r ysgol yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu benodi-

- (a) rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol; neu
- (b) rhiant plentyn sydd o oedran ysgol gorfodol ac sydd ag anghenion addysgol arbennig; neu
- (c) rhiant person o unrhyw oedran sydd ag anghenion addysgol arbennig; neu
- (ch) rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol.

(2) Dim ond os nad yw'n rhesymol ymarferol penodi person y cyfeirir ato yn yr is-baragraff sy'n union o'i flaen y caiff y corff llywodraethu benodi person y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) (b), (c) neu (ch).

the school is-

- (a) informed of the vacancy and that is required to be filled by election;
- (b) informed that he or she is entitled to stand as a candidate and vote in the election; and
- (c) given the opportunity to do so.

10. The number of parent governors required must be made up by parent governors appointed by the governing body, if one or more vacancies for parent governors arises and either-

- (a) the number of parents standing for election is less than the number of vacancies;
- (b) at least 50 per cent of the registered pupils at the school are boarders and it would, in the opinion of the appropriate authority, be impractical for there to be an election of parent governors; or
- (c) in the case of a school which is a community special or foundation special school established in a hospital, it would, in the opinion of the appropriate authority, be impractical for there to be an election of parent governors.

11.-(1) Except where paragraph 12 applies, the governing body must appoint as a parent governor-

- (a) a parent of a registered pupil at the school; or
- (b) where it is not reasonably practicable to do so, a parent of a child of compulsory school age, or in the case of a maintained nursery school, of or under compulsory school age.

12.-(1) Where the school is a community special school or a foundation special school, the governing body must appoint-

- (a) a parent of a registered pupil at the school; or
- (b) a parent of a child of compulsory school age with special educational needs; or
- (c) a parent of a person of any age with special educational needs; or
- (d) a parent of a child of compulsory school age.

(2) The governing body may only appoint a person referred to in sub-paragraph (1) (b), (c) or (d) if it is not reasonably practicable to appoint a person referred to in the sub-paragraph which immediately precedes it.

ATODLEN 2

(Rheoliadau 5 a 6)

Ethol athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr

1. Yn yr Atodlen hon mae'r un ystyr i "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") ag yn Atodlen 1.

2. Os bydd awdurdod addysg lleol yn awdurdod priodol mewn perthynas ag ysgol, caiff yr awdurdod hwnnw ddirprwyo i bennaeth yr ysgol unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan yr Atodlen hon.

3. Yn ddarostyngedig i baragraffau 4 i 6 rhaid i'r awdurdod priodol wneud yr holl drefniadau angenrheidiol i ethol athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr.

4. Yr awdurdod priodol sydd i benderfynu at ddibenion ethol athro-lywodraethwyr neu staff-lywodraethwyr a yw person yn athro neu athrawes ysgol neu'n cael ei gyflogi fel arall i weithio yn yr ysgol.

5. Yn achos y pŵer a roddir gan baragraff 3-

(a) nid yw'n cynnwys pŵer i osod unrhyw ofynion ynghylch yr isafswm o bleidleisiau y mae angen eu bwrw i ymgeisydd gael ei ethol ond

(b) mae'n cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dyddiadau cymhwyso, mae'n cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dyddiadau cymhwyso.

6. Rhaid cynnal unrhyw etholiad a ymleddir drwy bleidlais gudd.

ATODLEN 3

(Rheoliad 10)

Penodi llywodraethwyr partneriaeth

1. Pan fo angen llywodraethwr partneriaeth, rhaid i'r corff llywodraethu geisio enwebiadau gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, a chan bersonau eraill yn y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol y credant eu bod yn briodol.

2. Ni chaiff unrhyw berson enwebu i'w benodi, na phenodi, person yn llywodraethwr partneriaeth oni fyddai'r person hwnnw'n gymwys i'w benodi gan y corff llywodraethu yn llywodraethwr cymunedol.

3.-(1) Yn achos ysgol arbennig sefydledig heb sefydliad, rhaid i'r corff llywodraethu benodi o leiaf un person sydd â phrofiad o addysg i blant ag anghenion addysgol arbennig yn llywodraethwr partneriaeth, onid oes diffyg enwebai cymwys sydd â phrofiad o'r fath.

SCHEDULE 2

(Regulations 5 and 6)

Election of teacher and staff governors

1. In this Schedule "appropriate authority" ("*awdurdod priodol*") has the same meaning as in Schedule 1.

2. Where a local education authority is the appropriate authority in relation to a school, that authority may delegate to the head teacher of the school any of its functions under this Schedule.

3. Subject to paragraphs 4 to 6, the appropriate authority must make all the necessary arrangements for the election of teacher and staff governors.

4. The appropriate authority is to determine for the purposes of an election of teacher or staff governors whether a person is a school teacher or otherwise employed to work at the school.

5. The power conferred by paragraph 3-

(a) does not include power to impose any requirements as to the minimum number of votes required to be cast for a candidate to be elected, but

(b) does include the power to make provision as to qualifying dates.

6. Any election which is contested must be held by secret ballot.

SCHEDULE 3

(Regulation 10)

Appointment of partnership governors

1. Where a partnership governor is required, the governing body must seek nominations from parents of registered pupils at the school, and from such other persons in the community served by the school as they consider appropriate.

2. No person may nominate for appointment, or appoint, a person as a partnership governor unless that person would be eligible for appointment by the governing body as a community governor.

3.-(1) In the case of a foundation special school without a foundation, the governing body must appoint at least one person with experience of education for children with special educational needs as a partnership governor, unless no eligible nominee has such experience.

(2) Wrth geisio enwebiadau ar gyfer llywodraethwr partneriaeth mewn ysgolion arbennig sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu gymryd camau i sicrhau bod personau sy'n gwneud enwebiadau yn ymwybodol o'r gofyniad ym mharagraff (1).

4. Yn ddarostyngedig i baragraff 5(2), ni chaiff unrhyw lywodraethwr enwebu person i'w benodi'n llywodraethwr partneriaeth.

5.-(1) Rhaid i'r corff llywodraethu benodi'r nifer o lywodraethwyr partneriaeth sydd eu hangen yn ôl yr offeryn llywodraethu o blith enwebeion cymwys.

(2) Os yw'r nifer o enwebeion cymwys yn llai na'r nifer o leoedd gwag, ceir cwblhau'r nifer o lywodraethwyr partneriaeth sydd eu hangen â phobl a ddedholir gan y corff llywodraethu.

6. Pan fo'r corff llywodraethu yn gwneud penodiad o dan baragraff 5(2), ar ôl gwrthod unrhyw berson a enwebwyd o dan baragraff 1, rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad i'r awdurdod addysg lleol ac i'r person a wrthodwyd.

7. Rhaid i'r corff llywodraethu wneud pob trefniant angenrheidiol ar gyfer enwebu a phenodi llywodraethwyr partneriaeth a phenderfynu ynghylch pob mater arall yn ymwneud â'u henwebu a'u penodi.

ATODLEN 4

(Rheoliad 11)

Penodi Noddwr-lywodraethwyr

1. Yn yr Atodlen hon, ystyr "noddwr" ("*sponsor*") mewn perthynas ag ysgol yw-

- (a) person sy'n rhoi neu sydd wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol (sydd at y dibenion hyn yn cynnwys buddiant mewn da) i'r ysgol ar wahân i gymorth sy'n unol â rhwymedigaeth statudol; neu
- (b) unrhyw berson arall (nad yw wedi ei gynrychioli fel arall ar y corff llywodraethu) sy'n darparu neu sydd wedi darparu gwasanaethau sylweddol i'r ysgol.

2. Pan fo gan yr ysgol un neu ragor o noddwyr, caiff y corff llywodraethu benderfynu y bydd yr offeryn llywodraethu yn darparu i'r corff llywodraethu benodi'r nifer hwnnw o noddwr-lywodraethwyr, heb fod yn fwy na dau, a enwebir yn unol â pharagraff 3.

3. Rhaid i'r corff llywodraethu geisio enwebiadau ar gyfer penodiadau o'r fath gan y noddwr neu (yn ôl fel y digwydd) gan unrhyw un neu ragor o'r noddwyr.

(2) In seeking nominations for partnership governors for foundation special schools, the governing body must take steps to secure that persons making nominations are aware of the requirement in paragraph (1).

4. Subject to paragraph 5(2), no governor may nominate a person for appointment as a partnership governor.

5.-(1) The governing body must appoint such number of partnership governors as is required by the instrument of government from among eligible nominees.

(2) If the number of eligible nominees is less than the number of vacancies, the number of partnership governors required may be made up by persons selected by the governing body.

6. Where the governing body makes an appointment under paragraph 5(2), having rejected any person nominated under paragraph 1, it must give written reasons for its decision to the local education authority and to the person rejected.

7. The governing body must make all necessary arrangements for and determine all other matters relating to the nomination and appointment of partnership governors.

SCHEDULE 4

(Regulation 11)

Appointment of Sponsor Governors

1. In this Schedule, "sponsor" ("*noddwr*") in relation to a school means-

- (a) a person who gives or has given substantial financial assistance (which for these purposes includes benefits in kind) to the school other than pursuant to statutory obligation; or
- (b) any other person (not being otherwise represented on the governing body) who provides or has provided substantial services to the school.

2. Where the school has one or more sponsors, the governing body may determine that the instrument of government will provide for the governing body to appoint such number of sponsor governors, not exceeding two, nominated in accordance with paragraph 3.

3. The governing body must seek nominations for such appointments from the sponsor or (as the case may be) from any one or more of the sponsors.

(Rheoliad 24)

(Regulation 24)

*Cymwysterau ac anghymwysiaidau**Qualifications and disqualifications***Cyffredinol**

1. Nid yw unrhyw berson yn gymwys i fod yn llywodraethwr onid yw'n 18 oed neu drosodd ar ddyddiad ei ethol neu ei benodi.

2. Ni chaiff unrhyw berson ar unrhyw adeg ddal mwy nag un swydd llywodraethwr yn yr un ysgol.

3. Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y rheoliadau hyn, nid yw'r ffaith bod person yn gymwys i'w ethol neu ei benodi'n llywodraethwr o gategori arbennig mewn ysgol yn ei anghymwysio rhag cael ei ethol neu ei benodi neu rhag parhau'n llywodraethwr o unrhyw gategori arall yn yr ysgol honno.

Anhwylder meddyliol

4. Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd fel llywodraethwr ysgol ar unrhyw adeg pan fo'n agored i gael ei gadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(1) neu o dan unrhyw ail-ddeddfiad neu addasiad deddfwriaethol o'r Ddeddf honno sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

Diffyg mynychu cyfarfodydd

5.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw lywodraethwr nad yw'n llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd.

(2) Os bydd llywodraethwr heb ganiatâd y corff llywodraethu, wedi methu â mynychu cyfarfodydd y corff am gyfnod di-dor o chwe mis yn cychwyn ar ddyddiad y cyfarfod cyntaf o'i fath y methodd â'i fynychu, bydd y llywodraethwr hwnnw, pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben, wedi ei anghymwysio rhag parhau i ddal swydd llywodraethwr yn yr ysgol honno.

(3) Pan fo llywodraethwr wedi anfon ymddiheuriad at glerc y corff llywodraethu cyn cyfarfod nad yw'n bwriadu ei fynychu, rhaid i gofnodion y cyfarfod gofnodi a oedd y corff llywodraethu wedi cytuno i'r absenoldeb ai beidio, a rhaid anfon copi o'r cofnodion at y llywodraethwr dan sylw i'w breswylfa arferol.

(4) Nid yw llywodraethwr a anghymhwyswyd rhag bod yn llywodraethwr ysgol o dan is-baragraff (2) yn gymwys i'w enwebu, i'w ethol neu i'w benodi yn llywodraethwr o unrhyw gategori yn yr ysgol honno yn ystod y deuddeg mis cyntaf ar ôl ei anghymwysio o dan is-baragraff (2).

General

1. No person is qualified to be a governor unless he or she is aged 18 or over at the date of his or her election or appointment.

2. No person may at any time hold the office of more than one governor of the same school.

3. Save as otherwise provided in these Regulations, the fact that a person is qualified to be elected or appointed as a governor of a particular category at a school does not disqualify him or her from election or appointment or from continuing as a governor of any other category at that school.

Mental disorder

4. A person is disqualified from holding or for continuing to hold office as a governor of a school at any time when he or she is liable to be detained under the Mental Health Act 1983(1) or under any re-enactment or statutory modification of that Act in force from time to time.

Failure to attend meetings

5.-(1) This paragraph applies to any governor who is not a governor by virtue of his or her office.

(2) A governor, who, without the consent of the governing body, has failed to attend the meetings thereof for a continuous period of six months beginning with the date of the first such meeting he or she failed to attend, is, on the expiry of that period, disqualified from continuing to hold office as a governor of that school.

(3) Where a governor has sent an apology to the clerk to the governing body before a meeting which he or she does not propose to attend, the minutes of the meeting must record the governing body's consent or otherwise to the absence and a copy of the minutes must be sent to the governor concerned at his or her normal place of residence.

(4) A governor who has been disqualified as a governor of a school under sub-paragraph (2) is not qualified for election, nomination or appointment as a governor of any category at that school during the twelve months immediately following his or her disqualification under sub-paragraph (2).

(1) 1983 p.20.

(1) 1983 c.20.

Methdalau

6. Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr mewn ysgol-

- (a) os yw wedi ei ddyfarnu'n fethdalwr neu os yw ei stad wedi ei hatafael ac yntau (yn y naill achos neu'r llall) heb ei ryddhau o fethdaliad ac os nad yw'r gorchymyn methdalau wedi ei ddirymu neu ei ddad-wneud; neu
- (b) os yw wedi gwneud compownd neu drefniant â'i gredydwy, neu wedi rhoi gweithred ymddiriedaeth i'w gredydwy, ac yntau heb ei ryddhau mewn perthynas â hynny.

Anghymwyso cyfarwyddwyr cwmnïau

7. Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr ysgol ar unrhyw adeg pan fydd yn destun-

- (a) gorchymyn anghymwyso neu ymgymeriad anghymwyso o dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986(1),
- (b) gorchymyn anghymwyso o dan Rhan 2 o Orchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1989(2),
- (c) ymgymeriad anghymwyso a dderbyniwyd o dan Orchymyn Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 2002(3),
- (ch) gorchymyn a wnaed o dan adran 429(2)(b) o Ddeddf Methdaliad 1986(4) (*methu â thalu o dan orchymyn gweinyddu llys sirol*).

Anghymwyso ymddiriedolwyr elusennau

8. Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr ysgol os yw-

- (a) wedi ei ddiswyddo fel ymddiriedolwr elusen drwy orchymyn a wnaed gan y Comisiynwyr Elusennau neu'r Uchel Lys ar sail unrhyw gamymddygiad neu gamreoli yr oedd yn gyfrifol amdano neu'n ymwybodol ohono wrth weinyddu'r elusen, neu y cyfrannodd ato neu a hwylusodd drwy ei ymddygiad; neu
- (b) os yw wedi ei ddiswyddo, o dan adran 7 o Ddeddf Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) (Yr Alban) 1990(5) (*pwerau'r Llys Sesiwn i ymdrin â rheoli elusennau*), rhag ymwneud â rheoli neu reolaeth ar unrhyw gorff.

(1) 1986 p.46.

(2) Rhif 2404 (G.I. 18).

(3) Rhif 3150 (G.I. 4).

(4) 1986 p. 45.

(5) 1990 p.40; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Arglwydd Adfocad o dan yr adran hon i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (yr Arglwydd Adfocad a'r Ysgrifennydd Gwladol) 1999 (O.S. 1999/678).

Bankruptcy

6. A person is disqualified from holding or continuing to hold office as a governor of a school if-

- (a) he or she has been adjudged bankrupt or sequestration of his or her estate has been awarded and (in either case) he or she has not been discharged and the bankruptcy order has not been annulled or rescinded; or
- (b) he or she has made a composition or arrangement with, or granted a trust deed for, his or her creditors and has not been discharged in respect of it.

Disqualification of company directors

7. A person is disqualified from holding or from continuing to hold office as a governor of a school at any time when he or she is subject to-

- (a) a disqualification order or disqualification undertaking under the Company Directors Disqualification Act 1986(1),
- (b) a disqualification order under Part 2 of the Companies (Northern Ireland) Order 1989(2),
- (c) a disqualification undertaking accepted under the Company Directors Disqualification (Northern Ireland) Order 2002(3), or
- (d) an order made under section 429(2)(b) of the Insolvency Act 1986(4) (*failure to pay under county court administration order*).

Disqualification of charity trustees

8. A person is disqualified from holding or from continuing to hold office as a governor of a school if-

- (a) he or she has been removed from the office of trustee for a charity by an order made by the Charity Commissioners or the High Court on the grounds of any misconduct or mismanagement in the administration of the charity for which he or she was responsible or to which he or she was privy, or to which he or she contributed or which he or she facilitated by his or her conduct; or
- (b) he or she has been removed, under section 7 of the Law Reform (Miscellaneous Provisions) (Scotland) Act 1990(5) (*powers of Court of Session to deal with management of charities*), from being concerned in the management or control of any body.

(1) 1986 c.46.

(2) No. 2404 (N.I. 18).

(3) No. 3150 (N.I. 4).

(4) 1986 c. 45.

(5) 1990 c.40; the functions of the Lord Advocate under this section transferred to the Secretary of State by the Transfer of Functions (Lord Advocate and Secretary of State) Order 1999 (S.I. 1999/678).

Personau y gwaherddir eu cyflogi neu y cyfyngir ar eu cyflogi

9. Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr mewn ysgol ar unrhyw adeg pan fydd-

- (a) wedi ei gynnwys yn y rhestr o athrawon a'r sawl sy'n gweithio gyda phlant neu bersonau ifanc y gwaherddir eu cyflogi neu y cyfyngir arnynt o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(1);
- (b) yn destun cyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 142 o Ddeddf 2002;
- (c) wedi ei anghymhwysio rhag gweithio gyda phlant o dan adrannau 28 a 29 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(2); neu
- (ch) yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 470 neu adran 471 o Ddeddf 1996(3), wedi ei anghymhwysio rhag bod yn berchennog unrhyw ysgol annibynnol neu rhag bod yn athro neu'n weithiwr cyflog mewn unrhyw ysgol.

Collfarnau troseddol

10.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6) isod, anghymhwysir person rhag dal swydd, neu barhau i ddal swydd llywodraethwr ysgol pan fydd unrhyw un o is-baragraffau (2) i (4) neu (6) isod yn gymwys iddo.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson os yw-

- (a) o fewn cyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben ar y dyddiad yn union cyn y dyddiad y byddai ei benodi neu ei ethol yn llywodraethwr fel arall wedi dod i rym neu, yn ôl fel y digwydd, y dyddiad y byddai fel arall wedi dod yn llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd, neu
- (b) ers ei benodi neu ei ethol yn llywodraethwr neu, yn ôl fel y digwydd, ers iddo ddod yn llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd,

wedi ei gael yn euog, yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, o unrhyw drosedd ac wedi ei ddeddfydu i garchar (pa un a yw'r ddeddfyd yn ataliedig ai peidio) am gyfnod nad yw'n llai na thri mis heb fod dewis talu dirwy.

(3) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson os cafwyd ef, o fewn cyfnod o 20 mlynedd a ddaw i ben ar y dyddiad yn union cyn y dyddiad y byddai ei benodi neu ei ethol yn llywodraethwr fel arall wedi dod i rym neu, yn ôl fel y digwydd, y dyddiad y byddai fel arall

(1) 1999 p.14; fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (2000 p.14).

(2) 2000 p.43.

(3) Wedi'i diddymu gan Ddeddf 2002.

Persons whose employment is prohibited or restricted

9. A person is disqualified from holding or from continuing to hold office as a governor of a school at any time when he or she is-

- (a) included in the list of teachers and workers with children or young persons whose employment is prohibited or restricted under section 1 of the Protection of Children Act 1999(1);
- (b) subject to a direction of the National Assembly for Wales or the Secretary of State under section 142 of the 2002 Act;
- (c) disqualified from working with children under sections 28 and 29 of the Criminal Justice and Court Services Act 2000(2); or
- (d) by virtue of an order made under section 470 or section 471 of the 1996 Act(3), disqualified from being the proprietor of any independent school or from being a teacher or other employee in any school.

Criminal convictions

10.-(1) Subject to sub-paragraph (6) below, a person is disqualified from holding, or continuing to hold, office as a governor of a school where any of sub-paragraphs (2) to (4) or (6) below apply to him or her.

(2) This sub-paragraph applies to a person if-

- (a) within the period of five years ending with the date immediately preceding the date on which his or her appointment or election as governor would otherwise have taken effect or, as the case may be, on which he or she would otherwise have become a governor by virtue of his or her office, or
- (b) since his or her appointment or election as governor or, as the case may be, since he or she became a governor by virtue of his or her office,

he or she has been convicted, whether in the United Kingdom or elsewhere, of any offence and has had passed on him or her a sentence of imprisonment (whether suspended or not) for a period of not less than three months without the option of a fine.

(3) This sub-paragraph applies to a person if within the period of 20 years ending with the date immediately preceding the date on which his or her appointment or election as governor would otherwise have taken effect or, as the case may be, on which he

(1) 1999 c.14; as amended by the Care Standards Act 2000 (2000 c.14).

(2) 2000 c.43.

(3) Repealed by the 2002 Act.

wedi dod yn llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd, yn euog fel y disgrifiwyd uchod o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar am gyfnod nad yw'n llai na dwy flynedd a hanner.

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson os yw ar unrhyw adeg wedi ei gael yn euog fel y disgrifiwyd uchod o unrhyw drosedd ac wedi ei ddedfrydu i garchar am gyfnod nad yw'n llai na phum mlynedd.

(5) At ddibenion is-baragraffau (2) i (4) uchod, rhaid diystyru unrhyw gollfarn gan lys y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu gerbron llys o'r fath, am drosedd na fyddai, pe bai'r ffeithiau a arweiniodd at y drosedd wedi digwydd yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, yn cael ei hystyried yn drosedd yn ôl y gyfraith sydd mewn grym yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig.

(6) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i berson os yw-

(a) o fewn cyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben ar y dyddiad yn union cyn y dyddiad y byddai ei benodi neu ei ethol yn llywodraethwr fel arall wedi dod i rym neu, yn ôl fel y digwydd, y dyddiad y byddai fel arall wedi dod yn llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd, neu

(b) ers ei benodi neu ei ethol yn llywodraethwr neu, yn ôl fel y digwydd, ers iddo ddod yn llywodraethwr yn rhinwedd ei swydd,

wedi ei gael yn euog o dan adran 547 o Ddeddf 1996(1) neu o dan adran 85A o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(2) (*niwsans neu aflonyddwch ar safle addysgol*) o drosedd ac wedi ei ddedfrydu i dalu dirwy.

Llywodraethwyr mwy na dwy ysgol

11.-(1) Ni chaiff unrhyw berson ddal swydd llywodraethwr mewn mwy na dwy ysgol ar unrhyw adeg.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) nid ystyrir swyddi llywodraethwyr *ex officio*, swyddi llywodraethwyr y mae Rheoliadau Ysgolion Newydd a Gynhelir (Cymru) 2005(3) yn gymwys iddynt nac unrhyw benodiad o dan adrannau 16, 16A, 18 neu 18A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

or she would otherwise have become a governor by virtue of his or her office, he or she has been convicted as aforesaid of any offence and has had passed on him or her a sentence of imprisonment for a period of not less than two and a half years.

(4) This sub-paragraph applies to a person if he or she has at any time been convicted as aforesaid of any offence and he or she has had passed on him or her a sentence of imprisonment for a period of not less than five years.

(5) For the purposes of sub-paragraphs (2) to (4) above, any conviction by or before a court outside the United Kingdom of an offence which, if the facts giving rise to the offence had taken place in any part of the United Kingdom, would not have constituted an offence under the law in force in that part of the United Kingdom must be disregarded.

(6) This sub-paragraph applies to a person if-

(a) within the period of five years ending with the date immediately preceding the date on which his or her appointment or election as governor would otherwise have taken effect or, as the case may be, on which he or she would otherwise have become a governor by virtue of his or her office, or

(b) since his or her appointment or election as governor or, as the case may be, since he or she became a governor by virtue of his or her office,

he or she has been convicted under section 547 of the 1996 Act(1) or under section 85A of the Further and Higher Education Act 1992(2) (*nuisance and disturbance on educational premises*) of an offence and has been sentenced to a fine.

Governors of more than two schools

11.-(1) No person may at any time hold office as governor in more than two schools.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1) no account is to be taken of *ex-officio* governorships, governorships to which the New Maintained Schools (Wales) Regulations 2005(3) apply or any appointment under sections 16, 16A, 18 or 18A of the 1998 Act

(1) Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1998 a chan adran 206 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 20 iddi.

(2) 1992 p.13; a roddwyd i mewn gan adran 206 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 20 iddi.

(3) O.S. 2005/2912 (Cy. 209).

(1) As amended by the 1998 Act and by section 206 of and Schedule 20 to the 2002 Act.

(2) 1992 c.13; inserted by section 206 of and Schedule 20 to the 2002 Act.

(3) S.I. 2005/2912 (W. 209).

Gwrthod gwneud cais am dystysgrif cofnodion troseddol

12. Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr ar unrhyw adeg pan fydd yn gwrthod cais gan y corff llywodraethu i wneud cais o dan adran 113 o Ddeddf yr Heddlu 1997(1) am dystysgrif cofnodion troseddol.

Hysbysu'r cler

13. Os-

- (a) yw person, yn rhinwedd unrhyw un o'r paragraffau 6 i 11, wedi ei anghymhwyso rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd fel llywodraethwr ysgol; a
- (b) mae'n llywodraethwr neu bwriedir ei fod yn llywodraethwr,

rhaid iddo roi gwybod i glerc y corff llywodraethu am y ffaith honno.

ATODLEN 6

(Rheoliad 38)

Darpariaethau Trosiannol

1. Yn yr Atodlen hon-

ystyr "corff llywodraethu cyfredol" ("*current governing body*") yw corff llywodraethu a gyfansoddwyd o dan offeryn llywodraethu sydd yn effeithiol cyn 31 Hydref 2005; ac

ystyr "llywodraethwr cyfredol" ("*current governor*") yw unrhyw berson a benodir neu a etholir i swydd fel aelod o gorff llywodraethu cyfredol ar 31 Hydref 2005 neu cyn hynny, ond nid unrhyw un a ailbenodir neu a ailetholir i swydd o'r fath wedi'r dyddiad hwnnw.

2. Ar y dyddiad y daw offeryn llywodraethu a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn yn effeithiol, neu ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd llywodraethwr cyfredol yn parhau'n llywodraethwr yn y categori cyfatebol o lywodraethwr sy'n ofynnol o dan yr offeryn llywodraethu, fel pe bai wedi'i benodi neu ei ethol i gategori o'r fath yn unol â'r Rheoliadau hyn, hyd yn oed os nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion perthnasol a osodir gan y Rheoliadau hyn ar gyfer llywodraethwr yn y categori hwnnw.

3. At ddibenion paragraff 2, y canlynol fydd y categorïau cyfatebol-

(1) 1997 c.50; fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf 2002.

Refusal to make an application for a criminal records certificate

12. A person is disqualified from holding or continuing to hold office as a governor at any time when he or she refuses a request by the governing body to make an application under section 113 of the Police Act 1997(1) for a criminal records certificate.

Notification to clerk

13. Where-

- (a) by virtue of any paragraphs 6 to 11 a person is disqualified from holding, or for continuing to hold, office as a governor of a school; and
- (b) he or she is, or is proposed to become, a governor,

he or she must give notice of that fact to the clerk to the governing body.

SCHEDULE 6

(Regulation 38)

Transitional Provisions

1. In this Schedule-

"current governing body" ("*corff llywodraethu cyfredol*") means a governing body constituted under an instrument of government that is in effect before 31 October 2005; and

"current governor" ("*llywodraethwr cyfredol*") means any person who is appointed to or elected to office as a member of a current governing body on or before 31 October 2005 but not any person who is reappointed or re-elected to such office after that date.

2. On or after the date on which an instrument of government made in accordance with these Regulations becomes effective, a current governor is to continue as a governor of the corresponding category of governor required by the instrument of government, as if he or she had been appointed to or elected to such category in accordance with these Regulations, even if he or she does not conform to the relevant requirements imposed by these Regulations for a governor of that category.

3. For the purposes of paragraph 2, the corresponding categories shall be as follows-

(1) 1997 c.50; as amended by the Protection of Children Act 1999, the Care Standards Act 2000 and the 2002 Act.

<i>Categori'r llywodraethwr cyfredol</i>	<i>Categori'r llywodraethwr o dan y Rheoliadau hyn</i>
Llywodraethwr cyfetholedig	Llywodraethwr cymunedol
Llywodraethwr cyfetholedig ychwanegol a benodwyd o dan baragraff 15(4) o Atodlen 9 i Ddeddf 1998	Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol
Llywodraethwr cyfetholedig ychwanegol a benodwyd o dan baragraff 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 1999	Noddwr-lywodraethwr
Llywodraethwr cynrychioliadol	Llywodraethwr cynrychioliadol
Llywodraethwr sefydledig (gan gynnwys llywodraethwr sefydledig <i>ex officio</i> a dirprwy lywodraethwr)	Llywodraethwr sefydledig (gan gynnwys llywodraethwr sefydledig <i>ex officio</i> a dirprwy lywodraethwr)
Llywodraethwr AALl	Llywodraethwr AALl
Rhiant-lywodraethwr	Rhiant-lywodraethwr
Llywodraethwr partneriaeth	Llywodraethwr partneriaeth
Staff-lywodraethwr	Staff-lywodraethwr
Athro-lywodraethwr	Athro-lywodraethwr
Pennaeth (llywodraethwr <i>ex officio</i>)	Pennaeth (<i>ex officio</i>)

<i>Category of current governor</i>	<i>Category of governor under these Regulations</i>
Co-opted governor	Community governor
Additional co-opted governor appointed under paragraph 15(4) of Schedule 9 to the 1998 Act	Additional Community Governor
Additional co-opted governor appointed under paragraph 2 of Schedule 1 to the 1999 Regulations	Sponsor governor
Representative governor	Representative governor
Foundation governor (including <i>ex officio</i> foundation governor and substitute governor)	Foundation governor (including <i>ex officio</i> foundation governor and substitute governor)
LEA governor	LEA governor
Parent governor	Parent governor
Partnership governor	Partnership governor
Staff governor	Staff governor
Teacher governor	Teacher governor
Head Teacher (<i>ex officio</i> governor)	Head Teacher (<i>ex officio</i>)

4. Bydd llywodraethwr cyfredol yn dal swydd llywodraethwr yn y categori cyfatebol o lywodraethwr o dan y Rheoliadau hyn hyd nes-

- (a) y byddai cyfnod y swydd a oedd yn gymwys ar y dyddiad y'i hetholwyd neu y'i penodwyd yn llywodraethwr cyfredol wedi dod i ben,
- (b) y bydd yn ymddiswyddo,
- (c) y caiff ei anghymhwysio rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr o dan y Rheoliadau hyn, neu
- (ch) 31 Awst 2008

pa un bynnag yw'r cynharaf.

4. A current governor will hold office as a governor of the corresponding category of governor under these Regulations until-

- (a) the term of office that applied at the date of his election or appointment as a current governor would have expired,
- (b) he or she resigns his or her office,
- (c) he or she becomes disqualified from holding or continuing to hold office as a governor under these Regulations, or
- (d) 31 August 2008

which ever is the earlier.

5. Nid yw'r Atodlen hon yn atal llywodraethwr cyfredol rhag-

- (a) cael ei ethol neu ei benodi'n llywodraethwr yn unrhyw gategori sy'n ofynnol o dan yr offeryn llywodraethu am gyfnod pellach, ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rheoliadau hyn; neu
- (b) cael ei ddiswyddo o dan reoliadau 27 i 29.

6. Wrth gyfrifo'r nifer o lywodraethwyr sy'n ofynnol ym mhob categori o dan yr offeryn llywodraethu, rhaid cynnwys llywodraethwr cyfredol a fydd yn parhau'n llywodraethwr wedi i offeryn llywodraethu a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

ATODLEN 7

(Rheoliad 63)

Cyfyngiadau ar bersonau rhag cymryd rhan yn nhradfodion y corff llywodraethu neu ei bwyllgorau

Buddiannau ariannol

1.-(1) At ddibenion rheoliad 63(2), mae buddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu fater arall yn cynnwys achos-

- (a) pan fo person perthnasol wedi ei enwebu neu ei benodi i swydd gan berson y gwnaed y contract ag ef neu y bwriedir gwneud y contract ag ef; neu
- (b) pan fo person perthnasol yn bartner i berson y gwnaed y contract ag ef neu y bwriedir gwneud y contract ag ef; neu
- (c) pan fo gan berthynas i berson perthnasol (gan gynnwys ei briod, ei bartner sifil o fewn ystyr "civil partner" yn Neddf Partneriaethau Sifil 2004(1) neu rywun sy'n byw gyda'r person hwnnw fel petai'n briod neu'n bartner sifil iddo), a'r person hwnnw'n gwybod hynny, fuddiant o'r fath neu y câi ei drin fel petai ganddo fuddiant o'r fath.

(2) At ddibenion rheoliad 63(2) ni chaiff person perthnasol ei drin fel petai iddo fuddiant ariannol mewn unrhyw fater-

- (a) ar yr amod nad yw ei fuddiant yn y mater yn fwy na buddiant cyffredinol y rhai hynny y telir iddynt am weithio yn yr ysgol;
- (b) yn unig oherwydd iddo gael ei enwebu neu ei benodi i'r swydd gan unrhyw gorff cyhoeddus, neu ei fod yn aelod o gorff o'r fath, neu'n cael ei gyflogi gan gorff o'r fath; neu
- (c) yn unig oherwydd ei fod yn aelod o gorfforaeth neu gorff arall os nad oes iddo unrhyw fuddiant ariannol mewn unrhyw warantau o

(1) 2004 p. 33.

5. This Schedule does not prevent a current governor from-

- (a) being elected or appointed as a governor of any category required by the instrument of government for a further term, save as otherwise provided in these Regulations; or
- (b) being removed from office under regulations 27 to 29.

6. A current governor, who continues as a governor after an instrument of government made in accordance with these Regulations becomes effective, must be included in calculating the number of governors required in each category under the instrument of government.

SCHEDULE 7

(Regulation 63)

Restrictions on persons taking part in proceedings of the governing body or its committees

Pecuniary interests

1.-(1) For the purposes of regulation 63(2), a pecuniary interest in a contract, proposed contract or other matter includes a case where-

- (a) a relevant person was nominated or appointed to office by a person with whom the contract was made or is proposed to be made; or
- (b) a relevant person is a partner of a person with whom the contract was made or is proposed to be made; or
- (c) a relative of a relevant person (including his or her spouse, civil partner within the meaning of the Civil Partnership Act 2004(1) or someone living with that person as if he or she were that person's spouse or civil partner) to the knowledge of that person has, or would be treated as having, such an interest.

(2) For the purposes of regulation 63(2) a relevant person is not to be treated as having a pecuniary interest in any matter-

- (a) provided his or her interest in the matter is no greater than the interest of the generality of those paid to work at the school;
- (b) by reason only of the fact that he or she was nominated or appointed to office by, is a member of, or is employed by, any public body; or
- (c) by reason only of the fact that he or she is a member of a corporation or other body if he or she has no financial interest in any securities of

(1) 2004 c.33.

eiddo'r gorfforaeth honno neu gorff arall.

(3) Ni rwystrir llywodraethwr, oherwydd ei fuddiant ariannol yn y mater, rhag ystyried a phleidleisio ynghylch cynigion i'r corff llywodraethu gymryd yswiriant i ddiogelu'r aelodau rhag rhwymedigaethau yr ânt iddynt sy'n deillio o'u swydd, ac ni rwystrir y corff llywodraethu, oherwydd buddiannau ariannol ei aelodau, rhag sicrhau yswiriant o'r fath a thalu'r premiymau.

(4) Ni rwystrir llywodraethwr rhag ystyried neu bleidleisio ynghylch unrhyw gynnig sy'n ymwneud â lwfansau sydd i'w talu'n unol â Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005(1) oherwydd bod iddo fuddiant mewn taliadau o lwfansau o'r fath i aelodau'r corff llywodraethu'n gyffredinol, ond rhaid i aelod o gorff llywodraethu neu o unrhyw bwyllgor o gorff llywodraethu fynd allan o gyfarfod pan ystyrir neu trafodir a ddylai ef gael lwfans arbennig, swm unrhyw daliad neu unrhyw gwestiwn ynghylch lwfans sydd wedi cael ei dalu iddo, a rhaid iddo beidio â phleidleisio arno.

Swydd llywodraethwr, cadeirydd, is-gadeirydd neu glerc

2.-(1) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo person perthnasol yn bresennol mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu ac un o'r canlynol yn fater i'w ystyried-

- (a) ei benodiad, ei ailbenodiad, ei ataliad dros dro neu ei ddiswyddiad ei hun fel aelod o'r corff llywodraethu neu bwyllgor;
- (b) ei benodiad neu ei ddiswyddiad ei hun fel clerc, cadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu neu fel clerc neu gadeirydd pwyllgor;
- (c) os yw'n noddwr-lywodraethwr, unrhyw benderfyniad o dan baragraff 2 o Atodlen 4 ynghylch y ddarpariaeth yn yr offeryn llywodraethu ar gyfer noddwr-lywodraethwyr.

(2) Mewn unrhyw achos pan fo is-baragraff (1) yn gymwys, ymdrinir â buddiannau'r person perthnasol at ddibenion rheoliad 63(2) fel pe baent yn gwrthdaro â buddiannau'r corff llywodraethu.

Arfarnu neu dalu i bersonau sy'n gweithio yn yr ysgol

3.-(1) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo person perthnasol y telir iddo am weithio yn yr ysgol ac eithrio fel pennaeth yn bresennol mewn cyfarfod o'r ysgol lle bo talu neu werthuso perfformiad unrhyw berson penodol a gyflogir i weithio yn yr ysgol dan ystyriaeth.

that corporation or other body.

(3) A governor is not, by reason of his or her pecuniary interest in the matter, prevented from considering and voting upon proposals for the governing body to take out insurance protecting members against liabilities incurred by them arising out of their office and the governing body shall not, by reason of the pecuniary interest of its members, be prevented from obtaining such insurance and paying the premiums.

(4) A governor is not prevented from considering or voting upon any proposal regarding allowances to be paid in accordance with the Governor Allowances (Wales) Regulations 2005(1) by reason that he or she has an interest in the payment of such allowances to members of the governing body generally but a member of a governing body or any committee thereof must withdraw from a meeting during a consideration or discussion of, and must not vote on, whether he or she should receive a particular allowance, the amount of any payment or any question about an allowance that has been paid to him or her.

Office of governor, chair, vice-chair or clerk

2.-(1) This sub-paragraph applies where a relevant person is present at a meeting of the school at which a subject of consideration is-

- (a) his or her own appointment, reappointment, suspension or removal as a member of the governing body or a committee;
- (b) his or her own appointment or removal from office as clerk to, or chair or vice-chair of, the governing body or clerk to or chair of a committee;
- (c) if he or she is a sponsor governor, any determination under paragraph 2 of Schedule 4 as to the provision in the instrument of government for sponsor governors.

(2) In any case where sub-paragraph (1) applies, the relevant person's interests are to be treated for the purposes of regulation 63(2) as being in conflict with the governing body's interests.

Pay or appraisal of persons working at the school

3.-(1) This sub-paragraph applies where a relevant person who is paid to work at a school other than as head teacher is present at a meeting of the school at which a subject of consideration is the pay or performance appraisal of any particular person employed to work at the school.

(1) O.S. 2005/2915 (Cy. 212).

(1) S.I. 2005/2915 (W. 212).

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo pennaeth ysgol yn bresennol mewn cyfarfod o'r ysgol lle bo talu iddo neu werthuso ei berfformiad ei hun dan ystyriaeth.

(3) Mewn unrhyw achos lle bo is-baragraff (1) neu (2) yn gymwys, ymdrinir â buddiannau'r person perthnasol at ddibenion rheoliad 63(2) fel pe baent yn gwrthdaro â buddiannau'r corff llywodraethu.

Penodi Staff

4. Pan fo person perthnasol a gyflogir i weithio mewn ysgol yn bresennol mewn cyfarfod o'r ysgol a phenodi olynnydd i'r person hwnnw dan ystyriaeth, rhaid iddo adael y cyfarfod pan ystyrir neu pan drafodir y mater dan sylw, a rhaid iddo beidio â phleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r mater hwnnw.

Personau sy'n aelodau o fwy nag un corff llywodraethu

5. Nid ystyrir dan unrhyw amgylchiadau y ffaith bod person yn llywodraethwr neu'n aelod o bwyllgor corff llywodraethu mewn mwy nag un ysgol yn achos o wrthdaro rhwng buddiannau at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) This sub-paragraph applies where a head teacher of a school is present at a meeting of the school at which a subject of consideration is his or her own pay or performance appraisal.

(3) In any case where sub-paragraph (1) or (2) applies, the relevant person's interests are to be treated for the purpose of regulation 63(2) as being in conflict with the governing body's interests.

Appointment of Staff

4. Where a relevant person who is employed to work at a school is present at a meeting of the school at which a subject of consideration is the appointment of a successor to that person, he or she must withdraw from the meeting during the consideration or discussion of the matter in question and must not vote on any question with respect to that matter.

Persons who are members of more than one governing body

5. The fact that a person is governor or member of a committee of the governing body at more than one school is not under any circumstances to be considered a conflict of interest for the purpose of these Regulations.

©© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Cyhoeddwyd gan The Stationery Office Limited
ac mae ar gael oddi wrth:

The Stationery Office

(Archebion post, ffon a ffacs yn unig)

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522

Archebion ffacs 0870 600 5533

book.orders@theso.co.uk

<http://www.ukstate.com>

<http://www.ukstate.com>